

## Rhagair

Tardda'r ieithoedd Brythonig (Cernyweg, Cymraeg, Llydaweg) a Goidelig (Gaeleg yr Alban, Gwyddeleg, Manaweg) o'r Gelteg, sy'n un o is-deuluoedd yr ieithoedd Indo-Ewropeaidd. Dosberthir enwau ac ansoddeiriau'r ieithoedd Celtaidd mewn grwpiau yn ôl y sain derfynol ym môn y gair Celteg, ond nid yw'r sain hon bellach yn amlwg yn yr ieithoedd Celtaidd newydd. Ceir tri chategori ar ddeg o fonau mewn Hen Wyddeleg. Llafarog yw saith ohonynt, sef bonau-*o*, *-io*, *-ā*, *-iā*, *-jā*, *-i* ac *-u*. Ceir chwe bôn cytseiniol: bonau gyddfol wedi eu treiglo'n feddal (*-ch*, *-γ*), deintiolion wedi eu treiglo'n feddal (*-th*, *-δ*), bonau-*nt*, bonau-*n*, bonau-*r* a bonau-*s*.<sup>1</sup> O'r rhain, mae'r geiriau Cymraeg a drafodir yn y traethawd hwn yn dangos bonau yn *o*, *io*, *ā*, *i* ac *u* yn ogystal â bonau-*n*, *-nt*, *-r*, ac *-s*.

Mae rhai geiriau'n cadw eu terfyniadau lluosog gwreiddiol, h.y. y rhai sy'n tarddu'n rheolaidd o'r Gelteg. Yr oedd rhai terfyniadau'n fwy cynhyrchiol nag eraill, ac felly'n lledu i enwau lle na cheid y terfyniadau hynny yn hanesyddol. Gall nifer o luosogion gydfodoli ar gyfer yr un enw. Weithiau disodlir y lluosog gwreiddiol yn gyfan gwbl, ac mae hyn yn arbennig o wir yn achos rhai enwau benywaidd a diryw lle y byddai'r unigol a'r lluosog yn unffurf ar yr un adeg.

Yn y rhan gyntaf o'r traethawd hwn, rhestrir sampl o bob gair yn yr Atodiad (sef geiriau rhwng A a D, a rhwng M ac Y)<sup>2</sup> sydd â mwy nag un ffurf luosog. Sefydli'r wedyn, lle y gellir, ffurf wreiddiol y gair hwnnw. Mae pob paragraff yn dechrau drwy gymharu'r ffurfiau cytras (neu yn achos benthyciadau, ffurfiau a fenthyciwyd o'r un gair) yn yr ieithoedd Celtaidd eraill. Defnyddir y rhain er mwyn cynnig geirdarddiad o'r Gelteg neu o'r Indo-Ewropeg sy'n dangos bôn y gair. Amcan yr astudiaeth hon yw sefydlu i ba raddau yr oedd y Gymraeg wedi tyfu'n wahanol i'r Gelteg o ran ei lluosogion erbyn y testunau Cymraeg cynharaf sydd gennym.

Yn yr ail ran o'r traethawd, trafodir pob ffurfiad lluosog a ddangosir gan y geiriau yn y rhan gyntaf. Gwahaniaethir rhwng y rhai sy'n dilyn y ffurfiadau'n hanesyddol a'r rhai sydd wedi eu mabwysiadu drwy gydweddiad. Yn y modd hwn, gwelir pa derfyniadau a ledai yn aml, a pha rai a dueddai i gael eu disodli. Mae'n ymddangos bod Cymraeg Cynnar wedi newid y system Indo-Ewropeaidd i raddau mwy nag y gwnaeth Hen Wyddeleg. Gwelir, yn arbennig, luosogion enwau diryw a lluosogion benywaidd y bonau-*ā*, a fyddai wedi bod yn unffurf â'r unigol, yn cael eu disodli, fel na welir olion clir ohonynt yn y testunau cynnar. Yn

---

<sup>1</sup> GOI, t. 163.

<sup>2</sup> Dewiswyd y llythrennau hyn er mwyn manteisio ar LEIA, sy'n cynnwys geiriau rhwng y llythrennau A-D ac M-U.

achos Beirdd y Tywysogion, gwelir hefyd mai'r lluosog sy'n addas yn fydryddol yw'r un a ddewisir ganddynt yn aml iawn, a gall yr un bardd ddefnyddio llawer o wahanol luosogion ar gyfer un gair.

Yn aml iawn yn yr ieithoedd Brythonig, gwelwn fod enwau ac ansoddeiriau'n cymryd sawl terfyniad lluosog (ac affeithiad-*i*). Mae'r ffenomen hwn wedi cael ei astudio'n fanwl yn achos y Llydaweg, a Llydaweg Modern yn arbennig.<sup>3</sup> Yn y traethawd hwn, dangosir bod modd cymharu'r system Gymraeg gan fod nifer o wahanol luosogion posibl i'r un gair yn yr iaith hon hefyd. Ymddengys na cheir amrywiad semanteg mor fawr ag yn y Llydaweg, ond bydd angen astudio'r agwedd hon ymhellach.<sup>4</sup>

Cynnwys y sampl yn yr Atodiad glosau Hen Gymraeg a geir yn llawysgrifau'r nawfed ganrif a restrir yn Falileyev 2000. Cynhwysir hefyd y rhannau Hen Gymraeg yn Llyfr Llandaf (Evans & Rhys 1893) a ysgrifennwyd yn gynnar yn y ddeuddegfed ganrif.<sup>5</sup> Rhestrir pob lluosog o *Llyfr Du Caerfyrddin* (Jarman 1982), golygiad o lawysgrif a ddyddir i ganol y drydedd ganrif ar ddeg, ac o *Canu Aneirin* (Williams 1961), sef golygiad o Lyfr Aneirin a ddyddir hefyd i'r drydedd ganrif ar ddeg. Credwn, er hynny, i'r llawysgrif hon gael ei chopio o ffynonellau cynharach, efallai o'r nawfed ganrif, ac mae'n bosibl bod iaith y farddoniaeth hyd yn oed yn hŷn na hynny. Ceir yn yr Atodiad bob lluosog o holl waith Beirdd y Tywysogion (Gruffydd *et al.* 1991-6). Ceir y rhan fwyaf sylweddol o waith y beirdd hyn yn Llawysgrif Hendregadredd a ddyddir i droad y drydedd ganrif ar ddeg ac i chwarter cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg. Ceir eu gwaith mewn llawysgrifau eraill megis y Llyfr Coch Hergest a gopiwyd tua 1400. Seilir yr astudiaeth, felly, ar destunau mewn sampl o lawysgrifau a ddyddir cyn tua 1300 ac ar gerddi gan feirdd a ganai tua'r un cyfnod.

---

<sup>3</sup> Gw. Trépos 1957 ac Acquaviva 2008.

<sup>4</sup> Cymh. Acquaviva, *Lexical Plurals*, t. 242: 'Breton, much more than other languages, uses for word-formation a category whose chief domain of application is inflectional morphology, namely, nominal plurality.'

<sup>5</sup> Ychwanegir lluosogion perthnasol o EWSP at Ran 1 y traethawd, er nad yw'r llyfr hwn yn rhan o'r prif sampl, oherwydd mae'n debyg fod rhai o'r englynion yn gynnar iawn er bod y prif gopiau'n ddiweddar.

## Rhan 1: Geiriau a chanddynt fwy nag un ffurf luosog mewn testunau Hen Gymraeg a Chymraeg Canol Cynnar

*Ymdrinnir yn y rhan hon â geiriau rhwng A a D, a rhwng M ac Y, a chanddynt fwy nag un ffurf luosog yn y sampl (Atodiad). Rhestrir cenedl pob gair a'r cyfieithiadau o GPC yng ngholofn 4 o'r tabl, ffurfiau lluosog / torfol cyfoes yng ngholofn 3 (ond sylwer y rhestrir hefyd y ffurfiau Hen Gymraeg a Chymraeg Canol gan GPC weithiau), hen ffurfiau unigol yng ngholofn 2 a'r hen luosog yng ngholofn 1. Yng ngholofn 5, cyfeirir at y testun cynharaf yn CBT, ond rhestrir enw pob bardd sy'n defnyddio'r ffurf luosog hon yng ngholofn 6.*

aberoedd	aber, aper	-au, -oedd, -ydd, ebyr, -on, -i	<b>ABER</b> eg.b. 'river mouth, estuary'	CBT 4.18.4	Cynddelw Brydydd Mawr
aperou			aber	Ang 17 a	
deu ebyr			aber	CA GM	
ebyr			aber	CA A.3 CBT 3.4.4	Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Iorwerth Fychan

Cymh. EWSP tt. 407, 434, 450 ebyr

H. Gym. *aper* (a ddisodlodd *oper*); H. Grn. *aber*; Llyd. C. *aber*, Llyd. M. ll. *aberioù* < Clt. \**ad-ber-* neu \**od-ber-*. Awgryma J. Morris Jones fod *ebyr* yn gyflwr traws unigol ond nid esbonia sut.<sup>6</sup> Dadleua Koch mai 'petrified oblique sg. < Brit.neuter, masc. \**in adberū* or fem. *adberī*' yw *ebyr* a rhydd enghreifftiau o'r defnydd hwn yn *Canu Llywarch Hen* ac yn Llyfr Taliesin. Rhestrir *ebyr* fel lluosog gan Pedersen.<sup>7</sup>

Cymharer H. Wydd. *inber*, *indber* o, g. (yn gynt diryw) 'aber', e.e. *inber n-Ailbine*, *inber mBóinne*, ll. *na hinbir*, *inbhera*, Gwydd. M. *in-bhear*.<sup>8</sup>

Ceir *kynebyr* yn Llyfr Taliesin ac mae'n debyg mai lluosog *kynaber* 'aber, morryd' ydyw, ond byddai ystyr megis 'brwydr' yn bosibl hefyd.<sup>9</sup> Cyfieitha Haycock 'estuaries' yma.<sup>10</sup>

Mae'r gymhariaeth â ffurf wrywaidd yr Wyddeleg yn awgrymu mai *ebyr* yw'r lluosog

<sup>6</sup> Morris Jones, J., 'Taliesin', *Y Cymmrodor* 28 (1918), 197.

<sup>7</sup> Koch, John T., *The Gododdin of Aneirin: Text and Context from Dark Age North Britain*, Cardiff, 1997, t. 179; VKG I, t. 377.

<sup>8</sup> DIL; VKG I, t. 480.

<sup>9</sup> G, t. 246a.

<sup>10</sup> LPBT, t. 390.

mwyaf hynafol ac fe'i cymerir yma felly. Ar y llaw arall, os diryw oedd y gair Cymraeg gwreiddiol hefyd, disgwylid *aber*, ll. \**aber*. Os felly, ffurfiau newydd yw *ebyr*, *aberoedd* ac *aperou*. Defnyddia Cynddelw Brydydd Mawr *ebyr* (sy'n odli â *llŷr* ddwywaith) yn ogystal ag *aberoedd* (gofynnir y ffurf hirach gan hyd y llinell). Yng ngwaith Llywarch ap Llywelyn mae *ebyr* yn odli â *llŷr* eto ('kyntwryf yn ebyr, llyr yn llenwi') ac ag *eryr*. Fe'i hodlir â *mŷr* mewn cerdd gan Iorwerth Fychan. Mae'n ddiddorol y ceir *ebyr* yn gyson gan Feirdd y Tywysogion am fod hynny'n awgrymu nad oedd wedi cael ei ddisodli gan *aberoedd*.

Ceir lluosog gwahanol, sef *aperou*, gl. *ostia*, yn Ang 17 a. Noda Falileyev, yn dilyn Fleuriot, 'the plural form in *-ou* (Breton *-iou*) could indicate the Welsh provenance of this word.'<sup>11</sup>

aesawr			<b>AESAWR</b> , aesor eb.g. / ll. 'shield, shields'	CBT 3.14.31	Cynddelw Brydydd Mawr Llygad Gŵr
aessaur			aesawr, aesor	BBC 34.11	
aessawr			aesawr, aesor	CA A.14 CBT 1.9.126	Gwalchmai ap Meilyr Llywelyn Fardd I Seisyll Bryffwrch Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Hywel Foel

Cymh. EWSP tt. 461, 462 aessaur

Rhestrir *aesawr*, *aesor* fel gair gwahanol i *aes* (un. / ll.) gan GPC<sup>2</sup>. Mae'n ddiddorol mai *-awr* yw'r unig derfyniad lluosog i'r gair hyd yn oed yng ngwaith Beirdd y Tywysogion, sydd fel arfer yn defnyddio sawl lluosog ar yr un gair. Gallai *aes* fod yn enw torfol yn wreiddiol oherwydd ceir nifer o enghreifftiau ohono fel lluosog. Posibilrwydd arall yw disgwyl *aes*, ll. \**aes* (hen ddiryw) gyda lluosog newydd yn *-awr*. Ni thrafodir tarddiad y gair gan yr ieithyddion. Gweler y bennod ar *-AWR* am drafodaeth bellach, ac am *-awr* > *-or* yn achos y gair hwn.

angylion	agel, angel	angylion, angelion, angelon	<b>ANGEL</b> eg. 'angel'	CBT 6.31.71	Dafydd Benfras
eggylyon			angel	CBT 3.21.213	Cynddelw Brydydd Mawr
egilion			angel	BBC 5.135	
egylyon			angel	CBT 1.3.170	Meilyr Brydydd Gwalchmai ap Meilyr

<sup>11</sup> Falileyev, Alexander, *Etymological Glossary of Old Welsh*, Tübingen, 2000, t. 9.

					Elidir Sais Einion ap Gwalchmai Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Llywelyn Fardd II Madog ap Gwallter Gruffudd ab yr Ynad Coch
engyl			angel	CBT 5.2.68	Llywarch ap Llywelyn
engylion			angel	CBT 4.18.38	Cynddelw Brydydd Mawr Mawl Llywelyn ab Iorwerth
eigyl			angel	CBT 1.9.37	Gwalchmai ap Meilyr Gwynfardd Brycheiniog

Benthyciad o'r Llad. *angelus*, a daw'r ll. *engyl* hefyd o'r ll. Llad. *angelī*; H. Grn. *ail* gl. *angelus*, Crn. C. *el*, ll. *eleth*; Llyd. C. *ael*, Llyd. M. *eal*; H. Wydd. *aingel* o, g., ll. *aingil*, *angil*, Gwydd. M. *aingeal*.<sup>12</sup>

*Engyl* yw'r ffurf sy'n tarddu o'r lluosog Lladin, felly. Fe'i gwelir gan Lywarch ap Llywelyn, gan Walchmai ap Meilyr a chan Wynfardd Brycheiniog. Ceir y terfyniad *-ion* mor gynnar â BBC a Llyfr Taliesin. Esbonia'r cyflythreniad pam y ceir *angyl-* heb affeithiad yn 'Mihangel angel a'r angylion' ac *-on* yw prifodl y gerdd. Amheus yw ?*engyl*yeu yn Llyfr Coch Hergest.<sup>13</sup>

alauoed	alaf, alaw	-oedd, -au, elyf	<b>ALAF</b> eg. 'herd (of cattle and horses); wealth'	CA A.40	
alauoet			alaf	CBT 3.24.136	Cynddelw Brydydd Mawr
elyf			alaf	CBT 1.9.143	Gwalchmai ap Meilyr Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn

Gwydd. C. *alam* 'buches' dir.?, hefyd *alma*, gen. *alaim*. Ni restrir ond y lluosog anarferol *albi* yn DIL; ychwanega Vendryes 'et aussi *ealma* et *ealba*, *elba*, peut-être sous l'influence de *elta*'.<sup>14</sup> Mae Schrijver yn ategu'r awgrym olaf hwn ac yn awgrymu efallai mai *bôn-o* yw *alam*.<sup>15</sup>

Awgrymir grym ansoddeiriol 'lluosog, drudfawr' i *elyf* weithiau, a dyma sut y gellir ei

<sup>12</sup> DIL; GPC; Lewis, Henry, *Llawlyfr Cernyweg Canol*, Caerdydd, 1946, t. 12; VKG I, t. 224.

<sup>13</sup> CBT 6, t. 483; G, t. 16a.

<sup>14</sup> DIL; GPC<sup>2</sup>; LEIA, A-59-60.

<sup>15</sup> SBCHP, t. 75.

gyfieithu yng ngherdd Gwalchmai ap Meilyr ('elyf donyeu', cymh. 'drudfawr roddion' yn y fersiwn Cymraeg Modern o'r gerdd).<sup>16</sup> Gellir ei gymharu, efallai, â'r S. 'wealth of'. Ceir defnydd tebyg yn *elyflu* 'llu mawr, torflu' (glosau Juvenicus *elimlu*).<sup>17</sup>

Ni cheir *elyf* fel ansoddair yng ngherddi Cynddelw Brydydd Mawr ac mae'n amlwg ei fod yn enw yn 'elyf nawt, adrawt edrywant', lle y'i gofynnir gan hyd y llinell, ac yn 'a'th tir a'th degwch a'th elyf a'th elwch', lle y ceir cynghanedd. Ceir cynghanedd eto yn '...elwch, / elyf dreic dragon digrifwch' ac yn 'am elyf uedyt, am eluyt glawr'.<sup>18</sup> Ceir *alauoet* unwaith yng ngwaith Cynddelw yn odli â *llyssuet*.<sup>19</sup>

Os bôn-o, dir., yw'r Gwydd. *alam*, ac os ceir yr un patrwm yn y Gymraeg, disgwylir yr un ffurf yn yr unigol ac yn y lluosog, ond gwelir uchod nad yw hyn yn sicr. *Alafoedd* yw'r lluosog yn CA, yn ogystal ag yn Llyfr Coch Hergest ac yn Llyfr Gwyn Rhydderch, ac awgryma hyn y gall *elyf* fod yn lluosog ffug hynafol gan Feirdd y Tywysogion.<sup>20</sup> Nid yw hyn yn esbonio'r defnydd ansoddeiriol. A yw *elyf* yn ffurf a ddefnyddid mewn cyfansoddiadau ansoddeiriol megis *elyflu* (cymh. cyfieithiadau GPC 'great host, vast multitude or throng') ac sy'n cael ei defnyddio'n 'gywir' gan Walchmai ap Meilyr ond nid gan Gynddelw? Cymharer yr ans. *anelyf* 'anfesuro, afrifed, mawr'; ni ellir darllen 'gyrr o wartheg' neu 'cyfoeth' yma.

Awgryma Vendryes fod *elyf* yn cael ei ddefnyddio fel gair annibynnol am '*troupeau, troupe*', nid am '*richesse*' fel *alafoedd*, ond nid yw hyn yn wir yng ngwaith Beirdd y Tywysogion, fel y gwelir uchod.<sup>21</sup>

Mae Haycock yn deall *elyw* yn Llyfr Taliesin fel *elif* 'oil, unguent', ond dywed na ellid gwrthod *elyf* fel posibilrwydd chwaith.<sup>22</sup>

amdrychoet	amdroch, amdrwch	amdrychion, amdrychiaid, amdrychioedd	<b>AMDRWCH</b> ans. 'wounded, injured'	CBT 4.4.34	Cynddelw Brydydd Mawr
amdrychyon			amdrwch	CA A.68 CBT 4.4.35	Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn

Cymh.

<sup>16</sup> CBT 1, tt. 201; 210; 221.

<sup>17</sup> G, t. 471a; GPC; Huws, Daniel, *Medieval Welsh Manuscripts*, Cardiff, 2000, t. 213.

<sup>18</sup> CBT 4, tt. 49; 131; 182; 304.

<sup>19</sup> CBT 3, t. 297.

<sup>20</sup> GPC.

<sup>21</sup> LEIA, A-60.

<sup>22</sup> LPBT, t. 267.

trychion	troch, truch, trwch, tr6ch	trychion (ans.); trych(i)on	<b>TRWCH</b> ans. 'unfortunate, sad; wounded'	CBT 2.22.36	Seisyll Bryffwrch Dafydd Benfras
trychon			trwch	CBT 2.24.5	Seisyll Bryffwrch
trychyon			trwch	CA A.44 CBT 1.8.48	Gwalchmai ap Meilyr Cynddelw Brydydd Mawr

Yn ôl GPC, ansicr yw'r berthynas rhwng *trwch* eg. 'thickness, density', *trwch* 'unfortunate, sad; wounded', a H. Grn. *troc* gl. *miser*, *trech* gl. *truncus*, *trech* gl. *frustrum*, Crn. C. a Crn. M. *trog*, ll. *trog*how, *treg*hyon 'wedi torri; [yn y ll.] cwys, rhigol, toriad'; H. Lyd. *truch* gl. *obtus*i, Llyd. C. *trouch*, Llyd. Diw. *tro(u)c'h*, ll. *troc'h(i)ou* 'toriad, cwt'; Gwydd. C. *trú* k, g. a b. (ond ceir hefyd fôn deintiol yn Gwydd. M., ll. *trotha*, *trutha*, a hefyd enw un. *trúgh*), ll. *troich* 'dyn wedi ei gondemnio i farw'. Rhestrir *trú* gan Pedersen fel un o'r bonau-*k* / -*g* unsill. Cymharer *trux*, *trucis* "farouche, violent" yn y Lladin.<sup>23</sup>

Mae'r Wyddeleg yn awgrymu ll. Cym. \**trwg* < \**trukes*, ac felly terfyniadau newydd yw *-ion* ac *-ioedd*.<sup>24</sup> Ceir *-ioedd* fel terfyniad enwol yn unig a cheir *-(i)on* fel terfyniad ansoddeiriol ac enwol yn y sampl.

eirch ? CA, t. 329: bai am <i>seirch</i> neu ll. <i>arch</i>	arch	eirchion, archau, eirch, eirchon, eirchiau	<b>ARCH</b> eb.g. 'command; request'	CA A.93	
eirchion			arch	CBT 6.31.20	Dafydd Benfras

Enw o'r ferf *archaf*: *erchi* yw hwn. Ni restrir yr *eirch* ansicr yn CA gan GPC<sup>2</sup>.<sup>25</sup> Bôn berfol yw Crn. C. *arg-*; Llyd. C. *arc'h-*; a H. Wydd. *arc-* a welir yn *athchomarc*, derb. ll. *aidchomarcaib*; *tochmarc* o, dir., yn ddiweddarach g.<sup>26</sup> Cymharer hefyd Crn. *erghy*, *yrghy* 'erchi', *dynn-argh* 'cyfarchiad'.<sup>27</sup>

Dywed Lloyd-Jones y 'gellid llu. *erch* (am feirch) yn rhai o'r enghreifftiau.' Ceir ?*archau* yn llawysgrif Gwyneddon 3 (tua 1595) a diwygiwyd *agheu* yn Llyfr Taliesin i

<sup>23</sup> GPC; GOI, t. 204; Hemon, Roparz (gol.), *Geriadur Brezhoneg gant skouerioù ha skeudennoù*, Ar Releg-Kerhuon, 1995; LEIA, T-152-3; Nance, R. Morton (gol.), *An English-Cornish and Cornish-English Dictionary*, Cornish Language Board, 1978; VKG II, t. 97.

<sup>24</sup> CCCG, t. 174.

<sup>25</sup> GPC<sup>2</sup>.

<sup>26</sup> DIL; DOB; SBCHP, t. 375.

<sup>27</sup> LEIA, A-86.

*archeu*, ond ansicr yw'r enghreifftiau hyn.<sup>28</sup> Os diryw oedd Cym. *arch* megis *tochmarc*, gellir awgrymu *arch*, ll. \**arch*.

archollau	archoll	-ion, -on, -iau, -au, erchyll	<b>ARCHOLL</b> eb.g. 'wound, cut'	CBT 6.29.63	Dafydd Benfras
archolleu			archoll	CBT 1.27.42	Einion ap Gwalchmai Cwyn y Pererin (dienw) Gruffudd ab yr Ynad Coch
erchyll			archoll	CBT 7.53.16	Bleddyn Fardd

Mae'n debyg fod *archoll* yn cynnwys *ar + hollt, holl*, sy'n tarddu o Brth. \**are-skolt-* (\**skolt-* > Cym. *hollt*).<sup>29</sup>

Os ceir *hollt* yn y ffurf gyfansawdd, cytras yw'r bôn â Gwydd. M. *scoiltim* 'holtaf', Gwydd. C. *scoilt, scailt* b. 'holtt'; Crn. M. *feldzha* 'holtti'; Llyd. *faouta, faout*, ll. -où (tafodiaith Gwened *feute*, ll. *feuteu*) 'holtt'.<sup>30</sup> Mae'r dystiolaeth Wyddeleg yn rhy ddiweddar i fod yn ddibynadwy. Gwelir yn aml yn y traethawd hwn fod geiriau Gwyddeleg yn newid eu bonau erbyn cyfnod Gwyddeleg Canol. Mae'r dystiolaeth a geir yn y Llydaweg o blaid *-au* fel terfyniad lluosog gwreiddiol. Fe'i rhestrir yma fel y terfyniad mwyaf tebygol ond mae'n rhaid gadael y cwestiwn yn agored.

Mae'n annhebyg y ceir *coll* yn yr ail elfen oherwydd disgwylir *c > g* (\**ar-goll*), nid *-ch-*, mewn ffurf gyfansawdd.

arfeu	araf, arm, aryf	-au, eirf, yrf	<b>ARF</b> eg.b. 'weapon, arm; pl. armour'	CBT 1.18.17	Elidir Sais Cynddelw Brydydd Mawr Dafydd Benfras
arfev			arf	BBC 17.37	
ariweu			arf	BBC 30.84	
arueu			arf	CA A.31 CBT 1.9.96 (gw. t. 217)	Gwalchmai ap Meilyr Einion ap Gwalchmai Llywelyn Fardd I Owain Cyfeiliog Llywarch Llaety Gwynfardd Brycheiniog Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Phylip Brydydd Mawl Llywelyn ab Iorwerth Einion ap Madog ap

<sup>28</sup> G, t. 35a; Williams, Ifor, 'Ymddiddan Arthur ac Eryr' BBCS 2 (1925), 269, 274.

<sup>29</sup> GPC<sup>2</sup>; LEIA, S-48.

<sup>30</sup> DIL; GIB; GPC; VKG I, t. 77.



					Rhahawd Dafydd Benfras Y Prydydd Bychan Hywel Foel Llygad Gŵr Madog ap Gwallter Bleddyn Fardd
arveu			arf	CA GK	
arwev			arf	BBC 18.169	
eiryf			arf	CBT 1.20.17	Elidir Sais Einion ap Gwalchmai Y Prydydd Bychan
yryf			arf	CBT 2.13.3	Hywel ab Owain Gwynedd

Cymh. EWSP t. 456 ariweu, t. 458 arwev, arueu

Crn. *arv*, ll. *arvow*; Gwydd. *arm* o, dir., yn ddiweddarach g. (gen. *airm*, ll. *arma*, *armma*) < Llad. *arma* dir. (ag ystyr lluosog a thorfol). Mae Gwydd. *arm* yn aml yn dorfol a'i ystyr yw 'armour, battle-equipment, panoply'. Daw Llyd. *arm*, ll. *armou* (*armo*, *arueu*) o'r Ffrangeg.<sup>31</sup>

Rhestrir *araf* ac *aryf* fel amrywiadau ar y ffurf unigol gan Lloyd-Jones.<sup>32</sup> Ceir *eiryf* yn Llyfr Taliesin, 'collocated with *aryf*, as here, in CBT IV (Cynddelw) 9.161; and VII 8.4 and 11 (Prydydd Bychan)'.<sup>33</sup>

Defnyddia Beirdd y Tywysogion *eiryf* ac *yryf* yn ôl gofynion yr odl.<sup>34</sup> Yn achos *yryf*, gan Hywel ab Owain Gwynedd, awgrymir y gall fod 'camdreiglo *cor(y)f* er mwyn cytseinedd'.<sup>35</sup>

Os rhedid *arf* fel enw diryw, megis yn yr Wyddeleg, disgwyliid *arf*, ll. *\*arf*. Os unigol yw *aryf*, fe'i ceir â grym torfol yn CA A.23 a GT; cymharer cyfieithiad Ifor Williams 'arfau ar chwâl'.<sup>36</sup> Nid yw hyn yn annhebygol wrth ystyried y defnydd torfol yn y Lladin ac yn yr Wyddeleg. Ar y llaw arall, noda GPC<sup>2</sup> fod *arfau* yn cael ei ddefnyddio'n unigol. Yn Llyfr Gwyn Rhydderch, er enghraifft, ceir 'vn arueu ar dec'. Cymharer y modd na ddefnyddir S. *arms* (< Llad. *arma* hefyd) yn ei ffurf unigol *arm* fel arfer.<sup>37</sup>

<sup>31</sup> DIL; GIB; GPC; LEIA, A-89; Lewis, Charlton T. & Short, Charles, *A Latin Dictionary Founded on Andrews' Edition of Freund's Latin Dictionary*, Oxford, 1879; VKG I, t. 241.

<sup>32</sup> G, t. 38a.

<sup>33</sup> LPBT, t. 213.

<sup>34</sup> CBT 1, tt. 376, 438; CBT 7, 73.

<sup>35</sup> CBT 2, t. 179.

<sup>36</sup> CA, t. 141.

<sup>37</sup> Simpson, J.A. & Weiner, E.S.C. (goln), *The Oxford English Dictionary*, ail argraffiad, cyfrol 1, Oxford, 1989.

arwydon	arwyd, arwyt	-ion, -on, ll. dwbl arwyddonau	<b>ARWYDD</b> eg.b. ‘sign, gesture’	CBT 2.5.7	Llywelyn Fardd I Cynddelw Brydydd Mawr Gruffudd ab yr Ynad Coch
arwyton			arwydd	CBT 7.22.20	Hywel Foel
arwytyon			arwydd	CBT 4.6.221	Cynddelw Brydydd Mawr

Cytras â H. Wydd. *airde* io, dir. (yn ddiweddarach b.), Gwydd. M. *airdhe*; H. Lyd. *aroued-ma* gl. *signaculum*; Llyd. C. *argoez*, *argouez*, *arvoez*; Llyd. M. *arouez*, ll. *-ioù* < Brth. *\*are-wēd-ijo* < Clt. *\*ari-weid-* o’r gwreiddyn *\*weid-* ‘gweld’, fel yn y Llad. *video*.<sup>38</sup>

Mae *\*are-wēd-ijo* yn fôn-*jo* sy’n rhoi *arwydd*, ll. *\*arwydd* yn hanesyddol, ac ystyrir y lluosogion yn y sampl fel rhai newydd, felly.<sup>39</sup>

asseu	assen	asennau, asau, ais, eisau, eisiau	<b>ASEN</b> eb. ‘rib; breast’	CBT 1.3.111	Meilyr Brydydd Einion ap Gwalchmai
eis			asen	BBC 18.202 CA A.23 CBT 1.7.103	Gwalchmai ap Meilyr Cynddelw Brydydd Mawr

Cymh. EWSP t. 462 eis ‘spears’ (cymh. hefyd AES)

H. Grn. *asen*, ll. *asow*; Gwydd. *asna*, *esna* g. (a restrir gan Pedersen o dan y bonau-*ī*, *-jo* ac *-jā*), ll. *asnai* a hefyd *asnada*, *esnada* < IE *\*ast-*.<sup>40</sup>

*Eis* yw’r lluosog yn CA, yn BBC ac yng ngherddi Gwalchmai ap Meilyr (yn odli â *gweleis*) ac yng ngwaith Cynddelw Brydydd Mawr (yn odli â *dreis*, *meirw* a *meirch*). Ceir *asseu* gan Feilyr Brydydd (‘asseu taleu’) a chan Einion ap Gwalchmai (yn y brifodl *-eu*). Mae’n nodweddiadol na cheir y lluosog diweddarach *asennau* yn y sampl hwn. Gan GPC, fe’i rhestrir am y tro cyntaf yng ngwaith Tudur Aled (15-16g.).<sup>41</sup>

Mae Vendryes yn rhestru *asen* fel ffurf unigolynnol ar *\*as*, ffurf na cheir mohoni, er bod ffurfiau lluosog *ais*, *asau*, *asseu*.<sup>42</sup> Goroesa fel yr elfen gyntaf yn *as-cwrn*.<sup>43</sup> Cytuna Pedersen fod *asen* yn ffurf newydd unigolynnol yn *-en*, ond awgryma hefyd ‘lautlich könnte jedoch ais auch *\*astō* (Nom. eines *n*-Stammes) sein und asen aus den obliquen Casus des *n*-

<sup>38</sup> DIL; GIB; GPC; LEIA, A-41; Wodtko, Dagmar S. *et al.*, *Nomina im Indogermanischen Lexikon*, Heidelberg, 2008, t. 719.

<sup>39</sup> CCCG, t. 167.

<sup>40</sup> DIL; GPC; VKG I, t. 85.

<sup>41</sup> GPC.

<sup>42</sup> LEIA, A-94.

<sup>43</sup> SBCHP, t. 53.

Stammes hervorgegangen sein.’ Ceir un. *dalen* o *deil* yn yr un modd.<sup>44</sup> Os felly, byddem yn cael  $-\bar{o} > -\bar{u} > -\bar{u} > -\bar{i}$  > affeithiad yn  $*ast\bar{o} > eis$ , ond ll.  $*astones > *asson$  nad yw’n digwydd. Mae  $*as > eis$  yn fwy tebygol. Ceir felly:

un.  $*as$ , ll. *ais*, *eis*, ll. newydd *asau*

un. *asen*, ll. *asennau*, lle y mae *asen* yn dod o  $*as$  + terfyniad unigolynnol *-en*

Ffurf unigolynnol yw Gwydd. *asna* hefyd sy’n tarddu o  $*assanio-\bar{a} / *assonio-\bar{a} < *assV-$ , yn ôl Schrijver.<sup>45</sup>

Awgryma Lloyd-Jones i *ais* gael ei ddefnyddio â’r ystyr trosiadol ‘gwaywffyn’, ac *assau* â’r ystyr S. ‘ribs’.<sup>46</sup> Mae J.E. Caerwyn Williams yn anghytuno gan nodi y gall *ais* ac *assau* ddynodi ‘gwaywffyn’, ac mae enghreifftiau o’r ddau yn GPC.<sup>47</sup>

banev	bann	bannau, -iau, -edd, -oedd	<b>BAN</b> <sup>2</sup> eg.b. ‘top, tip, point’	BBC 30.5	
bannet			ban <sup>2</sup>	CBT 2.26.283	Gwynfardd Brycheiniog

Cymh. EWSP t. 454 banev

Ceir fel elfen yn Crn. *warvan* ‘i fyny’, *avadn* ‘ar ben’, *in ban*; Llyd. *ban*; Gwydd. C. *bend*, *benn* ‘corn, pigyn’ sy’n dir., *bôn-o* yn ôl DIL a Vendryes a’i luosog *benna* <  $*bend-$ .<sup>48</sup> Aeth yn fenywaidd, *bôn-ā*, yn ddiweddarach, yn ôl Vendryes, ac fe’i rhestrir felly gan Schrijver sy’n awgrymu mai dyna oedd y *bôn* gwreiddiol. Tardda Schrijver y geiriau Celtaidd i gyd o  $*banno-$  <  $*bandnā$ .<sup>49</sup> Ceir mai ansicr yw tarddiad y gair Gwyddeleg. Gall *benna* fod yn lluosog *bôn-ā* neu’n *fôn-o* diryw, er bod y genidol unigol *beinde* o blaid *bôn-ā*.<sup>50</sup>

Pa genedl bynnag, diryw ynteu benywaidd, oedd Cym. *ban* yn wreiddiol, disgwyliid y ffurf *ban*, ll.  $*ban$ . Ni restrir ond lluosogion yn *-au* yn enghreifftiau GPC, a dyna yw’r terfyniad yn BBC hefyd. Ni cheir *bannet* ond unwaith ac yno y mae’n gorffen llinell mewn cerdd, â’i phrifodl yn *-et*, gan Wynfardd Brycheiniog. Ni ellid cael *-au* yno oherwydd yr

<sup>44</sup> VKG I, tt. 374-5.

<sup>45</sup> SBCHP, t. 53.

<sup>46</sup> G, t. 45a.

<sup>47</sup> CBT 1, t. 93; GPC.

<sup>48</sup> DIL; LEIA, B-35; Padel, O.J., *Cornish Place-Name Elements*, Nottingham, 1985, t. 16; VKG I, t. 46.

<sup>49</sup> SBCHP, tt. 455-6.

<sup>50</sup> DIL; LEIA, B-35.

odl.<sup>51</sup> Daeth *-au* yn lluosog mwyaf arferol y gair, felly, ac fe'i gwelir hefyd yn yr enw lle Bannau Brycheiniog.<sup>52</sup>

beird	bard, bart	beirdd, beirddion, beirddiaid	<b>BARDD</b> eg. 'bard'	CA A.24 CBT 3.3.49	Cynddelw Brydydd Mawr Einion Wan Phylip Brydydd Iorwerth Fychan
beirdon			bardd	CBT 3.3.228	Cynddelw Brydydd Mawr
beirdyon			bardd	CBT 6.35.22	Dafydd Benfras
beirdd			bardd	CBT 1.18.6	Elidir Sais Seisyll Bryffwrch Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Dafydd Benfras
beirt			bardd	BBC 5.76 CBT 1.10.28	Gwalchmai ap Meilyr Llywelyn Fardd I Gwynfardd Brycheiniog Gwilym Rhyfel Gruffudd ap Gwrgenau Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Llywelyn Fardd II Phylip Brydydd Y Prydydd Bychan Llygad Gŵr
beirtyon			bardd	CBT 3.16.197	Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Llygad Gŵr

Cymh. EWSP t. 412 beirdd

Crn. *barth*; Llyd. *barz*, ll. *barzed* (19g.); Gwydd. *bard* o, g., ll. *baird*; Gal. *Bardomagus* < Clt. *\*bardos*. Y lluosog hanesyddol yw *beirdd* < *\*bardī* a chadarnheir hynny gan y lluosogion Gwydd. *baird* a Gr. *bárdoi*.<sup>53</sup>

Ceir lluosog dwbl yn *-(i)on* yng ngwaith Beirdd y Tywysogion lle y mae ei angen yn aml er mwyn yr odl ac er mwyn hyd y llinell. Mae'n nodweddiadol mai *beirdd* yn unig a geir yn BBC ac yn CA.

beitiadon	beitad	-(i)adon, -iaid	<b>BEIDDIAD</b> , beiddad eg. 'challenger,	BBC 22.42 CBT 1.1.42	dienw
-----------	--------	--------------------	--------------------------------------------------	-------------------------	-------

<sup>51</sup> CBT 2, t. 448.

<sup>52</sup> GPC.

<sup>53</sup> Delamarre, Xavier, *Dictionnaire de la langue gauloise*, Paris, 2001, t. 58; GIB; GPC.

			defier'		
beityeid			beiddiad, beiddad	CBT 3.10.47	Cynddelw Brydydd Mawr

Yr elfen gyntaf yw *baidd* (o'r ferf *beiddiaf: beiddio*). Mae bôn y ferf hon yn gytras â Gwydd. *bedg* o, g. 'naid', Gwydd. M. *béadhgaim, bíodhgaim* 'neidio'.<sup>54</sup> Gweler y bennod ar y terfyniad *-iaid* am drafodaeth bellach. Yn ôl GPC, *-iaid* yw lluosog rheolaidd enwau â'u hôl-ddodiad yn *-iad* pan fônt yn dynodi gweithredydd. Yn achos darlleniad BBC, ysgrifennodd y copiwr *veitaton* yn gyntaf, a'i gywiro i *veitiadon* wedyn.<sup>55</sup>

balaot	beleu	balaod, balaon, balawon, beleod	<b>BELAU</b> , bele, bela, bala eg. 'wild beast, wolf; marten'	CA A.88
balawon			belau, bele, bela, bala	BBC 15.12

Geiriau cytras yw Llad. *fēles* b., ll. *fēlēs* 'cath, belau'; Hen Uchel Almaeneg *bilih* 'pathew', ond ni wn am eiriau Celtaidd cytras.<sup>56</sup> Daw *belau* o Clt. *\*belewo-* yn ôl GPC ac o *\*bhelego-* yn ôl Pedersen.<sup>57</sup> Ansicr yw'r tarddiad hwn yng ngolau'r gair cyfatebol *ceneu*, ll. *canawon*, yn ôl Schrijver: *ceneu* < Brth. ddiweddar *\*Kęneū* < Brth. *\*kanawī* < Clt. *\*kanawū*, ll. *canawon* < *\*kanawones*. Awgrymir felly *beleu* < Brth. *balawī*, ll. *balawon* < *\*balawones*.<sup>58</sup>

Collid *w* yn aml o flaen *o*, cymharer *balaon* (Armes Prydein) â *balawon* yn BBC. Enghreifftiau o'r affeithiad-*i* terfynol yn yr unigol yw *belau* a *cenau*.<sup>59</sup>

bleideu	bleid, bleit, bleyt	-au,-iau, -iaid, -awr, -iawr	<b>BLAIDD</b> eg. 'wolf'	CBT 2.14.87	Owain Cyfeiliog Llywelyn Fardd II
bleityawr			blaidd	CBT 4.6.58	Cynddelw Brydydd Mawr
bleityeu			blaidd	CBT 3.10.27	Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn

H. Grn. *bleit, blyth* (Voc. Corn.), ll. *blydhy, blythes*; Llyd. *bleiz*, ll. *bleizi* (dechrau'r 18g.) < Brth. *\*bleið* < *\*bled-jo-*; Gwydd. *bled* ā, b., ll. *bleda* 'anghenfil, morfil' < Clt. *\*bled-* neu *\*blid-*.<sup>60</sup> Nodir yr enwau personol *Bleidic* yn CA a *Bledbiu* yn LL.<sup>61</sup>

<sup>54</sup> DIL; VKG I, t. 88.

<sup>55</sup> BBC, t. 107.

<sup>56</sup> Lewis & Short, *A Latin Dictionary*; VKG I, t. 98.

<sup>57</sup> GPC; VKG II, t. 23.

<sup>58</sup> SBCHP, t. 258.

<sup>59</sup> GMW, tt. 5, 30.

<sup>60</sup> GIB; GPC; LEIA, B-58; Padel, *Cornish Place-Name Elements*, t. 22; SBCHP, tt. 317-18.

Os *-jo* oedd yn y bôn Brythoneg, fel yr awgryma Schrijver, ceid *blaidd*, ll. *\*blaidd*.<sup>62</sup>  
Ffurfiâu newydd yw ffurfiâu'r sampl, felly.

blinet	bloidin, bluydyn, bluytin, blwydyn	blynyddoedd, blynyddon	<b>BLWYDDYN</b> eb. 'year'	BBC 16.58	
bluitinet			blwyddyn	BBC 17.79	
blyned			blwyddyn	CA A.6 CBT 6.15.34	Phylip Brydydd Mawl Llywelyn ab Iorwerth Cwyn y Pererin (dienw)
blynet			blwyddyn	CBT 2.31.45	Gruffudd ap Gwrgenau

H. Gym. *bloidin*; H. Grn. *bliþen*, Crn. C. *blythen*, *blethen* (Voc. Corn.); H. Lyd. *blidan*, *bliden*, *blidon*, Llyd. C. *blizenn*, *blizien*, *blizen*, ll. heb fod ar gael, Llyd. M. *bloa(z)*, ll. *-ioù*; Gwydd. *blíadain* ī, b., ll. *bliadn(a)i* (hefyd un. *blédin*, ll. *-blédni* yn *Immram Brain*). Yn ôl Pedersen, daw Gwydd. *bliadain* a Cym. *blwyddyn* o'r IE *\*bleidh₂nī*, a daw'r unigol Cernyweg a Llydaweg o'r IE *\*blidh₂nī* a'r lluosogion Celtaidd i gyd o *\*blidh₂nījās*.<sup>63</sup> Gwrthoda Schrijver yr ablaut *bleid* ~ *blid*, yn enwedig am nad yw'r H. Wydd. *blíadain* yn ei ddangos. Fe dardda'r enwau hyn i gyd o *\*blēdh₂in* < Clt. *\*bleidanī* / *\*bleidonī*, ll. *-ijās*.<sup>64</sup>

Terfyniad lluosog rheolaidd bonau-ī yw *-edd* < *\*-ijās*.<sup>65</sup> Gwelir mai *blynedd* < *\*blēdhanijās* yw'r lluosog gwreiddiol. *Blwydyn-ed* (*blwynyd-ed* drwy drawsosodiad) yw'r ffurf lluosog gynharaf wedi ei hardystio, sef ffurfiant ar sail ar yr unigol *blwyddyn*. Ceir *blynyddoedd* o dan ddyllanwad *blynedd* a gellir ei ddisgrifio fel lluosog dwbl.<sup>66</sup>

Sylwer mai unigol yw ystyr *blyned* mewn enghreifftiau fel *byr vlyned* (CA) 'for a short year', *yr vythuet mlyned* (Brut Dingestow). Ceir y ffurf hon yn dilyn rhifolion, e.e. *seith mlyned* (Llyfr Coch Hergest cymh. *dec mlinet* yn BBC).<sup>67</sup> Gweler BRAWD am drafodaeth ar luosogion yn dilyn rhifolion.

broder	brawd, brawt	brodyr, broder,	<b>BRAWD</b> eg. 'brother'	BBC 17.202	
--------	-----------------	--------------------	-------------------------------	------------	--

<sup>61</sup> DOB.

<sup>62</sup> CCCG, t. 167.

<sup>63</sup> DIL; Falileyev, *Etymological Glossary*, t. 17; GIB; GPC; LEIA, B-59; SBCHP, t. 242; VKG I, t. 113.

<sup>64</sup> SBCHP, tt. 242-5.

<sup>65</sup> CCCG, t. 170.

<sup>66</sup> GOI, t. 189; SBCHP, tt. 243-4, 249.

<sup>67</sup> GMW, tt. 33, 47; G, t. 59a.

		brodorion			
brodorion			brawd	BBC 5.137 CBT 2.21.25	Peryf ap Cedifor
brodoryon			brawd	CBT 3.3.236	Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Bleddyn Fardd
brodyeu			brawd	CBT 1.27.77	Einion ap Gwalchmai Madog ap Gwallter
brodyr			brawd	CBT 1.17.8	Elidir Sais Owain Cyfeiliog Peryf ap Cedifor Cynddelw Brydydd Mawr Einion Wan

Cymh. EWSP tt. 412, 444 broder; t. 437 a.y.b. brodyr

H. Grn. ll. *broder* (Voc. Corn.), *breder*, *bredereth*, *brudereth*, Crn. C. *braud*, *broder*, *bruder*, *breder*, Crn. M. *broder* (un.), ll. *bedar*, *breder*; H. Lyd. *brotr*, Llyd. C. *breuzr* (Diw. *breur*), ll. *breudeur*, Van. *brer*, ll. *breder*; H. Wydd. *bráthair*, *brathir* r, g., ll. *brathir* (yn ddiweddarach ll. *bráithre*, gen. ll. *bráthar* lle y ceir rhediad *bôn-k* yn y lluosog); Gal. *bratronos*; Llad. *frāter*; S. *brother*.

Awgrymir bod y ffurfiau unigol Brythoneg yn tarddu o *\*brāter* a'r lluosog o *\*brāteres* > Cym. *broder* > *brodyr*; ac o *\*brātores* > *brodor(+ion)*.<sup>68</sup> Mae Russell yn herio'r consensws hwn yn achos Cym. C. *brodorion*. Dywed:

Since there is no evidence for an *o*-grade suffix in the paradigm of 'brother' in any other Celtic language, it may be worth considering the possibility that the Middle Welsh plural is an analogical development within Welsh.<sup>69</sup>

Fe ystyria'r patrwm *brawd*, ll. *broder*, *brodyr*, lle y cymerir *brodyr* fel lluosog cydweddol, yn ôl patrwm y bonau-*o* a'u lluosogion ag affeithiad-*i*. Awgryma Russell i *brodor* gael ei adffurfio o *brodyr* fel unigol cydweddol mewn Cymraeg Canol gan roi rhediad rheolaidd un. *brodor*, ll. *brodyr*. Ailystyrid *-or* wedyn fel ôl-ddodiad *nomen agentis* a'i luosog, yn rheolaidd, yn *-ion* heb affeithiad, felly *brodorion*. Nid ôl-ffurfiad o *brodorion* yw *brodor* felly, ond ffurfiad drwy gydweddiad mewn Cymraeg Canol.<sup>70</sup>

Ar yr olwg gyntaf mae *broder* a *brodyr* yn edrych fel cyfystyron drwy gyfnod

<sup>68</sup> DIL; GIB; GPC; LEIA, B-80-1; Lewis, Henry, *Llawlyfr Cernyweg Canol* (argraffiad newydd), Caerdydd, 1946, t. 13; VKG I, t. 48.

<sup>69</sup> Russell, Paul, 'Middle Welsh **brodorion**', BBOS 32 (1985), 169.

<sup>70</sup> Russell, 'Middle Welsh **brodorion**', 169-71.

Cymraeg Canol ac mae'n ddi-ddorol eu bod yn cydfodoli am gyfnod hir. Gellir dangos, er hynny, fod *broder* i'w gael yn gyson iawn ar ôl rhifolion lle na cheir *brodyr*; cymharer *dev. broder* yn BBC. Awgryma Schrijver fod y gwahaniaeth rhwng y ddau air yn deillio o gyfnod Brythoneg Cynnar, cyn colli'r sillafau terfynol (nid o gyfnod Cymraeg Canol fel y tybia Russell): 'At that time, the nominative plural \**brōter-eh* may have been replaced by \**brōter-ī*, with the *o*-stem plural, except after numerals, where the plural was already characterized lexically.'<sup>71</sup> Dyma enghraifft o 'special classifier construction' y gellid ei gymharu â lluosogion arbennig a ddefnyddir yn dilyn rhifolion yn yr Wyddeleg. Cymharer y lluosog arferol *blianta* (un. *bliain*) 'blynyddoedd', ond *bliana* ar ôl y rhifolion 3-10, e.e. *tri bliana* 'tair blynedd'.<sup>72</sup> Defnyddir y ffurfiau cyfrif hyn yn eirfaol (S. 'lexically'), hynny yw, mewn cyd-destun arbennig yn unig. Mae Cym. *blynedd*, *broder*, *diau* a *meib* i gyd yn lluosogion hanesyddol sy'n goroesi yn dilyn rhifolion mewn Cymraeg Canol, ac yn achos *blynedd* mewn Cymraeg Modern hefyd. Fel arall, maent wedi cael eu disodli gan lluosogion newydd, megis *blynyddoedd*, *brodyr*, *dyddiau* a *meibion*. Mae *blynedd* a Gwydd. *bliana* yn cyfateb i'w gilydd felly, ond ni wn am ddefnyddio *mac* neu *bráthair* fel hyn. Defnyddir *bó* 'buwch' yn dilyn rhifolion yn Wyddeleg megis Cym. C. *bu*.<sup>73</sup> Yn achos yr Wyddeleg, mae nifer mawr o'r lluosogion arbennig yn enwau cyfrif megis *fichidí* (un. *fiche*) 'ugain', *pinginí* (un. *pingin*) 'ceiniog' a *seachtainí* (un. *seachtain*) 'wythnos'.<sup>74</sup> Nid yw cyffredinoliad o'r math hwn yn bosibl yn achos y Gymraeg, ar wahân i *blynedd* a *diau*. Ar y llaw arall, yn yr Wyddeleg, ni cheir enwau cyfrif pobl y gellid eu cymharu â Cym. *broder*, *gweis* a *meib*.<sup>75</sup>

Efallai y defnyddid lluosogion *chwaer* yn yr un modd â lluosogion *brawd*. Yn GPC, mae pob enghraifft o *chwioredd*, heblaw un sy'n weddol ddiweddar (*ei chwioredd* yn *Nhestament Newydd* W. Salesbury yn 1567), yn dilyn y rhifolyn *dwy*. Ni cheir *chwiorydd* yn y safle hwn. Nid yw *chwaer* a *brawd* yn hollol debyg yma oherwydd nad lluosog gwreiddiol yw *chwioredd* na *chwiorydd*, fel y mae *broder*. Awgrymir, felly, i'r gwahaniaeth rhyngddynt ddatblygu drwy gydweddiad â'r patrwm *broder* / *brodyr*. Awgrymir cydweddiad hefyd gan bedair enghraifft o'r ymadrodd *brodyr* a *chwiorydd* yn GPC.

Yn Gernyweg, cymysgir rhwng ffurfiau unigol a lluosog y gair. Noder bod *-e-* yn H. Grn. *broder* yn llafariad *svarabhakti* a chyfetyb, felly, i H. Lyd. *brotr*.<sup>76</sup> Rhestra Lewis Crn. C. *broder*, *bruder* fel geiriau unigol sy'n cyfateb i'r Llyd. C. *breuzr* a Cym. *brawd* oherwydd

<sup>71</sup> SBCHP, tt. 368-71.

<sup>72</sup> Acquaviva, Paolo, *Lexical Plurals: A Morphosemantic Approach*, Oxford, 2008, tt. 34-5.

<sup>73</sup> Acquaviva, *Lexical Plurals*, t. 169; GMW, t. 47.

<sup>74</sup> Acquaviva, *Lexical Plurals*, t. 167.

<sup>75</sup> Acquaviva, *Lexical Plurals*, t. 170.

<sup>76</sup> VKG I, t. 246.



bod Cernyweg a Llydaweg yn cadw *-r-* y bôn Brythoneg.<sup>77</sup> Mewn Cernyweg Modern, *broder* yw'r unigol a'i lluosog *breder* yn ôl patrwm y bonau-*o*. Yn ôl Nance, daeth yr hen lluosog dwbl *bredereth* i ddynodi 'brotherhood, confraternity, brethren' a chafwyd lluosog newydd yn *brederethow* (lluosog triphlyg o ran ffurf).<sup>78</sup> Anghytuna Schrijver â Nance ynghylch Crn. C. *breder* a dengys nad oes tystiolaeth gadarn sy'n profi ei fod erioed yn lluosog (o'i gyferbynnu ag un. *broder*). Gan Pedersen awgrymwyd cyn hynny fod *broder*, *bruder* a *breder* i gyd yn cael eu hynganu /brödər/. Ategir y posibilrwydd hwn gan yr un amrywiad rhwng sillafu *o* ac *e* yn achos Crn. C. *marrogyon* / *marregyon* 'marchogion'.<sup>79</sup> *Bredereth* yw'r unig lluosog diamwys mewn Cernyweg Canol felly.

Ceir lluosog Llyd. *breder* yn nhafodiaith Vannes (Gwened), ac mae'n debyg fod unigol newydd *brer* wedi cael ei ffurfio'n ôl o'r lluosog hwn. Mewn Llydaweg safonol, *breudeur* yw'r lluosog.<sup>80</sup>

breenhined	breenhin, breennin, brehennin, brenhin, brennhin, brennin, brenyn, breyenhin	brenhinoedd, -edd	<b>BRENIN</b> eg. 'king'	LL 120	
breenhinet			brenin	CBT 4.17.119	Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn
brenhined			brenin	CBT 3.3.48	Cynddelw Brydydd Mawr Phylip Brydydd Dafydd Benfras Cwyn y Pererin (dienw)
brenhinedd			brenin	CBT 6.25.16	Dafydd Benfras
brenhinet			brenin	CBT 1.3.106	Meilyr Brydydd Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Llygad Gŵr
brenhinoet			brenin	BBC 17.25	

<sup>77</sup> Lewis, *Llawlyfr Cernyweg Canol*, t. 13.

<sup>78</sup> Nance, *English-Cornish and Cornish-English Dictionary*.

<sup>79</sup> SBCHP, tt. 203-4.

<sup>80</sup> GIB; VKG I, t. 48.

brennhinedd			brenin	CBT 7.51.32	Bleddyn Fardd
brennhinet			brenin	CBT 1.3.41	Meilyr Brydydd

Cym. C. *breenhin* (3 sillaf) < \**breentin*; Crn. *brentyn*, *bryntyn*; H. Lyd. *brientin*, ll. *brientinion*, Llyd. M. *brientin*, ll. *brientinien*. Yn ôl Schrijver, y tarddiad yw *breenhin* < \**Breyentin* < \**Briyentin* < Brth. \**brigantinos*, ll. -ī.<sup>81</sup>

Tarddiad *bôn-o*, gwrywaidd, yw hwn, ond nid oes yma ddim i ddiodeff affeithiad-*i*, felly disgwyllir ll. \**brenin* hefyd. Ceir *brenhinoedd* drwy gydweddiad â bonau-*s* â'u hunigol enwol yn \*-*os*, megis unigol y bonau-*o*. Ategir bod hyn yn debyg gan yr amrywiad rhwng bonau-*os* a bonau-*o* yn yr Wyddeleg.<sup>82</sup>

Er eu bod yn ffurfiau newydd, ceir *brenhinedd*, *brenhinoedd* (BBC, Llawysgrif Hendregadredd, Llyfr Coch Hergest) yn ogystal â H. Lyd. *brientinion* yn gynnar.<sup>83</sup> Gwelir yr amrywiad rhwng lluosogion yn -*edd* ac -*oedd* yn achos *bys* a *tir* hefyd.

brohyd	bro	-ydd (brofydd), -oedd	<b>BRO</b> eb. 'region, country'	CBT 7.30.5	Iorwerth Fychan
brooed			bro	CBT 6.35.19	Dafydd Benfras
brooet			bro	BBC 30.59 CBT 2.6.17	Hywel ab Owain Gwynedd
broyd			bro	CBT 1.16.32	Elidir Sais
broyt			bro	CBT 2.26.86	Gwynfardd Brycheiniog

Cymh. EWSP t. 455 brooet

Crn. a Llyd. *bro*, Llyd. C. ll. *broeziou*, *broezou*; Gal. *brogae*, *Allobroges* a *Brogimarus*. Y ffurf Gelteg oedd \**mrogis-*, ond daeth yn \**brogā* yn y Frythoneg.<sup>84</sup> Cymharer H. Wydd. *mruig* i, g. (= Gwydd. C. *bruig*, *brug*, ll. *brugi*) 'terfyn' < Goed. \**mrogi-*; Llad. *margō*; Gotheg *marka* 'terfyn'.<sup>85</sup>

Er mai enghraifft o *broedd* a geir gyntaf (BBC, EWSP), mae'r naill luosog a'r llall yn

<sup>81</sup> GIB; GPC; SBCHP, t. 70.

<sup>82</sup> CCCG, t. 173.

<sup>83</sup> G, t. 75a.

<sup>84</sup> Delamarre, *Langue Gauloise*, t. 77; GIB; GPC; SBCHP, t. 133.

<sup>85</sup> DIL; DOB; GOI, t. 48; GPC; LEIA, M-67.

newydd.<sup>86</sup> Gan fod y bôn Celteg yn *-ā*, disgwylir *bro*, ll. *\*bro*. Ni cheir lluosog cyfatebol i'r Llyd. *-(i)ou* yn Gymraeg.

bronneu	bron, bronn	bronnau, -ydd, -oedd	<b>BRON</b> eb. 'breast'	CBT 7.43.17	Gruffudd ab yr Ynad Coch
bronnyd			bron	CBT 7.30.12	Iorwerth Fychan

Ceir lluosog Crn. *bronn* yn yr enw lle *Burnow*; Llyd. C. *bronn*, ll. *bronnou* (Angers ms 476) < Clt. *\*brusnā*. Cymharer H. Wydd. *bru* < *\*brusō*, sef bôn trwynol, benywaidd, ll. *brugha* (fel bôn-g), a H. Wydd. *bruinne* io, g. < Clt. *\*brusnjo-*.<sup>87</sup> Yn union fel yn achos *bro* uchod, mae'r ddau luosog *bron* yn newydd oherwydd y rhediad bôn-*ā*.

Rhestra Lloyd-Jones *bronnau* a *bronnydd* ar wahân o dan wahanol ystyron. Daw'r gyntaf o dan 'bru' a'i luosogion yw *bronneu* a *brannoedd*, tra ceir yr ail o dan 'bron, ochr bryn, llethr' a'i luosogion yn *bronnydd* a *?bronneid*.<sup>88</sup> Gwelir, er hynny, bod yr ail ystyr gan *bronnau* a *bronnydd* yn y sampl hwn.

brydeu	brid, bryt	-au, -iau, -oedd	<b>BRYD</b> eg. 'mind, disposition'	CBT 1.7.57	Gwalchmai ap Meilyr Cynddelw Brydydd Mawr Einion ap Gwgon
brydyeu			bryd	CBT 4.9.50	Cynddelw Brydydd Mawr

Crn. *brys*; H. Wydd. *breth*, *ā*, *b.*, *brith* ?i, 'barn' < Clt. *\*brit-*; Llad. *fors* 'damwain, hap'. Rhestra Pedersen a Delamarre Gal. *vergo-bretus* fel cytras ond anghytuna Vendryes.<sup>89</sup>

O'r Clt. *\*briti-* y daw *bryd*, ym marn Schrijver. Gan Pedersen fe'i rhestrir fel bôn-*i* neu *-u*. Awgryma'r ll. *brydeu* mai bôn-*u* ydyw gan fod y bonau-*i* yn rhoi'r terfyniadau ll. *-oedd* ac *-ydd* (ond gweler y penodau ar y terfyniadau hyn am darddiad arall gan Schrijver). Awgrymaf, felly, fod *brydau* yn hŷn na *brydiau* gyda'r iod ychwanegol.<sup>90</sup>

breennych darll. breenneych (LHEB, t. 701)		Brynaich, Byrnaich 'Bernicians'	<b>BRYNACH*</b>	CA A.50	
brenneych			Brynach*	CA A.9	
brennych			Brynach*	CA A.5	
breych			Brynach*	CA A.50	

<sup>86</sup> G, t. 77a.

<sup>87</sup> DIL; DOB; GPC; LEIA, B-99; Padel, *Cornish Place-Name Elements*, t. 32.

<sup>88</sup> G, t. 78a.

<sup>89</sup> Delamarre, *Langue Gauloise*, t. 265; DIL; GPC; LEIA, B-86-7; VKG I, t. 42.

<sup>90</sup> CCCG, tt. 171-2; SBCHP, t. 23; VKG II, t. 34.

brineich			Brynach*	CBT 5.9.22	Llywarch ap Llywelyn
brineirch			Brynach*	BBC 17.131	
bryneich			Brynach*	CBT 1.8.24	Gwalchmai ap Meilyr Cynddelw Brydydd Mawr Einion Wan Llywelyn Fardd II Gwgon Brydydd Dafydd Benfras Cwyn y Pererin (dienw) Y Prydydd Bychan Llygad Gŵr Bleddyn Fardd

Cymh. EWSP t. 421 bryneich

Cyfeiria'r enw hwn at deyrnas a'i phreswylwyr, y *Beornice* mewn Eingl-Sacsoneg. Ceir yr enw wedi ei Ladineiddio'n *Bernicia* gan Bede. Cawn, yn *Historia Brittonum*, ffurfiau Hen Gymraeg sef *Berneich*, *Birneich*, *Bernech* a *Birnech*. Yn draddodiadol, terddir yr enwau hyn o Brth. \**Brigant-*. Dengys Jackson na all y ffurfiau Eingl-Sacsoneg, na'r rhai yn *Historia Brittonum*, darddu o \**Brigantaccī*, er y gallai ffurfiau CA a rhai barddoniaeth Cymraeg Canol ddod o'r ffurf honno. Yn lle hynny, fe awgryma ffurf wreiddiol \**Bernāccī* /\**Birnāccī* 'the people of the land of mountain passes'; cymharer H. Wydd. *bern* 'gap, breach, pass'.<sup>91</sup> O ran ystyr, noda Haycock '*Bryneich* is retained through medieval poetry to denote the enemy of the Cymry.'<sup>92</sup> *Pluralia tantum* yw'r enwau hyn i gyd, ac nid ardystir ffurfiau unigol o'r un tarddiad. Tebyg yw enwau pobl megis *Gwennwys* 'pobl Gwent', cymh. Llyd. *Brestiz* 'pobl Brest'.

brithon		Brythoniaid (diw.)	<b>BRYTHON</b> , Brythion ll. / un. 'Brython, Briton, Welshman'	BBC 17.157
brython			Brython, Brythion	BBC 3.16 CA A.18 CBT 1.2.17
brythyon			Brython, Brythion	CBT 3.3.220

<sup>91</sup> *Electronic Dictionary of the Irish language* (eDil), gwelwyd 10/08/2009; LHEB, tt. 701-5.

<sup>92</sup> LPBT, t. 499.

Terddir *brython* o'r Brth. *\*brittones*. Cymharer Llyd. *brezhoneg* 'Llydaweg' < *\*britt-on-*.<sup>93</sup> Gair lluosog *bôn-n* yw *\*brittones* gan roi *brython* yn rheolaidd. Gwelir, felly, nad yw'r iod yn wreiddiol yn *brythyon*. Defnyddir yr enw hwn ag ystyr unigol a lluosog. Y ffurf unigol reolaidd *bôn-n* fyddai *\*brittō* > ?Cym. *\*bryth*, ffurf na cheir mohoni yn yr iaith.<sup>94</sup>

byrt	burth, bwrđ, bwrt	byrddau, -oedd, byrdd	<b>BWRDD</b> , bwrđ eg. 'table, board'	CBT 3.13.37	Cynddelw Brydydd Mawr
byrteu			bwrđđ	CBT 7.22.18	Hywel Foel Llygad Gŵr
byrtoet			bwrđđ	CBT 7.26.15	Llygad Gŵr

Benthyciad o H. S. *bord*, ll. *bordes* dir.<sup>95</sup> Ni all ll. *bordes* roi ond Cym. *bwrđđ*, felly cydweddol yw'r lluosogion yn y sampl.

bitinaur	bedin, bydin	-oedd, -au, -awr	<b>BYDDIN</b> eb. 'army, host'	BBC 17.117	
bydinawr			byddin	CA A.5 CBT 3.20.30	Cynddelw Brydydd Mawr
byddinau			byddin	CBT 6.29.19	Dafydd Benfras
byddinawr			byddin	CBT 5.10.18	Llywarch ap Llywelyn Bleddyn Fardd
byddineu			byddin	CBT 7.24.130	Llygad Gŵr
bytinawr			byddin	CBT 3.14.30	Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn
bytineu			byddin	CBT 4.9.165	Cynddelw Brydydd Mawr
bytinoet			byddin	CBT 7.2.12	Y Prydydd Bychan

Cymh. EWSP t. 424 bydinawr, t. 445 byddinawr, t. 462 bitinaur

H. Lyd. *bodin* (hefyd *budin-*), ll. *bodiniou*; Gwydd. C. *buiden* ā, b., ll. *buidnea*, *buidne* < Clt. *\*budinā*, ll. *-ās*.<sup>96</sup> Mae tarddiad *bôn-ā* yr enw hwn yn golygu y ceid yr un ffurf yn yr unigol ac yn y lluosog, felly ffurfiau newydd a restrir yma.<sup>97</sup>

bisset	bys	-edd, -awr	<b>BYS</b> eg. 'finger, toe'	BBC 7.35	
--------	-----	---------------	------------------------------	----------	--

<sup>93</sup> SBCHP, t. 96.

<sup>94</sup> CCCG, t. 178.

<sup>95</sup> Northcote Toller, T. (gol.), *An Anglo-Saxon Dictionary based on the manuscript collections of Joseph Bosworth*, Oxford, 1898.

<sup>96</sup> DIL; DOB; GPC; LEIA, B-114; SBCHP, t. 24.

<sup>97</sup> CCCG, t. 168.

bysedd			bys	CBT 6.30.85	Dafydd Benfras
byssaur			bys	BBC 22.25 CBT 1.1.25	dienw
byssed			bys	CA A.52 CBT 6.36.7	Cwyn y Pererin (dienw)
bysset			bys	BBC 18.114	

H. Grn. *bis, bes*, Crn. C. ll. *bisou*; Llyd. *bis, bes, biz, bez*, ll. *bizou, ?bission* (yn ACERUISSION), Llyd. C. ll. *bisyat*, Llyd. M. ll. (dechrau'r 18g.) *biziet* (> Ffr. *bijou* yn ôl Vendryes); Gwydd. C. *biss ega* 'pibonwy', ll. *bissi*. Gall Gwydd. *biss* fod yn fenthyciad o'r Frythoneg ym marn Vendryes.<sup>98</sup> Awgrymir etymoleg ansicr o \*g<sup>w</sup>*is-ti-s* gan Pokorny.<sup>99</sup> Yn ôl y tarddiad hwn, a'r lluosog Gwyddeleg Canol, *bôn-i* sydd gennym, a'i luosog yn \*-*ejes* > Cym. *-oedd*. Ni chafwyd y ffurf hon yn y sampl. Gellid awgrymu'n betrus fod *-oedd* wedi cael ei ddisodli gan *-edd*, fel yn achos *tir*, sydd â lluosog hanesyddol *tiroedd*, ond ceir *tired* mewn Cymraeg Canol (gw. TIR). Ni ellir dangos hyn yn sicr, er hynny, yn achos *bys*.<sup>100</sup>

cadeu kadeu	kad, kat	-au, -oedd	<b>CAD</b> eb. 'battle, conflict, war'	CA A .12 CBT 1.3.28	Meilyr Brydydd Einion ap Gwalchmai Llywelyn Fardd I Seisyll Bryffwrch Gwynfardd Brycheiniog Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Einion Wan Dafydd Benfras Llygad Gŵr Madog ap Gwallter Gruffudd ab yr Ynad Coch
cadev kadev			cad	BBC 16.7	
cadoet kadoet			cad	BBC 34.35 CBT 3.15.20	Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Y Prydydd Bychan Hywel Foel
kadoed			cad	CBT 6.6.27	Einion Wan Llywelyn Fardd II

Cymh. EWSP t. 462 kadoet

<sup>98</sup> Fleuriot, Léon, *Le vieux breton: éléments d'une grammaire*, Paris, 1964, t. 237; GIB; GPC; LEIA, B-53; VKG I, t. 79.

<sup>99</sup> IEW, t. 481.

<sup>100</sup> CCCG, tt. 172-3.

H. Grn. *kad-*, Crn. M. *cas*; Gwydd. *cath* u, g.; Gal. *Caturīges*; Hen Uchel Almaeneg *hadu-*. Cymharer Llyd. *kas*, ll. *casseu* ‘envoi, élan, mouvement, agitation’, ond nis rhestrir gyda’r enwau uchod gan Pedersen, a thyber nad yw’n gytras â hwy.<sup>101</sup>

Ceir terfyniad lluosog *bôn-u* rheolaidd yn *cadau* < \**katow-es* (un. *cad* < \**katu-s*). Terfyniad y bonau-*i* yw *-oedd* (ond gwelir tarddiad gwahanol gan Schrijver o dan y bennod ar *-oedd*).<sup>102</sup> Dangosir, felly, mai *cadau* yw’r lluosog gwreiddiol.

Gesyd Lloyd-Jones y ddwy ffurf ar wahân o ran eu hystyron: *cadau* ‘yn gyffredin “brwydrau”, ond nid bob amser’ a *cadoedd* ‘yn gyffredin “byddinoedd, lluoedd”’.<sup>103</sup> Gwelwyd, er hynny, nad oedd Lloyd-Jones yn gwbl ddibynadwy wrth briodoli ystyrion gwahanol i wahanol ffurfiau’r un gair yn achos *bronnau* a *bronnydd* (gw. BRON).

cedeirn kedeirn	cadarn, kadarn, katarnn	cedyrn, cedeirn, cadarnion	<b>CADARN</b> ans. ‘strong, powerful’	CBT 1.8.12	Gwalchmai ap Meilyr Cynddelw Brydydd Mawr Gwgon Brydydd Llygad Gŵr
cedyrn kedyrn			cadarn	CBT 1.25.1	Einion ap Gwalchmai Hywel ab Owain Gwynedd Daniel ap Llogwrn Mew Gwynfardd Brycheiniog Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Einion Wan Llywelyn Fardd II Phylip Brydydd Y Prydydd Bychan Llygad Gŵr Bleddyn Fardd
kedeirn			cadarn	CBT 1.7.67	Gwalchmai ap Meilyr Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Y Prydydd Bychan Hywel Foel

Llyd. C. *kadarn* ‘dewr, gwrol’. Ansoddair *bôn-o* yw *cadarn* o’r Brth.\**catarno-*. Ceir lluosog arall *kadarnyon* yn Llyfr Coch Hergest.<sup>104</sup> O’r tair ffurf luosog, yr un affeithiedig sydd yn wreiddiol, gan ei bod yn tarddu o \**catarnī*. Ni wyddys yn union pam y ceir amrywiad rhwng

<sup>101</sup> DIL; GIB; GPC; Padel, *Cornish Place-Name Elements*, t. 42; VKG I, t. 132.

<sup>102</sup> GMW, t. 29.

<sup>103</sup> G, t. 88a.

<sup>104</sup> Rhÿs, John & Evans, J.Gwenogvryn (goln), *The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest*, Oxford, 1890, t. 122.

*a>ei* ac *a>* y o ganlyniad i'r affeithiad, ond gweler y bennod ar affeithiad-*i* am drafodaeth bellach.<sup>105</sup>

keidron llsg. kecoron	cadir, cadyr, kadir, kadyr	ceidrion	<b>CADR</b> ans. 'handsome, comely'	CBT 3.25.16	Cynddelw Brydydd Mawr
keidryon			cadr	CBT 3.3.218	Cynddelw Brydydd Mawr

H. Grn. *carder* gl. *speciosus, decorus* (efallai mai camsillafiad yw'r *r* gyntaf); H. Lyd. *cadr*, Llyd. C. *kazr*, Llyd. Diw. (Léon) *kaer*, (Van.) *kêr*; Gal. *Belatu-cadros* < Clt. *\*kat-ro-*.<sup>106</sup> Gwelir yr un gwreiddyn *\*kat-* yn *cadarn* uchod.<sup>107</sup> Awgrymir mai ansoddair *bôn-o* yw *cadr* hefyd. Byddai lluosog gwreiddiol *\*ceidr* yn debygol, felly.

caereu kaereu	caer, cair, cayr, kaer	-au, -oedd, ceyrydd	<b>CAER</b> eb. 'fort, fortress'	CA GT CBT 1.27.19	Einion ap Gwalchmai Cynddelw Brydydd Mawr
caeroed kaeroed			caer	CBT 1.33.12	Meilyr ap Gwalchmai Mawl Llywelyn ab Iorwerth a'i Deulu
caeroedd			caer	CBT 6.26.27	Dafydd Benfras
caeroet kaeroet			caer	CBT 5.14.29	Llywarch ap Llywelyn
keiryd			caer	CBT 7.30.52	Iorwerth Fychan

Crn. *ker* 'tref'; Llyd. *kaer*, (Van.) *kêr*, (Léon) *kear* 'tref'.<sup>108</sup>

Amheus iawn yw hanes y gair. Awgryma Schrijver fod H. Wydd. *cathir* k, b., ll. *cathr(a)ig* < Gwyddeleg gynnar *\*kaθr-ix-*, yn gytras â'r geiriau Brythoneg. Ystyria Holmer fenthyciad cynnar Celtaidd < *\*ka(θ)θrik-* < *\*ka(s)srik-* o'r Llad. *castrum*, -a. Os na dderbynnir hyn, cawn H. Wydd. *cathir* < *\*katr-* yn wahanol i Cym. *caer* < Clt. *\*kadr-* neu *\*kagr-*. Nodir, er hynny, nad ystyria Lewis y gair hwn yn ei *Elfen Ladin*. Cytuna Schrijver fod Holmer yn debyg o fod yn gywir oherwydd tebygrwydd ffurfiol a semantegol y geiriau Brythoneg a Goideleg.<sup>109</sup> Sylwa Vendryes fod y tarddiad o *castra* yn anodd o safbwynt ffonolegol.<sup>110</sup>

<sup>105</sup> cymh. LHEB, t. 581. Rhydd Jackson *elyrch* (un. *alarch*) fel enghraifft yma, ond cymharer *eleirch* yn BBC a CA (gw. atodiad).

<sup>106</sup> GPC; VKG I, t. 323; VKG II, t. 50.

<sup>107</sup> IEW, t. 534.

<sup>108</sup> GPC; VKG I, t. 323.

<sup>109</sup> CCCG, t. 174; GOI, t. 202; SBCHP, tt. 447-8.

<sup>110</sup> LEIA, C-49.



Ni chrybwyll y beirniaid hyn awgrym Pokorny fod *caer* yn fenthyciad o'r Llad. *quadra*. Cytuna nad yw benthyciad o *castra* yn bosibl yn ffonolegol; 'the group *str* being quite common in Brythonic.'<sup>111</sup> Os felly, gellir ystyried y lluosogion yn y sampl fel rhai newydd, gan na all lluosogion *bôn-ā* brodorol, na rhai wedi'u benthycia, ffurfio lluosogion sy'n wahanol i'r unigol.

caith	caeth, kaet, kaeth	(ans.) caethion, caith; (e.) caethion, caethiaid, caith	<b>CAETH</b> ans. / eg.b. 'bond, bound, captive'	CBT 2.22.16 LL 234	Seisyll Bryffwrch
ceith keith			caeth	CA A.88 CBT 1.3.115	Meilyr Brydydd Daniel ap Llogwrn Mew Cynddelw Brydydd Mawr Llywelyn Fardd II Mawl Llywelyn ab Iorwerth Gruffudd ab yr Ynad Coch
keithon			caeth	CBT 7.39.7	Gruffudd ab yr Ynad Coch

H. Grn. *cait*, Crn. C. *keth*; Llyd. C. *quaez*, ll. *queiz*, ?*quezyen*, Llyd. M. *kaez*, Llyd. M. Cynnar ll. *keizou*, *keziou*; Gwydd. *cacht* < Clt. \**kaktos* < IE \**qaptos*; Llad. *captus*, ?Gal. *Moeniapcto* derb. Tardda'r lluosog *ceith*, *caith* (orgraff fodern) yn rheolaidd o'r ll. Clt. \**kaktī*.<sup>112</sup>

*Ceith* yw'r lluosog yng ngwaith Taliesin ac awgryma'r hen destunau megis LL mai dyna'r ffurf fwyaf hynafol.<sup>113</sup> Ategir hyn gan y lluosog Celtaidd yn *-ī*, a bair affeithiad. Mae'n ddiddorol y ceir lluosogion cyfatebol i Cym. *ceith* a *ceithon* yn Llydaweg.

Mae *wythgeith* yn CA yn enghraifft o ffurf luosog sy'n dilyn rhifolyn. Awgryma Lloyd-Jones i *ceithon* godi oherwydd ei bod hi'n anodd deall *ceith* fel enw neu fel ansoddair lluosog mewn rhai enghreifftiau, efallai fel yr un yn CA.<sup>114</sup> *Geithabei* yw'r darlenniad yng ngherdd Gruffudd ab yr Ynad Coch ond gan Lloyd-Jones caiff ei ddiwygio'n *geithon*, sy'n odli â *digassogyon* yn y llinell nesaf. Dilynir hyn gan olygyddion CBT.<sup>115</sup>

cageu	cagen, cangen	canghennau, canghenni	<b>CANGEN</b> eb. 'branch, bough'	BBC 16.1
-------	---------------	-----------------------	-----------------------------------	----------

<sup>111</sup> Pokorny, J., 'Some Celtic Etymologies', *The Journal of Celtic Studies* 1 (1950), 135.

<sup>112</sup> GIB; GPC; LEIA, C-3; Nance, *English-Cornish and Cornish-English Dictionary*.

<sup>113</sup> LPBT, t. 493.

<sup>114</sup> G, t. 97a.

<sup>115</sup> CBT 7, t. 450; G, t. 97a.

cagev			cangen	BBC16.14
cegev			cangen	BBC 15.2

Cymh.

keigyeu	ceing, keig, keing, keyg	cangau, ceing(i)au, ceinciau, ceincion, ceingion	<b>CAINC</b> , caing eb.g. ‘branch, bough, antler’	CBT 1.27.81	Einion ap Gwalchmai
keingheu			cainc, caing	CBT 7.40.22	Gruffudd ab yr Ynad Coch

Cymh. EWSP t. 448 cangheu

?H. Lyd. *percig*, darll. *percing*; H. Wydd. *géc ā*, b. < Clt. \**kankū*.<sup>116</sup> Ffurf unigol newydd o *cangen*, ll. *cangau*, yw *cang*, ll. *ceinciau* a.y.b.<sup>117</sup> Ni phenna Pedersen pa mor newydd yw'r datblygiad hwn, ond mae'n amlwg bod *cang(h)au* yn lluosog gwreiddiol: ‘eine Spur der -ū-Deklination im Brit. ist c. cainc ‘Zweig’...dazu urspr. ein Plur. nach dem Muster der -u-Stämme: cangau (wovon ceingau, ceingiau Umbildungen sind)’. Daeth y gair yn fôn-*ā* yn yr Wyddeleg.<sup>118</sup>

calaf	(diw.) -au, -on, celyf	<b>CALAF</b> eb. / ll. / tf. ‘reeds, stalks’	CBT 5.2.2	Llywarch ap Llywelyn
calamennou		calaf	J 25	
calaw		calaf	BBC 30.8	

Cymh. EWSP t. 454 calaw; tt. 416, 451 calaf

Benthyciad o'r Llad. *calamus*, -ī ydyw. Crn. *cala* ‘gwellt’; Llyd. C. *calou-enn*, Llyd. M. *kolo-enn* ‘coesyn, coesig’.<sup>119</sup> Digwydd *calaf* ddwywaith yng ngwaith Taliesin. Llywarch ap Llywelyn (‘Prydydd y Moch’) yw'r unig un o Feirdd y Tywysogion a ddefnyddia'r gair.<sup>120</sup>

<sup>116</sup> DIL; DOB; GPC.

<sup>117</sup> VKG I, t. 126.

<sup>118</sup> VKG II, t. 88.

<sup>119</sup> GPC; Lewis & Short, *A Latin Dictionary*; VKG I, t. 121.

<sup>120</sup> LPBT, t. 249.

Gwelir yn *calamennou* y terfyniad unigolynnol benywaidd *-en* (cymh. *keleu-yn* yn Llyfr Coch Hergest lle y ceir y terfyniad unigolynnol gwrywaidd *-yn*) a'r terfyniad lluosog *-ou*.<sup>121</sup>

cammeu	cam, kam	-au, hen l. cemmein	<b>CAM</b> eg. 'step, stride'	CBT 7.41.25	Gruffudd ab yr Ynad Coch
cemmein			cam	Ovid 38 <sup>b</sup>	

Crn. a Llyd. *cam*; H. Wydd. *céim(m)* n, dir. < Goed. *\*kenksmen*.<sup>122</sup> Gwelir oddi wrth y tarddiad mai enghraifft o fôn diryw yn *-n* yw *cam*, ll. H. Gym. *cemmein* < Brth. un. *\*kamman*, ll. *\*kamman-ī*. Mae'r tarddiad hwn wedi disodli'r lluosog Clt. *\*kammen-a* < *\*kang-smen-a* drwy gydweddiad â bonau-*o*.<sup>123</sup> *Cemmein* yw'r lluosog Cymraeg mwyaf hynafol, felly. Prin yw'r geiriau Cymraeg â'u terfyniad lluosog yn *-ein*, a gellir eu tarddu i gyd o hen fonau diryw yn *-n*. Rhestra Stüber H. Gym. *anu*, ll. *enuein*; *rhwym*, ll. H. Gym. *ruimmein*; a *cnaw*, ll. *cnouein*.<sup>124</sup> Gellid ychwanegu'r ll. H. Gym. *linnouein* (un. *llyn*).<sup>125</sup>

Y terfyniad cyfatebol yn Gernyweg yw *-yn* (e.e. *tam*, ll. *tymmy*) a cheir *-en* cyfatebol yn y Llydaweg mewn rhai geiriau, megis *enuen* yn *roinolenuen* gl. *patronimicum*.<sup>126</sup> Ni ddarganfûm ffurf luosog enwol Gwydd. *céim(m)*, ond gan fod lluosog enwol a gwrthrychol enwau diryw â'u bôn yn *-n* yn un (cymh. *béim*, ll. enw. a gwrth. *béimen(n)*), o leiaf y mae gennym y lluosog gwrthrychol yn *inna cemmen*.<sup>127</sup>

Deallir *cameu* Llywarch ap Llywelyn gan ei olygyddion fel lluosog *cam* 'camgymeriad'.<sup>128</sup>

carant karant	car, kar	ceraint, cerynt, carant	<b>CÂR</b> eg. 'kinsman, relative, cousin; friend, companion'	BBC 5.56 17.184 CA A.58 CBT 1.31.5	Meilyr ap Gwalchmai Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn
kereint			câr	BBC 8.8 CBT 1.3.99	Meilyr Brydydd Gwynfardd Brycheiniog Cynddelw Brydydd Mawr

<sup>121</sup> Rhys, John & Evans, J. Gwenogvryn (goln), *The Text of the Mabinogion and Other Welsh Tales from the Red Book of Hergest*, Oxford, 1887, t. 53.

<sup>122</sup> DIL; GPC.

<sup>123</sup> SBCHP, t. 395; VKG II, t. 113.

<sup>124</sup> Stüber, Karin, *The Historical Morphology of N-Stems in Celtic*, Maynooth, 1998, t. 28.

<sup>125</sup> Falileyev, *Etymological Glossary*, t. 104.

<sup>126</sup> Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 28; VKG II, t. 112.

<sup>127</sup> LEIA, C-54; VKG II, t. 112.

<sup>128</sup> CBT 5, t. 276.

Cymh.

esgar	escar, esgar	esgarant, ysgarant, esgeraint, ysgeraint	<b>ESGAR</b> , ysgar eg. / tf. 'enemy, foe, foreigner, stranger (sometimes collectively)'	CBT 1.3.98	Meilyr Brydydd Cynddelw Brydydd Mawr
esgarant			esgar, ysgar	CBT 3.21.111	Cynddelw Brydydd Mawr
esgereint			esgar, ysgar	CBT 5.7.10	Llywarch ap Llywelyn
isscereint			esgar, ysgar	BBC 18.172	
yscarant			esgar, ysgar	CBT 4.4.6	Cynddelw Brydydd Mawr
ysgar			esgar, ysgar	CBT 4.1.50	Cynddelw Brydydd Mawr
ysgarant			esgar, ysgar	CBT 2.14.109	Owain Cyfeiliog Llywarch ap Llywelyn
ysgereint			esgar, ysgar	CBT 2.26.12	Gwynfardd Brycheiniog Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Gruffudd ab yr Ynad Coch

Crn. *car*, ll. *kerens*, *keranz*; Llyd. *kar*, ll. *kerent*; H. Wydd. *car(a)e*, Gwydd. C. *cara* nt, g., ll. *carit*, *carait* < Clt. \**karants*, rhangymeriad presennol.<sup>129</sup> Rhydd y lluosog Clt. \**karantes* y ffurf *carant*. Dywed Evans 'by analogy with forms like *deueit* 'sheep' (pl. of *dauat*), a pl. *kereint*...was created early in the MW period.'<sup>130</sup> Yn ôl Pedersen, mae \*-*antes* wedi troi yn \*-*antoi*, yn ôl patrwm y bonau-*o*, gan greu'r ffurf *ceraint*.<sup>131</sup>

Gwelir mai cytuno a wneir felly mai *carant* yw'r ffurf hynaf ond dyddia Pedersen y newidiad sy'n esgor ar y ffurf *ceraint* i'r cyfnod Brythonig, nid i Gymraeg Canol fel y gwna Evans. Mae Schrijver yn amau hyn. Gwrthoda syniad Pedersen i *kereint* < \**karant-ī* ddisodli'r ffurf *karant* < \**karant-es* mor gynnar â'r cyfnod Brythonig oherwydd ceir y ddwy mewn Cymraeg Canol. Sylwa wedyn: 'nevertheless it may be claimed that the formation *kereint* < \**karantī* dates back to PBr.: cf. B *kerent* (pl. of *kar*) "parent, friend" and MCo. *kerens* (pl. of *kar*) "kinsman, parent" < \**karantī*. It seems unlikely that the SW-Br. plural is an independent creation. Cf. the functional distribution of MW *broder* and *brodyr* "brothers".<sup>132</sup> Er nad oes ffurfiau sy'n cyfateb i *carant* yn y Gernyweg nac yn y Llydaweg, cytunaf â Schrijver fod y tarddiad o \**karantī* yn gynnar. Posibilrwydd arall, er mwyn

<sup>129</sup> DIL; GPC; LEIA, C-38; VKG I, t. 249.

<sup>130</sup> GMW, t. 29.

<sup>131</sup> VKG II, t. 104.

<sup>132</sup> SBCHP, t. 396.

esbonio'r ffurfiau ag affeithiad-*i*, yw benthyciad o'r Gymraeg i'r ieithoedd Brythonig eraill, ond nid esbonia hyn pam na cheir *carant* ynddynt, ychwaith.

carneddawr	carn	-au, cernydd, cerni, hen l. ceirn, ceirnion, carneddawr	<b>CARN</b> eb.g. 'cairn, barrow'	CA A.58	
carnetaur			carn	BBC 34.35	
carneu			carn	CA GK	
carnou			carn	LL 236	
karneu llsgr. garnet			carn	CBT 7.24.131	Llygad Gŵr

Cymh. EWSP t. 462 carnetaur

H. Grn. *ewin-garn*, Crn. M. *carn* 'manubrium', ll. *carnow*; Llyd. *karn*, ll. *karneu*, *karnou*, *karniou*; Gwydd. *carn* o, dir.; Gr. *κάρνιον*; Llad. *cornu*.<sup>133</sup> Dylid cywiro *carnedd* i *carneu* yn Llawysgrif Hendregadredd gan mai *-eu* yw'r odl.<sup>134</sup> Rhestrir *keirnyon* (yn Llyfr Coch Hergest) fel lluosog dichonol gan GPC, ond yn ôl Lloyd-Jones 'nid amhosibl ystyr arall debyg i "crugau, tomennydd, ?gwehilion".'<sup>135</sup> Rhestra Stüber *keirnyon* a *kernydd* (Pen 53.1) fel lluosogion *carn* yn ogystal â *ceirn* < \**karnī* 'with replacement of the neuter \*-ā by masculine \*-ī'. Cymharer *câr* uchod.<sup>136</sup> Os diryw oedd yr enw Cymraeg yn wreiddiol, disgwylir *carn*, ll. \**carn*. Drwy gydweddiad ymledodd ffurfiannau bonau-*o* i raddau helaeth i fonau eraill, felly *ceirn* < \**karnī*.<sup>137</sup>

carrecou	carrec, carrecc	cerrig	<b>CARREG</b> eb.g. 'stone'	J 26	
carreic			carreg	Ang 18 b	
cerricc			carreg	MC 51 a.a.	
cerryg			carreg	CBT 4.4.173	Cynddelw Brydydd Mawr
kerryc			carreg	CBT 6.20.56	Mawl Llywelyn ab Iorwerth a'i Deulu

<sup>133</sup> GIB; GPC; Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, tt. 37-8.

<sup>134</sup> CBT 7, t. 243; G, t. 113a;

<http://digidol.llgc.org.uk/METS/LLH00001/frames?div=175&subdiv=0&locale=cy&mode=reference>, gwelwyd 20/04/2009.

<sup>135</sup> G, t. 113a.

<sup>136</sup> Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 38.

<sup>137</sup> CCCG, t. 166.

Crn. *carek, carrag*, ll. *karrygy*; Llyd. *karrek*, ll. *kerrek*, enwau lleoedd *Carrégui, Garreyen, Kerrec, Kerregi, Kerregou*.<sup>138</sup> Mae Gwydd. C. *carac* ā, b., Gwydd. Diw. *carraic*, yn fenthyciad o'r Gymraeg.<sup>139</sup>

Mae'n ddiddorol bod dau lluosog i'r gair hwn mewn Hen Gymraeg. Y naill yw *cerricc* yn MC, sy'n cyfateb i'r lluosog modern *cerrig*, a'r llall yw *carregou* yng nglosau Juvencus. Awgryma'r Wyddeleg mai *bôn-ā* oedd *carreg* ac fe'i rhestrir fel un gan Lewis a Pedersen, sy'n sylwi i rai hen fonau-ā ffurfio eu lluosogion drwy affeithiad.<sup>140</sup> Amheus yw *carreic* heb affeithiad yn ei fôn a thybed onid camsillafiad o'r ffurf unigol ydyw? Glòs ydyw ar *scylla et charybde*, fodd bynnag, felly disgwyliid y lluosog.

Dilyna'r lluosogion *carrecou*, ac efallai'r enwau lleoedd Llyd. *Carrégui* a *Kerregou*, batrwm bonau-*u* lle y ceir *-ou*, Cym. M. *-au* < \*-owes.<sup>141</sup> Mae *Kerregou*, ac efallai *Kerregi* a Crn. *karrygy*, yn lluosogion dwbl.

keisseid	keissyat	ceisiaid, ceisaid, ceisiadon	<b>CEISIAD</b> , ceisad eg. 'sergeant of the peace or his subordinate'	BBC 12.72	
keisseit			ceisiad	CBT 7.33.21	Madog ap Gwallter
keissyadon			ceisiad	CA GA	

Mae'r enw'n cynnwys *cais* + *-iad*. Terfyniad lluosog *nomina agentis* yn *-iad* yw *-iaid*. Cymharer *beidiad* uchod, lle y codai lluosog newydd yn *-on* hefyd.<sup>142</sup> Rhestrir *keisseid* fel ll. *cas* gan Lewis ond annhebygol yw hyn wrth gofio mai lluosog arferol y gair hwnnw yw *-au, -oedd*.<sup>143</sup> Cyfieitha Haycock *keisseid* fel 'helwyr' (< *ceisio*; mae ystyr tebyg gan *hela* a *ceisio*).<sup>144</sup>

keluytodau	keluydawl, keluydyt	-au, -on, -ion, -oedd	<b>CELFYDDYD</b> , celfyddod eb. 'art,craft, vocation'	CBT 1.27.38	Einion ap Gwalchmai
keluytodeu			celfyddyd, celfyddod	CBT 5.2.5	Llywarch ap Llywelyn
keluytodyon			celfyddyd,	CBT 5.4.12	Llywarch ap Llywelyn

<sup>138</sup> Padel, *Cornish Place-Name Elements*, t. 41; Trépos, Pierre, *Le pluriel breton*, Brest, 1957, tt. 150-1.

<sup>139</sup> DIL; GPC; LEIA, C-42.

<sup>140</sup> CCCG, t. 168.

<sup>141</sup> CCCG, t. 171.

<sup>142</sup> GPC.

<sup>143</sup> GPC; Lewis, Henry, *Hen Gerddi Crefyddol*, Caerdydd, 1974, t. 280.

<sup>144</sup> Haycock, Marged, *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, Cyhoeddiadau Barddas, 1994, t. 128.

			celfyddod		
kelytodeu			celfyddyd, celfyddod	CBT 6.18.4	Einion ap Gwgon

Cynnwys yr enw *celfydd* + *-yd* / *-awd* / *-od*. Ni cheir enghraifft o'r lluosog yn *-ion* yn GPC.<sup>145</sup> Yn ôl Stüber, 'there are two abstract suffixes in Welsh that sometimes [*sic*] show a plural *-yon*, namely *-awt* and *-edd*. *-awt* can be derived from *\*-ātu-* which is also found in Irish.'<sup>146</sup> Cymharer Gwydd. C. *calma-tus* o, g. 'strength, bravery' gyda'r terfyniad haniaethol yn *-u-*, a Cym. *molawd*, sy'n gytras â'r Gwydd. *molad* sydd â'i fôn yn *-u*.<sup>147</sup>

*-au* oedd terfyniad lluosog rheolaidd y bonau-*u*, felly *celfyddod-au*; ond ceid *-ion* fel lluosog enwau haniaethol, fel y gwelir uchod. Rhydd Stüber *celfyddodau* a *celfyddodion* fel enghraifft o sut y ceir y ddwy ffurf yn gyfochrog, gan nodi bod y terfyniad cyntaf i'w gael yn aml yn gynharach.<sup>148</sup> Ni welir hyn yn y data a gasglwyd o gyfnod Beirdd y Tywysogion: ceir *-au* ac *-ion* gan Lywarch ap Llywelyn (ail hanner y ddeuddegfed ganrif) ac *-au* gan Einion ap Gwalchmai a chan Einion ap Gwgon (hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg).

kelyrn llsgr. kelern	kelwrn	celyrnau, -i, celyrn	<b>CELWRN</b> eg. 'pail, pitcher, vessel, bucket, tub'	CBT 1.25.15	Einion ap Gwalchmai
kelyrnet			celwrn	CBT 4.1.29	Cynddelw Brydydd Mawr

H. Gym. *cilurnn*; Llyd. C. *quelorn*, ll. *quelorniou*, Llyd. M. *kelorn*; H. Wydd. *cilornn*, ll. *cilairn* o, g.; Llad. *calpar* 'tunnell win'; Gr. *κόλπη*; Skt. *karpara*.<sup>149</sup> Mae'r Wyddeleg yn dangos mai *celyrn* yw'r ffurf fwyaf hynafol. Awgryma Vendryes darddiad o *\*kel(p)urno-*, ond mae Hamp yn ailwerthfawrogi'r cysylltiad rhwng *celwrn* a'r Llad. *calpar* gan nodi nad cysylltiad Indo-Ewropeaidd ydyw oherwydd ei bod yn ymddangos mai benthyciad yw *calpar*, efallai o'r Groeg.<sup>150</sup> HOLA Lloyd-Jones tybed ai *kelyrnet* yw darlleniad Llawysgrif Hendregadredd neu a ellid darllen *kelyruet*.<sup>151</sup> Mae golygyddion CBT am gadw'r darlleniad gan nodi mai dyma'r unig enghraifft o'r lluosog hwn i *celwrn*.<sup>152</sup>

<sup>145</sup> GPC.

<sup>146</sup> Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 37.

<sup>147</sup> DIL; VKG II, t. 41.

<sup>148</sup> Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 37.

<sup>149</sup> DIL; DOB; GIB; GPC; LEIA, C-99; VKG I, t. 94.

<sup>150</sup> Hamp, Eric, 'On some sources of Primitive Breton L', *ÉC* 14 (1974), 198; LEIA, C-99.

<sup>151</sup> G, t. 127a.

<sup>152</sup> CBT 4, t. 13.

canaon	cenov, keneu	cenawon, cenafon, canawon, canaon, cynawan, cynawon, cynafon	<b>CENAU</b> , cenaw eg. 'cub, whelp, puppy, kitten'	CA B.66 CBT 3.11.9	Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Dafydd Benfras
canawon kanawon			cenau, cenaw	CBT 1.3.144	Meilyr Brydydd Gwalchmai ap Meilyr Owain Cyfeiliog Cynddelw Brydydd Mawr Dafydd Benfras
kanavon			cenau, cenaw	BBC 18.144	
kynawon			cenau, cenaw	CBT 2.14.116	Owain Cyfeiliog

H. Lyd. *Ri-keneu*, *Gur-cheneu*, *Kenou*; Gwydd. C. *cano*, *cana* g. (yn ôl DIL: 'inflection varies. orig. appar. *nt*').<sup>153</sup> Hen rediad *cenau* oedd un. Brth. *\*kanawī* < *\*kanawū* < Clt. *\*kanawō*, ll. *\*kanawon-es*; sef rhediad *bôn-n*. Wedi colli'r sillafau terfynol megis *\*-es*, ailddehonglwyd *-on* fel terfyniad lluosog. Ceir, felly, mai *canawon* yw'r ffurf luosog hynaf a bod *cenawon* /*cynawon* yn ffurfiau affeithiedig arni, efallai o dan ddylanwad yr unigol.<sup>154</sup> Ceir dau air Gwydd. C., sef *cana* 'poet of the fourth grade', a redir yn gyffredinol fel *bôn* deintiol, a *cana* 'cenau', sy'n ymddwyn fel *bôn-n*.<sup>155</sup> Ar *canaon* heb *-w-*, gw. BELAU.

cerddau	cerd, kerd, kert	-i, -au, -oedd, cyrdd, ceirdd	<b>CERDD</b> eb. 'song, poem'	CBT 1.17.18	Elidir Sais Llywarch ap Llywelyn
cyrdd			cerdd	CBT 2.22.15	Seisyll Bryffwrch Llywarch ap Llywelyn
kerdeu			cerdd	CBT 2.14.81	Owain Cyfeiliog Madog ap Gwallter Gruffudd ab yr Ynad Coch
kerddeu			cerdd	CBT 5.28.1	Llywarch ap Llywelyn
kerteu			cerdd	CBT 1.3.13	Meilyr Brydydd Gwalchmai ap Meilyr Einion ap Gwalchmai Gwynfardd Brycheiniog Cynddelw Brydydd Mawr Y Prydydd Bychan Llygad Gŵr
kertev			cerdd	BBC 3.26 CBT 1.2.28	dienw

<sup>153</sup> DIL; GPC.

<sup>154</sup> SBCHP, tt. 123, 259; Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 27; VKG II, t. 107.

<sup>155</sup> Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 119.



kirt ?			cerdd	BBC 23.38	
kyrd			cerdd	CBT 2.32.7	Gruffudd ap Gwrgenau
kyrt			cerdd	BBC 38.11 ? CBT 3.7.11	Cynddelw Brydydd Mawr Y Prydydd Bychan Llygad Gŵr

Cymh. EWSP t. 432 cerdeu, t. 462 kerteu

H. Wydd. *cerd* ā, b., ll. *cerda*, cymh. Gr. *κέρδος*.<sup>156</sup> Os *bôn-ā* yw'r gair Cymraeg, yr un yw'r unigol a'r lluosog. Mae *cerddau* yn awgrymu cydweddiad â bonau-*u* ac mae *cyrdd* yn dilyn patrwm bonau-*o*. Efallai y ceir lluosog Llydaweg sy'n cyfateb i *cyrdd* yn *gurthcird* < ? \**gurth-cerd*, yn llawysgrif Angers 477.<sup>157</sup> Os enghraifft o *cyrdd* sydd yma, gellir awgrymu bod y lluosog newydd hwn yn fwy hynafol na *cerddau*. Ceir *cyrdd* hefyd yn Llyfr Taliesin, lle y gallai fod yn lluosog *cerdd* neu *cordd*, ond awgryma Haycock mai lluosog *cerdd* ydyw.<sup>158</sup>

Cymharer *cordd*, ll. *corddau*, *cyrdd*; Gwydd. C. *cuire* io; Gal. *Tricorii* 'tri llu'.<sup>159</sup> Tardda Schrijver *corddau* < \**korj-owes* ond noda efallai mai *cyrdd* oedd yr hen luosog.<sup>160</sup> Gwêl Koch yn 'gwarchan kyrd cynvelyn' ffurf enidol unigol *cordd* < \**corjo-*, \**korjī*, ond nid yw hyn yn profi na all fod yn lluosog.<sup>161</sup> Cymharer Elidir Sais 'edrych *cyrdd* *cerddau* Taliesin' sy'n dangos bod Beirdd y Tywysogion yn fodlon defnyddio'r ddau fath o luosog ochr yn ochr.<sup>162</sup> Yn yr un gerdd ceir naill ai *cerddau* (CBT) neu *corddau* (GPC, yn dilyn *Myvyrian Archaeology*, ond sylwer mai testunau llwgr yw'r rhai yn y llyfr hwnnw).<sup>163</sup> Dengys yr enghreifftiau fod y ddau luosog, *cyrdd* a *cerddau*, i'w cael ochr yn ochr mor gynnar â Llyfr Taliesin a BBC.<sup>164</sup>

cethrawr		-au, -i, -on, -awr, cethrennau	<b>CETHR</b> , -en eb. 'nail, pin'	CA A.14	
cethreu kethreu			cethr	CBT 1.20.14	Elidir Sais Einion ap Gwalchmai Cynddelw Brydydd Mawr

<sup>156</sup> LEIA, C-71-2.

<sup>157</sup> DOB.

<sup>158</sup> LPBT, tt. 147, 444.

<sup>159</sup> DIL; GOI, t. 183; GPC.

<sup>160</sup> SBCHP, t. 282.

<sup>161</sup> CA, t. 55; Koch, John T., 'Gleanings from the *Gododdin* and other Early Welsh texts', BBCS 38 (1991), 114.

<sup>162</sup> CBT 1, t. 347.

<sup>163</sup> GPC.

<sup>164</sup> LPBT, tt. 115 (*kyrd*), 316 (*kerdeu*), 436 (?*kyrd*).

					Gruffudd ab yr Ynad Coch Bleddyn Fardd
kethri			cethr	CBT 1.14.69	Gwalchmai ap Meilyr Gruffudd ab yr Ynad Coch

Benthyciad o'r Llad. *centrum*, yn ôl GPC; Crn. *kenter* 'hoel'; Llyd. *kentr* 'ysbardun', ll. *kentroù*; H. Wydd. *cinteir* gl. *calcar*.<sup>165</sup> Amheus yw hanes y gair: awgryma Henry Clt. \**kentri*, benthyciad o'r Gr. *κέντρον*.<sup>166</sup> Benthycwyd Llad. *centrum* o'r Groeg, yn ôl Loth, ond dywed nad yw'n sicr mai benthyciadau yw'r geiriau Celtaidd.<sup>167</sup> Awgrymir ymhellach i *cinteir* gael ei fenthyg o'r Frythoneg, gan na ellid cael *-nt-* mewnol mewn gair Goideleg gwreiddiol.<sup>168</sup>

Luosog y Llad. *centrum* yw *centra*, a roddai'r ll. \**cethr* yn y Gymraeg. Mae'n arwyddocaol na ddefnyddia Beirdd y Tywysogion luosog yn *-awr* yn achos y gair hwn, gan eu bod yn hoff o'i ddefnyddio'n aml.

cledyfeu	cleddyf, cletyw	-au, hen l. cleddyfawr	<b>CLEDDYF</b> , cleddau eg. 'sword'	CBT 7.36.40	Gruffudd ab yr Ynad Coch
cledyuawr kledyuawr			cleddyf	CA A.1 CA A.11	
cleddyfau ? llsgr. haelon...clau			cleddyf	CBT 3.8.12	Cynddelw Brydydd Mawr Dafydd Benfras
cletyfeu			cleddyf	CBT 4.6.148	Cynddelw Brydydd Mawr

Crn. *clethe*, ll. *clēdydyow*, *clhythow*; Llyd. C. *clezeff*, *clezeu*, ll. *clezeffyou* (Catholicon), *clezeier*, Llyd. M. Cynnar ll. *cléaniérr*, *clenveio*, *clezeier*, Llyd. Diw. *kleze*, ll. *c'hlezeio*, *gleanier*; Gwydd. *claideb* o, g., ll. *-ib,-bi*; cymh. Llad. *gladius*.<sup>169</sup>

Os enw gwrywaidd *bôn-o* yw *cleddyf*, megis *claideb*, disgwylir affeithiad-*i* yn y lluosog, ond nid yw hyn yn bosibl yn achos yr *-y-* yn *cleddyf*. Noda Evans y ceir y [i] > y [ə] o flaen y terfyniad yn *cleddyfau*, *-awr* ond nid yw'r newid hwn yn berthnasol yma gan mai atodiad sillaf arall sy'n peri'r newid seinegol > y [ə], ac nid yw hyn yn ymwneud â hen

<sup>165</sup> GPC; LEIA, C-104.

<sup>166</sup> Henry, V., *Lexique étymologique des termes les plus usuels du breton moderne*, Rennes, 1900, t. 62.

<sup>167</sup> Loth, J., *Les mots latins dans les langues brittoniques*, Paris, 1892, t. 149.

<sup>168</sup> Vendryes, J., 'A propos du rapprochement de l'irlandais *claideb* et gallois *cleddyf*' yn *Mélanges de linguistique offerts à M. Ferdinand de Saussure*, Paris, 1908, t. 319.

<sup>169</sup> DIL; GIB; GPC; Jackson, Kenneth Hurlstone, *A Historical Phonology of Breton*, Dublin, 1967, t. 612; VKG II, t. 29.

derfyniad lluosog y gair.<sup>170</sup>

Mae'n debyg bod *cleddyfawr* yn cyfateb i Llyd. *klezeier*.<sup>171</sup> Terfyniad cyfatebol yn Gernyweg fyddai *-er*, ond ceir *-(y)ow* yn lle hynny, ac mae hynny'n cyfateb i Cym. *-au*. Awgryma Vendryes fod Gwydd. *claideb* yn fenthyciad o'r Brth. *\*kladdiv* cyn affeithiad-*i* (ond ar ôl colli'r sillaf derfynol wreiddiol).<sup>172</sup> Dyddia McManus y benthyciad hwn i'r bumed ganrif, cyn colli sillafau terfynol y Frythoneg. Cawn, felly, Brth. *\*/klaðiβos/* > H. Wydd. */klað'əβ/* = *claideb*. Rhôï *\*kladdiv* uchod Gwydd. *\*claidib*, ffurf nad yw i'w chael yn yr iaith honno.<sup>173</sup>

coed		coed (ll. a tf.), ll. dwbl coedydd, coedau 'forest, wood, trees'	<b>COEDEN</b>	BBC 1.36 CBT 1.9.26	Gwalchmai ap Meilyr Einion ap Gwalchmai Hywel ab Owain Gwynedd Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Einion ap Gwgon
coedyt			coeden	CBT 2.26.96	Gwynfardd Brycheiniog
coet			coeden	CA A.30	
coit			coeden	LL 73	
coydyt			coeden	CBT 2.1.65	Llywelyn Fardd I
coyt			coeden	LL 325	

Cymh. EWSP t. 231 coet, t. 416 argoet, t. 429 coit

H. Grn. *cuit* (Voc.Corn.), Crn. C. *coys*, *cos*; Llyd. C. *koad*, *koed*, ll. *coatdou* (Catholicon), Llyd. M. Cynnar *coageou*, *coëdëü*; Brth. (*Leto*)*cetum*; Gal. *Ceto(briga)* < Clt. *\*kaito-*. Ceir *coit* yn *Historia Brittonum* (9g.).<sup>174</sup> Enw lluosog a thorfol yw *coed* ac mae *coedydd* yn ffurf lluosog arno. Ni cheir ffurfiau cyfatebol Cymraeg i'r lluosogion Llydaweg yn *-ou* / *-eu*.

coelyon	coel	-iau, -ion	<b>COEL</b> eg.b. 'belief; omen'	CBT 5.26.36	Llywarch ap Llywelyn
coiliou			coel	MC 2 a.a.	
coilou			coel	Ovid 39 <sup>b</sup>	

H. Grn. *chuil-lioc*; H. Lyd. *coel* < Clt. *\*kailo-* < IE *\*kai-lo-/\*kai-lu-*, cymh. H. S. *hæl* 'lucky omen'. Benthyciwyd Gwydd. *cél* o'r Frythoneg.<sup>175</sup> Ceir *coilou*, *coiliou* mewn dau destun Hen

<sup>170</sup> GMW, t. 29.

<sup>171</sup> VKG II, t. 52.

<sup>172</sup> LEIA, C-111.

<sup>173</sup> McManus, Damian, 'A Chronology of the Latin Loan-Words in Early Irish', *Ériu* 34 (1983), 33-4.

<sup>174</sup> DOB; GIB; GPC; SBCHP, t. 219.

<sup>175</sup> IEW, t. 520; VKG I, t. 57.

Gymraeg, sydd yn awgrymu mai hwn oedd y lluosog hynaf, ond nid yr un gwreiddiol, os tarddant o \**kai-lo*.

Gan fod *coel* fel arfer yn fenywaidd, a chan fod enwau *bôn-o* yn wrywaidd ac yn ddiryw yn unig, awgrymir mai enw *bôn-u* ydyw ac mai \*-*owes* > -*au* yw ei luosog.<sup>176</sup> Mae *coelion* yn odli â *kicytyon* yng ngherdd Llywarch ap Llywelyn.<sup>177</sup> -*ion* yw lluosog enwau yn -*ydd*, gydag eithriadau prin iawn, megis *gobennydeu*.<sup>178</sup> Gellir tybio bod grym cydweddol yr -*ion* yn *kicytyon* yn peri *coelion* yn achos Llywarch ap Llywelyn.

cofiain	cob, cof, cow	-(i)on, -(i)au, co(e)au, hen l. -(i)ain, -awr	<b>COF</b> eg. 'memory; mind'	CBT 2.23.1	Seisyll Bryffwrch
cofion			cof	BBC 20.19 CBT 6.31.25	Dafydd Benfras
cofyein			cof	CBT 4.1.6	Cynddelw Brydydd Mawr Einion ap Gwgon
cofyeu			cof	CBT 1.7.58	Gwalchmai ap Meilyr
cofyon kofyon			cof	CBT 2.4.13	Llywelyn Fardd I Cynddelw Brydydd Mawr Einion Wan Gruffudd ab yr Ynad Coch Bleddyn Fardd
couyeu			cof	CBT 1.16.3	Elidir Sais Cynddelw Brydydd Mawr
covein			cof	BBC 3.26 CA A.13 CBT 1.2.28	dienw
kofein			cof	CBT 7.29.1	Iorwerth Fychan
kouyon llsgr. 6y ghouyn			cof	CBT 6.19.1	Mawl Llywelyn ab Iorwerth

Cymh. EWSP t. 440 cofyon

Crn. C. *cof*, Crn. M. *cov*; H. Lyd. *com* (wedi ei ysgrifennu *cam*), Llyd. C. *couff*, Llyd. Diw. *kouñ*; H. Wydd. *cuman* ans., *cuimne* iā, b. < Clt. \**komen-* < \**kom-men-*.<sup>179</sup> Ym marn Stüber 'no satisfactory preforms can be established' yn achos *cof*, ll. *cofein* a *llw*, ll. *llyein*; nid yw'n

<sup>176</sup> CCCG, tt. 170-1.

<sup>177</sup> CBT 5, t. 264.

<sup>178</sup> Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 33.

<sup>179</sup> GPC; Lambert, Pierre-Yves, 'Les commentaires celtiques à Bède le Vénérable', *ÉC* 20 (1983), 134; LEIA, C-287; VKG I, t. 171.

ymdrin â lluosogion eraill *cof*.<sup>180</sup> Cytuna Schrijver, a Stüber yn anuniongyrchol, mai *cofain* yw'r ffurf hynaf.<sup>181</sup> Dadleua Vendryes fod y lluosog Cym. C. *covein* yn adlewyrchu \**komanī*.<sup>182</sup> Mae H. Wydd. *cuman* o blaid hynny.

coffau ?	coffa, koffa	coffeion, coffaon, coffâu	<b>COFFA</b> berfenw / eg. 'remembrance, memory'	CA GK	
coffeion			coffa	CBT 6.31.40	Dafydd Benfras

Cynnwys hwn y bôn *cof* a'r ôl-ddodiad *-ha*. Ni restrir *coffau* (h.y. *coffâu* (e.) / *coffâu* (berfenw)) yn CA fel lluosog *coffa* gan GPC a gwelir ei fod yn debycach o fod yn ferfenw nag yn enw lluosog. Os felly, cytras yw â'r Llyd. *kounaat*.<sup>183</sup>

Ceir dau ôl-ddodiad sef *-hau* a *-(h)a* yn Gymraeg. Mae *-(h)a* yn gytras â therfyniadau berfol Llyd. *-a* ac *-aat*. Terddir y ffurfiau Brythonig o IE \**-sag-* > \**-hay* > *-(h)a*. Ceir *-(h)a* fel ôl-ddodiad berfenwol yn Llydaweg yn amlach nag y Gymraeg.<sup>184</sup> Mewn Cymraeg Canol, arferir yr ôl-ddodiad *-u* yn aml.<sup>185</sup> Mae'n nodweddiadol y ceir *-(h)a* fel elfen mewn enwau a mewn ansoddeiriau hefyd. Ni restrir Lloyd-Jones *coffa* ond cymharer yr enwau yn *-häet*, *-haed* sydd yn seiliedig ar ferfau yn *-hau*. Cymharer, er enghraifft, *sarhaed* â'r ferf *sarhau*.<sup>186</sup> Awgrymir mai dyma gysylltiad rhwng yr enw *coffa* a'r berfenw *coffau*.

corforion	corf, corff, corph, korf	cyrff, corffoedd, corffau, cyrffau	<b>CORFF</b> eg. 'body'	BBC 17.54	
cyrph			corff	CBT 7.34.10	Madog ap Gwallter
korffeu			corff	CBT 6.8.19	Llywelyn Fardd II

Crn. *corf*; Llyd. C. *corf*, ll. *corffou* (Catholicon), Llyd. M. Cynnar *corfëu*, *kerf*; Gwydd. *corp* o, g., ll. *coirp*. Benthyciadau ydynt o'r Llad. *corpus*.<sup>187</sup> A dilyn patrwm yr Wyddeleg, disgwylir ll. Cym. *cyrff*, ond gwelir mai ffurf gydweddol ydyw. Y lluosog Lladin yw *corpora* a roddai Cym. \**corffor*. O safbwynt morffolegol, gwelir y ffurf hon yn *corffor-ion*, sef

<sup>180</sup> LEIA, C-288; Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 28.

<sup>181</sup> SBCHP, t. 37.

<sup>182</sup> LEIA, C-288.

<sup>183</sup> Hemon, *Geriadur Brezhoneg*.

<sup>184</sup> Lloyd-Jones, J., 'The Welsh Denominatives in *-hau* and *-ha*', ZCP 8 (1912), 151; 153; 160.

<sup>185</sup> Schumacher, Stefan, *The Historical Morphology of the Welsh Verbal Noun*, Maynooth, 2000, t. 165.

<sup>186</sup> Lloyd-Jones, 'The Welsh Denominatives', 163-4.

<sup>187</sup> DIL; GIB; GPC.

lluosog dwbl.<sup>188</sup> Gallai cydweddiad â'r unig enw bôn-*r* a'i luosog yn *-or*, sef *chwior*, fod wedi peri i *\*corffor* aros, ond oherwydd nad oedd y dosbarth hwn yn gynhyrchiol, ychwanegwyd y terfyniad cyffredin *-ion* (cymh. ffurfiad lluosog dwbl yn achos *chwiorydd*). Sylwer mai *corffor-ion* yw'r lluosog cynharaf yn y sampl hwn, er bod Lloyd-Jones yn awgrymu darllen *cornorion* yn lle *corforion* yn BBC lle yr odla â *meibon*.<sup>189</sup> Mae ffurfiau cyfatebol i *corffau* a *cyrff* yn Llydaweg. Mae hyn, a gwybod nad yw GPC yn crybwyll ll. *corfforion*, yn awgrymu i'r hen luosog hwn gael ei ddisodli'n gynnar.

Awgryma Thomas Jones esboniad arall ar gyfer Cym. C. *corfforion* a *corfforoedd*. Yn lle eu gweld fel 'math o luosogion dwbl y gair *corff*', fe'u cysyllta â'r ffurf *corffor* a rhestru enghreifftiau o'r gair hwn fel gair unigol mewn Cymraeg Canol. Dadleua mai 'ffurfiau ll. *corffor* yw *corfforyon*, *-oedd*, ac o'r ffurf un. honno y lluniwyd *corfforol* a *corfforaeth*. Daw *corff* o *corpus* a *corffor* o stem un o'r cyflyrau traws, *corporis*, &c.' Â'r ffurfiau hyn cymhara bâr megis *trined* a *trindod*.<sup>190</sup> Mae awgrym Jones yn debygol o fod yn gywir yng ngoleuni GPC sydd yn rhestru *corfforion* fel ll. *corffor*.

cirn kirn	corn	cyrn, ll. dwbl cyrnau, cyrnod	<b>CORN</b> eg. 'horn, antler; drinking-horn'	BBC 30.31(2)	
cirn			corn 'horn, antler; (here) point or cairn on mountain top'	LL 173	
cirnn kirnn			corn	BBC 17.53 16.88	
cornou ?			corn	LL 172	
cyrn kyrn			corn	CBT 1.3.73	Meilyr Brydydd Owain Cyfeiliog Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Phylip Brydydd Gruffudd ab yr Ynad Coch
cyrnn			corn	CBT 3.3.234	Cynddelw Brydydd Mawr

Cymh. EWSP t. 423 cyrn, tt. 455, 463 cirn

<sup>188</sup> Lewis, *Elfen Ladin*, t. 35.

<sup>189</sup> BBC, t. 30; G, t. 165a.

<sup>190</sup> Jones, Thomas, 'corff, corffor', BCS 11 (1944), 138.

Crn. a Llyd. *corn*, Llyd. C. ll. *querniel* (Catholicon), Llyd. M. Cynnar ll. *qern*, *qernyou*, *qernyel*, *qernëu*; Gwydd. *corn* o, g.<sup>191</sup> Benthyciadau o'r Llad. *cornū* yw'r geiriau Celtaidd yn ôl Vendryes, ond geiriau cytras ydynt yn ôl Pedersen.<sup>192</sup> Cytuna Jackson â Vendryes gan restru Llad. *cornī* > Cym. *cyrn*, Llyd. *kern*, ac yn anuniongyrchol mae Schrijver yn cytuno â hyn.<sup>193</sup> Ni ddeallaf sut y ceir Llad. *cornī* gan yr ysgolheigion hyn oherwydd *cornua* yw lluosog rheolaidd *cornū* (diryw). Mae'n bosib y ceid ll. \**cornī* yn ddiweddarach yn ôl y patrwm gwrywaidd.<sup>194</sup> Ni chrybwyll Lewis y gair hwn yn ei *Elfen Ladin*.

Mae Joseph yn pwysleisio nad yw'r geiriau Celtaidd, o anghenraid, yn fenthyciadau o'r Lladin. Dywed 'I know of no evidence that \*kornu would have given anything but corn in Brittonic, and Ir. corn is an o-stem, so there is no question of raising'. Awgryma gadw'r cwestiwn yn agored.<sup>195</sup> Mae Pokorny'n tybio nad yw'r geiriau Celtaidd yn fenthyciadau ond ni ddywed hynny heb amheuaeth.<sup>196</sup> Os enw brodorol sydd yma, *corn*, ll. *cyrn* sydd fwyaf tebygol gan mai *bôn-o* yw Gwydd. *corn*.

Mae Ifor Williams yn nodi defnydd *cyrn* yng nghanol yr ugeinfed ganrif 'fel enw benywaidd unigol mewn amryw siroedd, weithiau gydag ansoddair, y *Gyrn* Goch, Y *Gyrn* Ddu, Y *Gyrn* Las.' Ni ellid cymryd y ffurf hon fel deuol, yn ôl Williams, oherwydd bod rhai o'r *cyrn* hyn yn sefyll yn unig ac nid 'dau gorn' yw'r ystyr felly.<sup>197</sup>

Ansicr yw *cornou* yn LL. Fe'i ceir mewn enwau lleoedd: Brinn Cornou a Cruc Cornou, ger y Fenni. Cymer Padel *cornou* yma fel ffurf ar *corn*.<sup>198</sup> Os ystyrir *corn* fel gair Celtaidd o \**kornus* â'i fôn yn *-u*, disgwylir ll. \**korn-owes* > *cornou* yn rheolaidd. Posibilrwydd tebycach yw bod yma air gwahanol i *corn*. Awgryma Schrijver, gan ddilyn Jackson, fod *cornou* yn LL yn gytras â'r enw lle *Cernyw* < *Kornïw* < \**Kornow(j)ī*.<sup>199</sup> Gellir cymharu hefyd Cym. C. 'Tutuwlch Corneu tywyssawc o Kernyw' yn llawysgrif Peniarth 45, lle y ceir *Corneu* yn ystyr 'o Gernyw', wedi ei wrthgyferbynnu ag enw'r deyrnas *Kernyw*.<sup>200</sup>

creirev	creir, kereir	creiriau, creiriaid	<b>CRAIR</b> eg.b. 'relic; holy thing'	BBC 5.73	
creirieu			crair	CBT 2.26.255	Gwynfardd Brycheiniog
creirriou			crair	Pad: 3	

<sup>191</sup> GIB; GPC; LEIA, C-210.

<sup>192</sup> LEIA, C-210; VKG I, t. 194.

<sup>193</sup> LHEB, tt. 581, 586 n. 3; SBCHP, t. 54.

<sup>194</sup> Lewis & Short, *A Latin Dictionary*.

<sup>195</sup> Joseph, Lionel S., 'The Treatment of \*CRH- and the Origin of CaRa- in Celtic', *Ériu* 33 (1982), 46.

<sup>196</sup> IEW, t. 576.

<sup>197</sup> Williams, Ifor, *Enwau Lleoedd*, trydydd argraffiad, Lerpwl, 1962, t. 15.

<sup>198</sup> Padel, *Cornish Place-Name Elements*, t. 66.

<sup>199</sup> LHEB, t. 378; SBCHP, t. 54.

<sup>200</sup> LHEB, t. 708.

creiryau			crair	CBT 1.27.107	Einion ap Gwalchmai Llywelyn Fardd I Gwynfardd Brycheiniog
----------	--	--	-------	--------------	------------------------------------------------------------------

Llyd. Diw. *kreir*, ll. *kreirioù*; H. Wydd. *cretar* o, yn debygol dir., Gwydd. C. *cretair* b., ll. *cretra* < Clt. \**kredro*-.<sup>201</sup> Os diryw oedd H. Wydd. *cretar*, disgwyliid yr un ffurf yn yr unigol ac yn y lluosog enwol a gellir rhagdybio *crair*, ll. \**crair* yn y Gymraeg. Y ffurf yn *-iau* yn unig a geir yng nghyfnod Hen Gymraeg. Ceir yr *-i-* yn Llyd. *kreirio* hefyd felly gellid awgrymu ei bod yn gyffredin i'r Frythoneg.

creadurev	creadur, kreadur	-iaid, -au, -iau	<b>CREADUR</b> eg. 'created being or thing, creature'	BBC 25.10	
creaduriau			creadur	CBT 6.29.55	Dafydd Benfras
creaduriev			creadur	BBC 25.19	
creaduryeu			creadur	CBT 2.5.22	Llywelyn Fardd I Madog ap Gwallter
creaturou			creadur	Ang 15 b	

Cymh. EWSP t. 466 creadurev 'of creation'

H. Grn. *croadur*; Llyd. C. *croeadur*. Benthyciad ydyw o'r Llad. *creātūra*.<sup>202</sup> Rhydd Zimmer darddiad manylach: benthycwyd *creadur* am y tro cyntaf yn y cyfnod Rhufeinig o'r Llad. *creatūra*, ac fe'i ceir eto fel benthyciad dysgedig o'r Llad. *creatōrem* 'creawdwr' yn y bedwaredd ganrif ar ddeg ac yn y ddwy ganrif wedyn. Cymharer tarddiad *-awdwr* < Llad. *-ātor* megis yn *creawdwr*.<sup>203</sup>

Daeth benthyciadau yn cynnwys y terfyniad a gafwyd gan Llad *-tūra* yn gynhyrchiol yn y Llydaweg, megis *tonkadur* 'tynged', *nevezadur* 'adnewyddiad'.<sup>204</sup> Yn ôl Zimmer, *-iaid* yw terfyniad lluosog Cymraeg arferol y benthyciadau hyn pan fônt yn dynodi pobl, a chymerir *-on* gan y gweddill.<sup>205</sup> Nid yw *creadur* yn dilyn y patrwm hwn yn y sampl. Mae *-iaid*, fel *-(i)au*, yn derfyniad cydweddol; ni all y lluosog Llad. *creātūrae* roi ffurf wahanol i'r unigol.

cyfeillion	kyfeillt,	cyfeill(i)on,	<b>CYFAILL</b> ,	CBT 6.31.70	Dafydd Benfras
------------	-----------	---------------	------------------	-------------	----------------

<sup>201</sup> Favereau, Francis, *Dictionnaire du breton contemporain / Geriadur ar brezhoneg a-vremañ*, Morlaix, 1992; GPC; LEIA, C-232.

<sup>202</sup> GPC.

<sup>203</sup> Zimmer, Stefan, *Studies in Welsh Word-formation*, Dublin, 2000, tt. 282-3.

<sup>204</sup> Favereau, *Dictionnaire du breton*; VKG II, t. 43.

<sup>205</sup> Zimmer, *Word-formation*, t. 282.



	kyueillt	-iaid	cyfaillt eg. 'friend, fellow'		
kyueillon			cyfaill, cyfaillt	CBT 6.19.27	Mawl Llywelyn ab Iorwerth Gruffudd ab yr Ynad Coch
kyueillyon			cyfaill, cyfaillt	CBT 3.21.181	Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn

Daw o'r Brth. \**kom-alt-jos*, ac o'r un gwreiddyn ag y ceir yn *aillt*, H. Gym. *Cimeilliauc*, *cyfalle(dd)*; H. Grn. *chevals*; H. Lyd. *Comalt-car*, *Comal-car*; Gwydd. C. *alt* 'cymal' ?u, g., *comaltae* 'brawd maeth' io, g.<sup>206</sup> Rhydd Schrijver *cyfeillon* fel yr unig luosog Cymraeg Canol.<sup>207</sup> Er hynny, mae *-on* ac *-ion* a geir yn y sampl yn newydd gan mai'r un yw unigol a lluosog enwol y bonau-*io* yn y Frythoneg.<sup>208</sup> Yn y cerddi o waith Beirdd y Tywysogion a restrir, mae'r brifodl yn *-on* bob tro ac nid oes rheswm amlwg dros yr amrywiaeth rhwng *-on* ac *-ion* gan nad yw *-i-* yn y terfyniad yn effeithio ar yr odl.<sup>209</sup>

cyfoedion	kyfoet, kyuoet	-on, -ion, -i	<b>CYFOED</b> , cyf-oed, cywoed ans. / eg.b. 'of the same age'	CBT 6.31.23	Dafydd Benfras
cyuoedyon kyuoedyon			cyfoed, cyf- oed, cywoed	CA A.17 CBT 3.26.98	Cynddelw Brydydd Mawr
kyuoedon			cyfoed, cyf- oed, cywoed	CBT 2.14.36	Owain Cyfeiliog
kyuoedyt			cyfoed, cyf- oed, cywoed	CBT 1.3.109	Meilyr Brydydd

Cynnwys *cyf-* ac *oed*. Yr unig enghraifft o'r lluosog yn *-ydd* yw'r un a geir gan Feilyr Brydydd.<sup>210</sup>

Crn. C. *oys*; H. Lyd. *oit*, *oet*, ll. *oitou*, Llyd. C. *oat*, Llyd. M. *oad* < Clt.\**aito-*; cymh. Llad. *aevum*.<sup>211</sup> Mae *oed*, yn ogystal ag *oes*, yn gytras â H. Wydd. *áes*, *ais*, *oes*, *óis* dir. yn

<sup>206</sup> DOB; GPC; LEIA, C-165; VKG I, t. 26; VKG II, t. 35.

<sup>207</sup> SBCHP, t. 350.

<sup>208</sup> CCCG, t. 167.

<sup>209</sup> CBT 3, t. 210; CBT 5, t. 42; CBT 6, tt. 285, 483; CBT 7, t. 447.

<sup>210</sup> CBT 1, t. 93.

<sup>211</sup> DOB; GPC; IEW, t.11; SBCHP, t. 194; VKG I, t. 56.

ystyr ‘oes, oed’; gwelir isod. Gellid awgrymu’n betrus *oed*, ll. \**oed* gan mai dyna a geir yn yr Wyddeleg ac yng ngoleuni tarddiad *oes*.

oessyt	oes, ois	-au, -oedd, -ydd	<b>OES</b> eb. ‘age’	CBT 1.3.147	Meilyr Brydydd
oisou			oes	Chad 2	

H. Grn. *huis*, Crn. C. *oys*, Crn. Diw. *ûz*; H. Lyd. *oit*, ll. *oitou*, Llyd. C. *oad*, ll. *oadou*; H. Wydd. *âes*, *aîs*, *ôes*, *oîs* o, dir. < \**ait-to*-.<sup>212</sup> Ceir Cym. *oes* drwy’r Brth. \**ēssV*-.<sup>213</sup> *Bôn-o* yw’r Gwydd. *âes* yn yr ystyr ‘oes’ ond *bôn-u* ydyw yn yr ystyr ‘pobl’. Os dilynir patrwm H. Wydd., ceir *oes*, ll. \**oes*. Daeth y ffurfiau yn *-au*, Llyd. *-ou*, yn lluosogion arferol yn yr ieithoedd Brythonig wedyn, gydag *oesoedd* hefyd yn Gymraeg.

cyfreithiau	cyfreith, cymreith, kefreyth, kiureith, kyfreith	cyfreithiau, -ion	<b>CYFRAITH</b> eb. ‘law; legislation’	CBT 6.29.64	Dafydd Benfras
kyfreitheu			cyfraith	CBT 7.41.18	Gruffudd ab yr Ynad Coch
kyureitheu			cyfraith	CBT 1.27.50	Einion ap Gwalchmai

Daw o’r Brth. \**kom-rekt*-. Gwelir yr ail elfen yn H. Lyd. *Reituualart*, Llyd. C. *rez*, *reiz*; H. Wydd. *recht* u, g.; Gal. *Rextugenos*; Llad. *rēctus*; S. *right*; Alm. *Recht*.<sup>214</sup> *-au* oedd terfyniad rheolaidd bonau-*u* yn y Frythoneg a gellid tybio bod *cyfreithau* yn ffurf wreiddiol. Nodir y ceir y ffurf ag iod mor gynnar â Llyfr Du o’r Waun, yn y drydedd ganrif ar ddeg (*kefreythyeu*).<sup>215</sup>

cynghyr kynghyr	kaghor, kyghor	cynghorau, -ion, cyngyr	<b>CYNGOR</b> eg. ‘advice, counsel’	CA A.24 CBT 3.10.72	Cynddelw Brydydd Mawr
kynghorev			cyngor	CBT 1.30.36	Meilyr ap Gwalchmai
kyngyr			cyngor	CBT 2.14.63	Owain Cyfeiliog

<sup>212</sup> DIL; DOB; GIB; GPC; IEW, t. 11.

<sup>213</sup> SBCHP, t. 234.

<sup>214</sup> DOB; GPC; VKG I, t. 123.

<sup>215</sup> CCGG, t. 170; Huws, *Medieval Welsh Manuscripts*, t. 58.

H. Wydd. *cocur* o, g. (> Cym. *cogor*), Gwydd. Diw. *cogar* < Clt. *\*kom-kor-o-*.<sup>216</sup> Yr hen luosog, yn ôl y tarddiad *bôn-o*, yw *cyngyr* < *\*kom-kor-ī*. Ceir wedyn *cyngorau* a *cynghorion* fel lluosogion newydd.<sup>217</sup>

kygrein	kyngran	cyngrain cyngrein(i)on	<b>CYNGRAN</b> eg. 'prince, leader, warrior'	CBT 2.14.47	Owain Cyfeiliog
kygreinon			cyngran	CBT 4.4.225	Cynddelw Brydydd Mawr
kyngrein			cyngran	CBT 2.14.116	Owain Cyfeiliog Cynddelw Brydydd Mawr
kyngreinon			cyngran	CBT 3.21.210	Cynddelw Brydydd Mawr

Cymh. EWSP t. 427 cyngrein

Mae'r tarddiad yn ansicr iawn. Cynigir ?*cy(ng)-+\*gran(n)* yn GPC.<sup>218</sup> Gweler y canlynol:

cinerein	kinran, kynran	cynrain, ll. dwbl. cynreinion	<b>CYNRAN</b> eg. 'prince, leader'	CA B.71	
cynrein kynrein			cynran	CA A.18 CBT 1.3.22	Meilyr Brydydd Gwalchmai ap Meilyr Llywelyn Fardd I Cynddelw Brydydd Mawr Llywelyn Fardd II Einion ap Gwgon Bleddyn Fardd
kenrein			cynran	CBT 5.10.43	Llywarch ap Llywelyn
kinreinion			cynran	BBC 1.34	
kynreinion			cynran	CBT 7.22.14	Hywel Foel
kynreinyon			cynran	CBT 3.10.11	Cynddelw Brydydd Mawr
kynreinon			cynran	CBT 1.3.100	Meilyr Brydydd Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn
kynreinyon			cynran	CBT 6.5.30	Einion Wan
kynvrein			cynran	BBC 17.140	

<sup>216</sup> GPC; Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 37.

<sup>217</sup> Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 37.

<sup>218</sup> GPC.

Cymh. EWSP t. 407 kynrein

Gallai *cynran* darddu o *cyn-* + (*f*)*ran* neu *cynt-* + *rhan*. Rhestra GPC *cynvrein* yn BBC o dan *cynfran* (*cyn-* + *brân*). Digwydd *Cynfran* fel enw personol yn LL. Anodd yw penderfynu tarddiad *cynran* gan fod ei ystyr yn debyg i *cynfran* ‘the foremost crow or raven, fig. leader, chieftain or warrior’.<sup>219</sup> Dywed Lloyd-Jones fod *cyngran* a *cynran* yn gyfochrog, ac nad yw’r ail yn wall am y llall o anghenraid.<sup>220</sup> O dan ‘torf, llu, byddin’, rhestra hefyd *kyngrein* fel gair ar wahân, a’i luosog yn *kyngreion*. Noda efallai fod rhai o’r ffurfiau hyn yn gyfochrog â *kynrein*, *-on* ond o ran ystyr, cymhara’r H. Wydd. *congreinn* ‘collects, gathers together’, berfenw *congraimm*.<sup>221</sup>

Un ffordd o ddatrys problem y gwahanol luosogion yw bod gennym dri gair gwahanol, rhywbeth fel *cynfran*, ll. *cynfrain*; *cynran*, ll. *cynrain*, ll. dwbl *cynrein(i)on*; *cyngran*, ll. *cyngrain*, ll. dwbl *kyngreinion*. Yn fy marn i, mae Lloyd-Jones wedi camddeall y lluosogion affeithiedig *cynrein* a *kyngrein* fel unigol, ac wedi rhestru’r lluosogion dwbl yn *-on* fel lluosogion rheolaidd.

kinytion	kynyt	-ion	<b>CYNYDD</b> eg. ‘huntsman, man in charge of hounds’	BBC 17.11	
kynyton			cynydd	CBT 3.11.60	Cynddelw Brydydd Mawr

Bôn y gair *ci*, sef \**kun-*, a welir yn *cynydd*.<sup>222</sup> Yn ôl GPC, *-yon* yw lluosog rheolaidd enwau yn *-ydd* sy’n dynodi person. Cymharer *prydydd*, ll. *prydyton* a.y.b.<sup>223</sup> Yn achos cerdd Cynddelw, darlleniad Llawysgrif Hendregadredd yw *kynyton*; ceir y ffurf reolaidd *kynnydyon* yn Llyfr Coch Hergest.<sup>224</sup> Ni cheir enghreifftiau o *-on* yn GPC.

dafneu	dauyn	-au, defni	<b>DAFN</b> eg. ‘drop of water or any other liquid’	CBT 1.14.50	Gwalchmai ap Meilyr
defni			dafn	CBT 7.43.37	Gruffudd ab yr Ynad Coch

Rhydd GPC ystyr pendant i *defni* ‘diferion glaw a ddisgyn o do anniddos neu o fargod’, gan awgrymu fod gwahaniaeth yn y modd y defnyddir y ddau luosog. Efallai mai defnydd

<sup>219</sup> GPC.

<sup>220</sup> G, t. 226a.

<sup>221</sup> DIL; G, t. 226a.

<sup>222</sup> GPC; Wodtko *et al.*, *Nomina im Indogermanischen Lexikon*, t. 436.

<sup>223</sup> GPC; Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 33.

<sup>224</sup> CBT 3, t. 132.

modern sydd yma oherwydd ni cheir y gwahaniaeth hwn rhwng *dafneu* a *defni* gan Feirdd y Tywysogion.<sup>225</sup> Mae Lloyd-Jones yn petruso cyn rhestri rhai enghreifftiau dan yr enw lluosog *defni* a *defni* arall sy'n gallu bod yn enw unigol ac yn ferf.<sup>226</sup> Ar wahân i Lloyd-Jones, nid yw'r ieithyddion yn trafod hanes y gair.

danhedd		dannedd, daint, danheddau	<b>DANT</b> eg. 'tooth'	CBT 7.34.18	Madog ap Gwallter
danned			dant	CBT 6.36.32	Cwyn y Pererin (dienw) Gruffudd ab yr Ynad Coch
deint			dant 'tooth; manners, disposition'	CBT 2.26.24	Gwynfardd Brycheiniog
deint			dant	BBC 7.34 CBT 2.6.83	Hywel ab Owain Gwynedd

Cymh. EWSP t. 417 deint, danned

H. Grn. *dans*, Crn. C. ll. *dyns*, Crn. M. ll. *dens*; Llyd. *dant*, ll. *dent*; H. Wydd. *dét* nt, dir., ll. *dét*, yn ddiweddarach *déta*, *deoit* (yn ôl y patrwm gwrywaidd); Llad. *dens* < IE \**d̥n̥t*-.<sup>227</sup> Gwelir oddi wrth yr Wyddeleg mai *dant*, ll. \**dant* yw'r patrwm gwreiddiol. Rhestra Pedersen *dannedd* fel y lluosog rheolaidd newydd, a chymer *dannet* (Voc.Corn.) fel lluosog Cernyweg wedi ei fenthycu o'r Gymraeg.<sup>228</sup> Nid felly, yn ôl Blom, a ddengys mai gair Cymraeg ydyw.<sup>229</sup> Cytunir bod *deint* yn lluosog diweddar wedi ei ffurfio yn ôl enwau gwrywaidd bôn-o, ac mae'n ddiddorol y ceir yr un datblygiad yn y Gernyweg, yn y Llydaweg ac yn yr Wyddeleg. Yn ôl Vendryes, *deint* yw'r lluosog hynaf oherwydd y cyfansawdd *dein(t)cryd* a'r ddihareb *ys da deint rac tauawt* (mewn cerdd gan Hywel ab Owain Gwynedd, hanner cyntaf y ddeuddegfed ganrif), ond ni rydd ragor o dystiolaeth.<sup>230</sup>

Dadleua Lloyd-Jones fod *deint* weithiau yn unigol a thyn sylw at *deudeint* ac *undeint*. Diddorol hefyd yw gweld y ffurf hon yn *gwyndeint*, *hoywdeint* a.y.b.<sup>231</sup> Mae hyn yn awgrymu defnydd tebyg i *meib* yn dilyn rhifolion (?ac weithiau yn dilyn ansoddeiriau) er nas rhestrir fel un o'r geiriau hynny yn y cyfeirlyfrau. Ceir *deint* ynghyd ag ansoddair yn *ys da deint*

<sup>225</sup> CBT 7, t. 492. Nodir y darlleniad llawysgrif Peniarth 113D *denym* yn lle *defni*.

<sup>226</sup> G, tt. 288a, 306a.

<sup>227</sup> Blom, Alderik H., 'The Welsh Glosses in the *Vocabularium Cornicum*', CMCS 57 (Haf 2009), 28; GPC; LEIA, D-62.

<sup>228</sup> VKG I, tt. 46, 500.

<sup>229</sup> Blom, 'The Welsh Glosses in the *Vocabularium Cornicum*', 28.

<sup>230</sup> CBT 2, t. 120; Vendryes, J., 'Remarques de vocabulaire', RC 46 (1929), 253.

<sup>231</sup> G, t. 296a.

(CBT 2.6.83) ond nid fel arall yn BBC a CBT. Sylwer bod yr enghreifftiau i gyd yn cyd-fynd â'r odl.

Yng ngherdd Gwynfardd Brycheiniog mae *deint* yn cytuno'n semategol ag ail ystyr Gwydd. *dét*, sef 'manners, disposition'.<sup>232</sup>

doniau	daun, dawn	doniau, weithiau gynt donion	<b>DAWN</b> eg.b. 'faculty, intellectual gift'	CBT 4.18.6	Cynddelw Brydydd Mawr Dafydd Benfras
donnyeu			dawn	CBT 1.27.32	Einion ap Gwalchmai Llywelyn Fardd I Cynddelw Brydydd Mawr Llygad Gŵr
donyeu			dawn	CBT 1.9.143	Gwalchmai ap Meilyr Einion ap Gwalchmai Meilyr ap Gwalchmai Llywarch ap Llywelyn Madog ap Gwallter Gruffudd ab yr Ynad Coch
donyon			dawn	CBT 1.14.22	Gwalchmai ap Meilyr Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn

H. Wydd. *dān* u, g., ll. *dānai*, *dāna* < Clt. \**dānum* < Clt. Cynnar \**dōnu-*, cymh. Llad. *dōnum*, Skt. *dānām*.<sup>233</sup> Oherwydd mai *bôn-u* sydd gan y gair Celtaidd, *-au* yw'r terfyniad gwreiddiol, gydag *-i-* o'r bonau-*jo* a *-jā*.<sup>234</sup> Fel y nodir uchod, tueddai'r terfyniad *-ion* i ledu i fonau eraill.

dedfeu	dedyf, detef, detyf, detyw	-au, -on	<b>DEDDF</b> eb. 'law (of the land, &c.); specific act of legislation'	CBT 2.26.217	Gwynfardd Brycheiniog
dedueu			deddf	CBT 1.30.35	Meilyr ap Gwalchmai Llywelyn Fardd I Llywelyn Fardd II
deddfon			deddf	CBT 6.31.59	Dafydd Benfras
deddyfeu			deddf	CBT 7.50.24	Bleddyn Fardd
detfeu			deddf	CBT 1.27.61	Einion ap Gwalchmai Llygad Gŵr
detueu			deddf	CBT 2.1.174	Llywelyn Fardd I Llygad Gŵr

<sup>232</sup> GPC; Vendryes, 'Remarques de vocabulaire', 253.

<sup>233</sup> GPC; LEIA, D-23; SBCHP, t. 193.

<sup>234</sup> CCCG, tt. 170-1.

detuon			deddf	CBT 7.22.21	Hywel Foel
detvon			deddf	BBC 31.18	

Tardda o'r Clt. \**dedmā* (GPC) / \**dedmi-* (SBCHP), cymh. H. Wydd. *deidm* i / \**dedm* ā, b. (fe'i ceir yn y gen. *deidmea*) 'cyfamod', Gr. *θεσμός*.<sup>235</sup> *Deddfau* yw'r lluosog rheolaidd, yn ôl y beirniaid, ond os *bôn-ā* sydd gan y gair, fel H. Wydd. *dedm*, disgwylir *deddf*, ll. \**deddf*.<sup>236</sup>

dagrau		dagrau, deigr(au), ll. dwbl dagreuoedd	<b>DEIGRYN</b> , deigr eg. 'tear, tear-drop; drop'	CBT 6.29.25	Dafydd Benfras
dagreu			deigryn, deigr	CBT 1.26.12	Einion ap Gwalchmai Gwynfardd Brycheiniog Gruffudd ap Gwrgenau Cynddelw Brydydd Mawr Phylip Brydydd Y Prydydd Bychan Gruffudd ab yr Ynad Coch
deigir			deigryn, deigr	BBC 40.37	
deigr			deigryn, deigr	CBT 1.18.2	Elidir Sais
deigr			deigryn, deigr	CA A.58 CBT 3.26.132	Cynddelw Brydydd Mawr Y Prydydd Bychan Gruffudd ab yr Ynad Coch Bleddyn Fardd

Cymh. EWSP tt. 412, 432 deigr, t. 414 deigir, tt. 432,437 dagreu

Crn. *dager*, *dagren*, ll. *dagrow*, *dagrennow*; H. Lyd. *dacr-(lon)*, Llyd. C. ll. *dazrou*, Llyd. M. ll. *daerou*; H. Wydd. *dér* < Clt. \**dakrū* (yn ôl GPC); cymh. Llad. *dacruma*, *lacruma*.<sup>237</sup> Mae cenedl a *bôn* Gwydd. *dér* yn ansicr, ond awgryma'r lluosogion *dera* a *déra* air dir. *bôn-u*, yn ôl Vendryes a Hamp.<sup>238</sup>

Anghytuna Vendryes â'r tarddiad a gynnigir yn GPC uchod gan nodi mai Cym. *deigr* yn unig sy'n dangos tarddiad clir o \**dakrū*. Mae Hamp yn datrys y broblem hon drwy sefydlu i \**dakrū* gwreiddiol gael ei ddisodli gan \**dakrū*. Hon fyddai'r ffurf luosog yn ogystal â'r unigol oherwydd bod y terfyniadau bonau-*ū* un. \*-*wā* neu \*-*ū* (a geir yn \**dakrū*), ll. \*-*wās*, yn

<sup>235</sup> GPC; LEIA, D-41; SBCHP, t. 37.

<sup>236</sup> G, t. 305a; LPBT, t. 324.

<sup>237</sup> DOB; GPC; Nance, *English-Cornish and Cornish-English Dictionary*; VKG I, tt. 124, 372.

<sup>238</sup> Hamp, Eric, 'The Keltic words for "tear"', *Ériu* 22 (1971), 182; LEIA, D-54.

rhoi \*-ū yn y Gelteg.<sup>239</sup> Cododd y lluosog yn -au i ailwahaniaethu rhwng y ffurfiau hyn. Dywed Hamp ‘since this noun was an old neuter (and therefore pl. \*-ū), it may well be that \*-ow was generalised on the basis of other case forms of the *u*-stem to relieve the growing ambiguity of a singular and plural \*-ū.’<sup>240</sup>

Tywyllir hanes y gair gan y ffurfiau newydd un. *dagr* a ll. *dagreuoedd*, *deigreu*, *deigron*. Ymddengys i *dagr* ddatblygu o’r ffurf *dagreu*; a bod *dagreuoedd* yn lluosog dwbl arni.<sup>241</sup> *Dagr* yw’r ffurf unigol a ddaeth i’r Gernyweg a Llydaweg. Yn ôl Loth mae *deigron* yn lluosog dwbl tebyg i *meibion*.<sup>242</sup> Ymddengys imi i *deigr* gael ei ddeall fel ffurf luosog yn ddiweddarach (gw. GPC); efallai fel lluosog *dagr*, neu efallai mai ôl-ffurfiad ydyw o *deigron*.

Mae Pedersen yn awgrymu mai *deigr* oedd y lluosog gwreiddiol ac iddo gael ei ddeall fel unigol yn ddiweddarach. Rhydd *geneu* ac *angeu*, fel enghreifftiau o luosogion eraill sydd wedi dod yn unigol.<sup>243</sup> Cefnogir hyn, efallai, gan y modd y gall *deigr* fod yn unigol ac yn lluosog mewn Cymraeg Modern.

doethion	doeth	-on, -ion, -iaid	<b>DOETH</b> ans. / eg. ‘wise, tactful; wise man’	CBT 6.31.14	Dafydd Benfras
doethon			doeth	CBT 2.26.72	Gwynfardd Brycheiniog Einion Wan Mawl Llywelyn ab Iorwerth Y Prydydd Bychan Gruffudd ab yr Ynad Coch
doethyon			doeth	CBT 5.2.45	Llywarch ap Llywelyn Bleddyn Fardd

H. Lyd. *doith-*. Benthyciad ydyw o’r Llad. *doctus*.<sup>244</sup> Pe dilynid patrwm yr ansoddair Lladin, ceid lluosog Llad. *doctī* > Cym. \**dyth*. Cymharer ansoddair bôn-o arall *cadarn*, ll. *kedeirn* / *kedyrn* lle y mae’r lluosog gwreiddiol wedi goroesi.

doleu	dol	-ydd, -au	<b>DÔL</b> eb. ‘meadow, dale’	CA GM	
dolit			dôl	BBC 17.207	
dolyd			dôl	CBT 7.30.44	Iorwerth Fychan

<sup>239</sup> CCCG, t. 169; Hamp, ‘The Keltic words for “tear”’, 184; Sihler, Andrew L., *New Comparative Grammar of Greek and Latin*, New York, 2008, t. 327.

<sup>240</sup> Hamp, ‘The Keltic words for “tear”’, 184.

<sup>241</sup> G, t. 310a; LEIA, D-54.

<sup>242</sup> Loth, J., ‘Restes de neutre en bretonique’, RC 15 (1894), 95.

<sup>243</sup> VKG II, t. 90.

<sup>244</sup> GPC; VKG I, t. 228.



dolyt			dôl	CBT 2.6.11	Hywel ab Owain Gwynedd Gwynfardd Brycheiniog Llywarch ap Llywelyn
-------	--	--	-----	------------	-------------------------------------------------------------------------

Crn. *dôl* (mewn enwau lleoedd) < Clt. \**dolā*.<sup>245</sup> Mae'n gytras â Gr. *δόλος*; H. S. *dal*.<sup>246</sup> Yn ôl Lloyd-Jones, efallai fod *dôl* yn wrywaidd yn wreiddiol, ond nodder mai enw benywaidd, *bôn-ā*, yw'r gair Celteg. Ceir rhai enwau lleoedd lle na ddilynir *dôl* gan dreigladd, e.e. Dolcorslwyn, Dolmelynlllyn; ond mae'r rhan fwyaf o'r enghreifftiau'n fenywaidd, e.e. Dolbenmaen.<sup>247</sup> Rhaid cofio hefyd i'r treigladd ddirywio yn y gystrawen enidol, e.e. Bro Morgannwg, felly nid yw enwau megis Dolcorslwyn yn profi cenedl yr enw. Yn achos *bonau-ā*, disgwylir yr un ffurf yn yr unigol a'r lluosog.

dreicyeu	dreic	dreigiau, -au, -ioedd	<b>DRAIG</b> eb.g. 'dragon'	CBT 5.1.60	Llywarch ap Llywelyn Y Prydydd Bychan
dreigev			draig	BBC 16.70	
dreigiau			draig	CBT 4.13.21	Cynddelw Brydydd Mawr Dafydd Benfras
dreigieu			draig	CBT 4.1.13	Cynddelw Brydydd Mawr
dreigioedd			draig	CBT 1.18.28	Elidir Sais
dreigyeu			draig	CBT 3.11.16	Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Bleddyn Fardd

H. Grn. *druic*. Benthyciad o'r Llad. *dracō* > Brth.\**drakī*.<sup>248</sup> Dengys Schrijver fod H. Wydd. *drauc* yn fenthyciad o'r Frythoneg, gan y ceir *-c* [g] yn lle \**-ch*.<sup>249</sup>

Gair â'i fôn yn *-n* yw *draig*, yn ôl Pedersen, ac wedi trawsgroesi gyda'r rhediad *-jā* neu *-jo*. Rhestr *dreigiau* fel lluosog rheolaidd, felly, ond cofier mai benthyciad sydd yma.<sup>250</sup> Mae Stüber yn cymryd *dragon* fel ll. *dreic* ac yn ei gymharu â *ceneu*, ll. *canawon* gyda'r affeithiad yn yr unigol sydd ag \**-ī*.<sup>251</sup> Mae gan y Cym. *dragon* ystyr unigol a lluosog ac fe ddaw o'r Lladin llafar *dracōn-em* neu o'r ll. *dracōnes*.<sup>252</sup> Yn hanesyddol, *dragon* fyddai'r

<sup>245</sup> GPC.

<sup>246</sup> IEW, t. 245.

<sup>247</sup> Davies, Elwyn (gol.), *Rhestr o Enwau Lleoedd: A Gazetteer of Welsh Place-Names*, Caerdydd, 1967, t. 39; G, t. 386a.

<sup>248</sup> GPC; LEIA, D-189.

<sup>249</sup> Schrijver, Peter, 'Vendryes/Lambert, Lexique étymologique. Lettre D', *Kratylos* 45 (2000), 172; Sims-Williams, Patrick, 'Gildas and Vernacular Poetry', yn Lapidge, Michael & Dumville, David (goln), *Gildas: New Approaches*, Woodbridge, 1984, t. 189.

<sup>250</sup> VKG II, t. 107

<sup>251</sup> Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 12.

<sup>252</sup> GPC.

lluosog, felly. Er hynny, ni wn am *dragon* â'r ystyr S. 'dragons'; 'arwr' a.y.b. yw'r ystyr. Ymddengys i'r gair gael ei fenthyg ddwywaith o'r Lladin; *dreig* < *draco* a *dragon* < *draconem/-es*. Gallai hyn esbonio gwahanol ystyron y ddau air Cymraeg, efallai.<sup>253</sup> Ceir enghraifft ddichonol o'r gwahaniaeth rhyngddynt yn 'dragwn [os saf am *dragon*] val vn or draigaiy'.<sup>254</sup>

dris	dryssien	drysi, drys 'briers, brambles'	<b>DRYSIEN</b>	BBC 26.31
drissi			drysien	J 27 J 56 J 87

Cymh. EWSP t. 453 dris

H. Grn. *dreis*, Crn. M. *drize*; Llyd. M. *dreẏ*, un. *dreẏenn*; H. Wydd. *driss* i, b., ll. *drissi*, Gwydd. M. *dres* ā, b. < Clt. \**drits-* (GPC) / \**dris-(s)tV-* (SBCHP).<sup>255</sup> Diddorol yw'r berthynas rhwng *drys* a *drysi* (a'r Crn. *dreis* a *drize*), a restrir fel enwau torfol gan GPC, er bod gan yr ail derfyniad yn *-i*. Cymharer *llwyn*, ll. *llwynau*, *-i*, *-ydd*; ?Crn. Diw. ll. *loinou*; H. Lyd. *loin*, *loen*. Mae'r enghreifftiau cynnar o'r lluosog yn GPC i gyd ag *-au*.<sup>256</sup>

Er bod H. Wydd. *drissi* yn ymddangos fel ffurf gyfatebol o ran ei therfyniad (ac o ran *drissi* = Cym. /*drəsi*/), tardda'r terfyniad hwn o \**-īs* < ?\**-ejes*, yn ôl Thurneysen, er nad yw'n sicr am y tarddiad.<sup>257</sup> Yn y Gymraeg, awgryma Lewis a Pedersen fod \**-ejes* yn rhoi'r terfyniad *-oedd*, a'r genidol lluosog \**-ijōm* > Cym. *-ydd*, ond mae Thurneysen yn amau hynny (gweler hefyd y bennod ar *-oedd* am awgrymiau gwahanol gan Schrijver).<sup>258</sup> Beth bynnag a fo, mae'n glir na chyfetyb y terfyniadau lluosog Gwyddeleg yn *-i* i'r rhai Cymraeg.

Dichon y gellir cymharu Crn. *brān*, ll. *bryny*; Llyd. *bran*, ll. *brini* (cymh. Cym. *brân*, ll. *brain*).<sup>259</sup> Ceir affeithiad ym mōn y gair a hefyd yr ôl-ddodiad lluosog *-i* yn Llydaweg ac yn Gernyweg, ond ceir affeithiad yn unig yn Gymraeg.

dyfred	dubr, dufyr, duuir, duuyr, duwir, dwfyr, dwuyr	dyfroedd, †dyfredd, deifr, dyfr, dyfrau	<b>DŴR</b> , dwfr eg. 'water'	CBT 7.41.3	Gruffudd ab yr Ynad Coch
dyfyr			dŵr, dwfr	CBT 1.9.6	Gwalchmai ap Meilyr
dyuret			dŵr, dwfr	CBT 5.14.2	Llywarch ap Llywelyn

<sup>253</sup> Sims-Williams, 'Gildas and Vernacular Poetry', t. 189.

<sup>254</sup> G, t. 389a.

<sup>255</sup> GPC; LEIA, D-197; Padel, *Cornish Place-Name Elements*, t. 88; SBCHP, t. 410; VKG I, t. 80.

<sup>256</sup> GPC.

<sup>257</sup> GOI, t. 193.

<sup>258</sup> CCCG, t. 172; GOI, t. 193.

<sup>259</sup> DIL; GPC; Padel, *Cornish Place-Name Elements*, t. 29.

dyuyr			dŵr, dwfr	CBT 1.9.21	Gwalchmai ap Meilyr
-------	--	--	-----------	------------	---------------------

H. Grn. *dour, douer*, Crn. C. *dour, dowr*; Llyd. M. Cynnar ll. *dourou, doureyer*, Llyd. M. *dour*, ll. *douriou, doureier*; Gwydd. C. *dobur* o; Gal. *Uerno-dubrum*.<sup>260</sup> Fe ddaw o'r Clt. \**dubro*-.<sup>261</sup> Ceir ffurf luosog affeithiedig *deif(y)r*, yn ogystal â *dyf(y)r*, ac mae tarddiad o \**dubro*- (*bôn-o*) yn awgrymu mai'r rhain yw lluosogion mwyaf hynafol y gair, os gwrywaidd yw ei genedl hanesyddol.

dieu	did, dit, dyd, dydd, dyt	-iau, †dieu, dieuoedd, diewoedd, &c.	<b>DYDD</b> eg. 'day'	CBT 1.9.135	Gwalchmai ap Meilyr
diev			dydd	BBC 17.79	
dydyeu			dydd	CBT 7.40.13	Gruffudd ab yr Ynad Coch
dyeu			dydd	BBC 17.7	

H. Grn. *det*, Crn. C. *deth, dyth*; Llyd. C. *dez*, ll. *dezyou, diziou*, Llyd. M. Cynnar ll. *deiziou, diziou, deyo, déieu*, Llyd. Diw. *deiz*; H. Wydd. *die, dia* (ffurf broclitig, megis yn *dia domnich* 'dydd Sul'), Gwydd. C. *die* < IE \**dijeu-* (GPC) / \**dijeu-s* (SBCHP). Tardda'r ll. *dyddiau* o \**dijews* + \**-i-ewes*.<sup>262</sup> Cymharer tarddiad y ll. *diau*:

dieu, diau < \**dijewes* (Pedersen)  
 \**diowes* (Schrijver)  
 \**dijowes* (Thurneysen; Hamp; Watkins).<sup>263</sup>

Er bod dadleuon yn achos tarddiad y gwahanol ffurfiau Celteg, mae'n amlwg mai *diau* yw'r ffurf luosog hynaf. Deil Cym. C. *dieu* a H. Lyd. *diou* i gael eu defnyddio yn dilyn rhifolion yn yr un modd â Cym. *meib* a *blynedd*.<sup>264</sup> Diddorol hefyd yw Cym. C. ll. dwbl *dieuoed*.<sup>265</sup>

dinion	din, dyn	-on, -ion, ll. dwbl †dynionau, dyn(i)addon,	<b>DYN</b> eg.b. 'man, human being'	BBC 12.75	
--------	----------	---------------------------------------------	-------------------------------------	-----------	--

<sup>260</sup> DIL; GIB; GPC.

<sup>261</sup> SBCHP, t. 353.

<sup>262</sup> GIB; GPC; SBCHP, t. 318; VKG II, t. 92.

<sup>263</sup> GOI, t. 217; Hamp, Eric P., '\*Dieu- "day" in Celtic', *ÉC* 14 (1974-75), 475; SBCHP, t. 281; VKG II, t. 92; Watkins, Calvert, 'The Indo-European word for "day" in Celtic and related topics', *Trivium* 1 (1966), 103.

<sup>264</sup> GMW, t. 47; Hamp, '\*Dieu- "day" in Celtic', 473.

<sup>265</sup> VKG II, t. 92.

		dyneddon, dyneddach			
dinon			dyn	BBC 1.15	
dyneddon			dyn	CBT 6.19.20	Mawl Llywelyn ab Iorwerth
dyneton			dyn	BBC 18.25	
dyniaddon			dyn	CBT 6.31.57	Dafydd Benfras Bleddyn Fardd
dynyadon			dyn	CBT 1.16.16	Elidir Sais Llywelyn Fardd I Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Einion Wan Hywel Foel Gruffudd ab yr Ynad Coch
dynyaton			dyn	CBT 1.27.3	Einion ap Gwalchmai Cynddelw Brydydd Mawr
dynyon			dyn	CBT 1.5.8	Meilyr Brydydd Einion ap Gwalchmai Daniel ap Llogwrn Mew Hywel Foel Madog ap Gwallter Gruffudd ab yr Ynad Coch

Crn. *den*, ll. *tüs*; Llyd. *den*, ll. *tud*; (Trégor a rhan o Vannes) *denyou*, *denyeù*; (Van.) *denyed*, *denion*; H. Wydd. *duine* io, g., ll. *doíni*; Gal. *teuoxtonion* < Clt. *\*donjo-*.<sup>266</sup> Awgryma Brugmann mai enwau torfol oedd *dyn* a *duine* yn wreiddiol, ac efallai'n ddiryw. Cymer Hen Iraneg *jána* â'r ystyr 'Volk' (pobl) a 'Mensch' (bod dynol, person), ond 'Volk' yw'r ystyr gwreiddiol.<sup>267</sup> Tebyg, efallai, yw'r defnydd geiriol yn Alm. *drei Mann* (un.) 'tri pherson' vs. *drei Männer* (ll.) 'tri dyn'.<sup>268</sup> Dilynir y rhifolyn gan enw lluosog yn rheolaidd yn Almaeneg.

Rhedir y lluosog H. Wydd. *doíni* fel *bôn-i*, ac mae gennym rai enghreifftiau o'r unigol *doin*, *dóen* mewn barddoniaeth. Cytunir, er hynny, mai *bôn-jo* yw'r gair yn hanesyddol.<sup>269</sup> Rhestra'r ieithyddion Cym. *dynion* fel y lluosog rheolaidd, ond sylwer mai'r un ffurf unigol a lluosog a oedd gan eiriau *bôn-jo* yn y Frythoneg, felly ffurf newydd yw *dynion* hefyd.<sup>270</sup> Yn achos y terfyniad hwn noda Stüber '-yon was also used with nouns denoting persons in general, a development which seems to be as old as Proto-British.'<sup>271</sup> Ceir lluosog yn *-ion* yn

<sup>266</sup> Favereau, *Dictionnaire du breton*; GIB; GPC; LEIA, D-217-18; Nance, *English-Cornish and Cornish-English Dictionary*; Trépos, *Le pluriel breton*, tt. 36-7, 73; VKG II, tt. 85-6.

<sup>267</sup> Brugmann, Karl, 'Irish *Duine* "Mensch"', ZCP 3 (1901), 598.

<sup>268</sup> Acquaviva, *Lexical Plurals*, tt. 174-5.

<sup>269</sup> LEIA, D-217-8.

<sup>270</sup> VKG II, t. 85.

<sup>271</sup> Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 39.

nhafodiaith Lydaweg ardal Vannes (Gwened), ond *tud* yw'r lluosog safonol. Mae terfyniadau newydd eraill yn *-ou* ac *-ed* yn codi yn y Llydaweg, yn ogystal â'r ffurfiau cyflenwadol *tud*, Crn. *tüs*. Ni cheir ffurf gyfatebol i'r rhain yn y Gymraeg.

mebion	mab, map	meib(i)on, (prin) mabion, meib, ll. dwbl meib(i)onain, meibonau	<b>MAB</b> eg. 'boy, son'	LL 43	
meib			mab	BBC 1.29 CBT 1.10.27	Gwalchmai ap Meilyr Cynddelw Brydydd Mawr
meibion			mab	CBT 6.31.8 LL 32	Dafydd Benfras
meibon			mab	BBC 17.54 CBT 6.19.16	Mawl Llywelyn ab Iorwerth Madog ap Gwallter Cwyn y Pererin (dienw)
meibonin darll. meibonein			mab	BBC 17.151	
meibyon			mab	CA A.15 CBT 1.26.8	Einion ap Gwalchmai Peryf ap Cedifor Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Y Prydydd Bychan Bleddyn Fardd
meibyoneyn			mab	CBT 4.1.55	Cynddelw Brydydd Mawr

Cymh. EWSP t. 407 pedwarmeib; t. 413 tri meib; t. 409 meibon; t. 415 meibion

H. Grn. a Crn. C. *mab*, ll. *mebyon*; H. Lyd. a Llyd. Diw. *mab*, ll. *mibien*, *mabou*, (Van.) *mabed* < Brth. *\*mapo-*; H. Wydd. *macc* o, g., Gwydd. Diw. *mac* < Clt. *\*mak<sup>w</sup>k<sup>w</sup>o-*.<sup>272</sup>

Ymddengys *mab* fel enw bôn-o gwrywaidd yn ôl patrwm yr Wyddeleg, a'i luosog rheolaidd yw *meib*. Ychwanegwyd terfyniadau'r bonau-*n*, *-ion* ac *-on*, at y lluosog hwn a daeth *meibion* yn lluosog cyffredin erbyn y cyfnod Cymraeg Canol.<sup>273</sup>

Mae hanes *mab* yn darlunio datblygiad system rifolion y Gymraeg. Ceir *dau fab* mewn Cymraeg Canol ond *tri meib*, sy'n dangos mai'r lluosog a geid yn dilyn y rhifolion yn wreiddiol. Dengys hefyd mai'r un ffurf a oedd gan yr unigol a'r deuol, felly *dau fab*.<sup>274</sup> Pery *meib* mewn Cymraeg Canol fel un o'r hen luosogion, megis *broder* (gw. BRAWD), *blynedd*

<sup>272</sup> DIL; GPC; LEIA, M-2.

<sup>273</sup> VKG II, t. 108.

<sup>274</sup> VKG II, t. 132.

(gw. BLWYDDYN) a *gweis*, nas ddefnyddid ond yn dilyn y rhifolion.<sup>275</sup>

Ffurf amheus heb affeithiad amlwg *a > ei* yn ei bôn yw *mebion*. Rhestra Lewis a Pedersen a Vendryes *mepion* fel lluosog Hen Gymraeg o'i gymharu â *meibion* mewn Cymraeg Canol, ond yn fy marn nid oes modd gwahaniaethu rhyngddynt mor fanwl ar sail y dystiolaeth sydd gennym (ceir *mebion* a *meibion* yn LL, er enghraifft).<sup>276</sup> Nid yw'r ieithyddion eraill yn trafod *mebion* a *meibion* bellach, ac awgrymir nad ydynt ond yn amrywiadau orgraffyddol.<sup>277</sup> Yn achos *mebion*, cymharer *merion* = *meirion* yng nglosau Juvencus (gw. MAER).

Ystyriaf fod gennym dair ffurf sylfaenol yn y sampl hwn, sef (i) *meib* (gwreiddiol), (ii) *meibion/mebion/meibon* (nid yw *-on* yn achosi affeithiad sy'n dangos ymhellach bod *meibon* yn ffurf newydd) a (iii) *meibonain/meibionain* sy'n lluosogion dwbl o *meibon* a *meibion*.

meiri	maer, mair	meiri, -iau, -ion, -ydd, -iaid, ll. dwbl meiryddion	<b>MAER</b> eg. 'one of the administrative officers of the court (in the Welsh laws), responsible for land supervision and the selection of dues; steward'	BBC 17.47	
meirieu			maer	CBT 1.6.10	Gwalchmai ap Meilyr Cynddelw Brydydd Mawr
meiriev			maer	BBC 17.150	
merion			maer	J 78	

Benthyciad o'r Llad. *\*majior < māior*. H. Grn. *mair*; H. Lyd. *mair*, ll. *meir*, Llyd. Diw. *maer*, ll. *maered*; Gwydd. C. *maer* o, g., ll. *máir*, Gwydd. Diw. *maor*.<sup>278</sup>

Ni ddaw'r lluosogion Cymraeg o'r lluosog Llad. *maiores*. Mae Gwyddeleg a Hen Lydaweg yn awgrymu lluosog Cymraeg *\*meir*. Er hynny, mae'n debyg y dilyna'r Llyd. *maer*, ll. *meir* batrwm *main*, ll. *mein* 'carreg'.<sup>279</sup> Yn achos y Gymraeg, cymharer *saer < \*sapero-*, ll. newydd *seiri*.<sup>280</sup> Efallai i'r ll. *meiri* gael ei ffurfio yn ôl patrwm *seiri*. Nodir mai

<sup>275</sup> GMW, t. 47.

<sup>276</sup> CCCG, t. 178; LEIA, M-2.

<sup>277</sup> Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 36.

<sup>278</sup> DIL; GIB; GPC; LEIA, M-7.

<sup>279</sup> Hemon, Roparz, *A Historical Morphology and Syntax of Breton*, Dublin, 1975, t. 37.

<sup>280</sup> VKG I, t. 92.

*merion* = *meirion* (gw. MAB am *e* = *ei*) yng nglosau Juvencus yw'r ffurf gynharaf yn yr iaith. Mae hyd y llinell yn gofyn *meiriau* yn CBT ac mae'r odl yn gofyn y ffurf honno yn BBC.

maessid	maes, mais	meysydd, ?(diw. a phrin) meys	<b>MAES</b> eg. 'open country as opposed to woodland'	Ang 17 a	
maessyt			maes	CBT 1.3.117	Meilyr Brydydd
meysyt			maes	CBT 2.6.15	Hywel ab Owain Gwynedd Gwynfardd Brycheiniog

Cymh.

mei		-au	ma eg.b. 'a plain, field'	BBC 18.145 CBT 3.26.34	Cynddelw Brydydd Mawr
-----	--	-----	---------------------------	---------------------------	-----------------------

*Mäes* yw'r ffurf unigol gynharaf. Crn. C. (*yn*) *mes*, Crn. C. *meys*; H. Llyd. *maes*, Llyd. C. ll. *mesyou* (Catholicon), *maesou*, Llyd. Diw. *maez*, ll. *maezyou*, -èü, -eu, -eyer, *maësou*, -iou < Brth. \**gages-tu-* / \**gages-to-*.<sup>281</sup> Ceir y bôn hwn hefyd yn H. Wydd. *mag* s, dir., ll. gwrth. *maige*, ac yn Cym. *ma* < \**magos*.<sup>282</sup> Ceir *mei* ddwywaith gan Gynddelw yn *gweiscfeirch mei* a *meirch mei* a cheir yr un ymadrodd yn BBC. Cymharer *gweiscueirch mai* gan Seisyll Bryffwrch.<sup>283</sup> Ystyrir *mei* fel genidol unigol neu luosog *ma*.<sup>284</sup>

Ansicr yw bôn *maes*. Daw *-ydd* o \**-ijōm*, terfyniad genidol lluosog y bonau-*i* (ond gweler y bennod ar *-ydd* am awgrym gwahanol Schrijver), ac mae'n glir, felly, fod *maesydd* a *meysydd* yn lluosogion newydd.<sup>285</sup> Mae'n debyg y ceir *maesydd* heb affeithiad o dan ddylanwad yr unigol. Os \**gages-tī-* oedd lluosog yr enw, fe allai roi lluosog Cym. \**meys*, ond nid yw tarddiad yr enw'n sicr. Awgryma Llyd. -(*i*)*ou* darddiad bôn-*u*, ond ceir y terfyniad hwn yn aml iawn drwy gydweddiad.

meirw	maru, marw	meirw, meirw(i)on	<b>MARW</b> ans. 'dead'	CA B.20 CBT 2.3.46	Llywelyn Fardd I Gruffudd ap Gwrgenau Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Y Prydydd Bychan
meirwyon			marw	CBT 4.4.242	Cynddelw Brydydd Mawr

<sup>281</sup> GIB; GPC; IEW, t. 709; SBCHP, t. 406.

<sup>282</sup> LEIA, M-8; LHEB, t. 449 n.1; SBCHP, t. 406.

<sup>283</sup> CBT 3, t. 340.

<sup>284</sup> Bromwich, Rachel (gol.), *Trioedd Ynys Prydein: the triads of the island of Britain*, 3<sup>rd</sup> argraffiad, Cardiff, 2006, t. 367.

<sup>285</sup> CCCG, t. 172.

Crn. *C. marow*; Llyd. *C. maru*, ll. *meru*, Llyd. Diw. *marv*, ll. *marvou* (enw); H. Wydd. *marb*, Gwydd. Diw. *marbh* < Clt. \**marwo-*.<sup>286</sup> Ansoddair *bôn-o* yw *marw*, felly *meirw* yw'r lluosog rheolaidd, fel y cadarnha'r ffurf Lydaweg. Lledodd y terfyniad *-ion* ymysg ansoddeiriau, fel yn achos enwau *bôn-o*, megis *mab*, ll. newydd *meibion*, ac felly cafwyd *meirw(i)on* hefyd.<sup>287</sup>

meillon	meillion, meillon, ll. dwbl -au, ?-ydd 'clover, trefoil'	<b>MEILLIONEN</b>	BBC 5.144 CBT 3.3.138	Cynddelw Brydydd Mawr
meillyon		meillionen	CBT 2.6.15	Hywel ab Owain Gwynedd Gwynfardd Brycheiniog
mellhionou		meillionen	MC 8 b.b.	

H. Grn. *melhyonen*; Llyd. *C. melchonenn*, *melchenenn*, Llyd. Diw. *melchon*, *melchen*.<sup>288</sup> Crybwylla Fleuriot Gwydd. *muilteog* fel ffurf y gellir ei chymharu â hon, ond ni ddeuthum ar ei thraws yn y cyfeirlyfrau.<sup>289</sup> Mae *mellhionou* yn MC yn lluosog dwbl wedi ei adeiladu ar y ffurf dorfol. Cymharer *tuorchennou* yn J 56 (gw. TYWARCH). Daw *meillion* o \**meltion-*, yn ôl Blom, ac ymddengys, felly, fod y ffurf yn *-ion* yn hŷn nag *-on*. Cedwid yr *-lt-* fel rheol mewn Hen Gernyweg, ond nid mewn enwau lleoedd, a dyma pam y cymerwyd H. Grn. *melhyonen* fel glòs Cymraeg i ddechrau.<sup>290</sup>

mir	mor	moroedd, -edd, -au, mŷr	<b>MÔR</b> eg. 'sea'	BBC 29.13 CA GM ?	
moroedd			môr	CBT 7.51.19	Bleddyn Fardd
moroet			môr	BBC 22.24 CBT 1.1.24	dienw Y Prydydd Bychan
myr			môr	BBC 17.188 CA A.34? gw. nodyn yn CA, t. 170 CBT 1.5.11	Meilyr Brydydd Gwalchmai ap Meilyr Meilyr ap Gwalchmai Llywelyn Fardd I Hywel ab Owain Gwynedd Y Prydydd Bychan Iorwerth Fychan Gruffudd ab yr Ynad Coch

<sup>286</sup> GIB; GPC; SBCHP, t. 141.

<sup>287</sup> Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, t. 36.

<sup>288</sup> GPC; Padel, *Cornish Place-Name Elements*, t. 159.

<sup>289</sup> DOB.

<sup>290</sup> Blom, 'The Welsh Glosses in the *Vocabularium Cornicum*', 27.



Cymh.

allmyr		allmyr ‘foreigners’	allmor*	CBT 5.10.10	Llywarch ap Llywelyn
--------	--	---------------------	---------	-------------	----------------------

Cymh. EWSP t. 434 myr

Crn. a Llyd. *mor*, Llyd. C. ll. *morou* (Catholicon), Llyd. M. Cynnar ll. *moryou*; Brth. *Moridunum*; H. Wydd. *muir* i, dir. (wedyn g., a b. yn ddiweddarach), gen. *mora*, *moro*; Gal. *Aremorici* (enw pobl) < IE *\*mori-*.<sup>291</sup> Diryw oedd *môr* yn y Gymraeg yn wreiddiol hefyd. *Bôn-i* sydd gan y gair, a chan ei fod yn ddiryw, *\*-ija* fyddai'r terfyniad lluosog rheolaidd. Rhydd hyn *-oedd* yn y Gymraeg (ond gw. y bennod ar *-oedd* am awgrym gwahanol gan Schrijver).<sup>292</sup> Ceir *mŷr* yn ôl patrwm yr enwau gwrywaidd *bôn-o*. Fe'i gofynnir gan yr odl a chan hyd y llinell yn BBC. Trafodir *allmyr* ym mhennod ar y *pluralia tantum*.

nerthoed	nerth	-oedd, -au, ?nyrth	<b>NERTH</b> eg.b. ‘(bodily or physical) force, strength, or power’	CBT 1.21.31	Elidir Sais Einion Wan
nerthoet			nerth	CBT 1.7.69	Gwalchmai ap Meilyr
nyrth			nerth	BBC 18.159	

Crn. C. *nerth*; H. Lyd. *nerth*, ll. *nertou*, Llyd. C. *nerz*; H. Wydd. *nert* o, dir./g., ll. *nert*, Gwydd. Diw. *neart*; Gal. *Nertobriga* (enw lle) < Clt. *\*ner-to-*.<sup>293</sup> Diryw oedd y gair Gwyddeleg cyn troi'n wrywaidd, ac awgryma hyn y ceid *nerth* ll. *\*nerth* yn y Gymraeg hefyd.<sup>294</sup> Hapax yw *nyrth* yn BBC lle y mae'n odli a *pirth*.<sup>295</sup>

neuadawr	neuad	-au, -awr	<b>NEUADD</b> eb. ‘hall’	CBT 6.15.29	Phylip Brydydd
neuateu			neuadd	CBT 1.3.28	Meilyr Brydydd
nouodou			neuadd	MC 7 a.b.	

Daw o *\*nouodd* < *\*nofodd* < Brth. *\*nom-o-d-*.<sup>296</sup> Yr unigol Hen Gymraeg yw *nom*, gl. *templa*.<sup>297</sup> Mae'n debyg mai enghraifft o hynafoli gan Feirdd y Tywysogion yw defnyddio *-awr* yma, gan nas ceir yn y testunau cynharach. Ansicr, er hynny, yw tarddiad y gair.

<sup>291</sup> GIB; GPC; LEIA, M-73.

<sup>292</sup> VKG II, tt. 66, 94.

<sup>293</sup> DOB; GPC; SBCHP, t. 68.

<sup>294</sup> LEIA, N-10.

<sup>295</sup> SBCHP, t. 68.

<sup>296</sup> Lewis, Henry, ‘nom : nouodou : neuadd’, BBBS 15 (1954), 121-2.

<sup>297</sup> GPC.

OES gw. CYFOED

crunnolunou	olin, olwyn	-on, -ion, -au, -iau, -i	<b>OLWYN</b> eb.g. 'wheel'	MC 4 b.a.	
holoinou			olwyn	Ang 12 b	
olwynawr			olwyn	CBT 7.29.8	Iorwerth Fychan

Mae'n tarddu o \**oleinā*.<sup>298</sup> H. Gym. *olin*; ?H. Lyd. *Olin-uuicon*.<sup>299</sup> Mae Gwydd. *fulumain*, berfenw o *fo-lui* (bôn-*i* fel ansoddair) yn gytras.<sup>300</sup> Os enw bôn-*ā* yw *olwyn*, fel yr awgrymir gan \**oleinā*, disgwylir lluosog gwreiddiol \**olwyn*. Cymer golygyddion CBT *olwynawr* yn ei ail ystyr, sef fel trosiad am feirch.<sup>301</sup>

onn	onnen	onn tf., ll. ynn, (prin) onennau 'ash (tree(s), wood)'	<b>ONNEN</b>	BBC 16.9 CBT 3.28.6 LL 134	Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn
ynn			onnen	CBT 4.7.10	Cynddelw Brydydd Mawr

Cymh. EWSP t. 450 onn

H. Grn. *onnen*; Llyd. C. *ounnenn*, Llyd. Diw. *o(u)nn(enn)*, ll. *ounennou*; ?Gal. *onno* < Clt. *onnā* < \**osnā* neu \**osnos*. Cymharer H. Wydd. (*h*)*uinnius* n, b., Gwydd. C. *fuinnseóc* ā, b. < \**onn-ist-ū* / \**onn-ist-ō*.<sup>302</sup> Cytuna golygyddion CBT â GPC fod *ynn* yn ffurf luosog *onn* yn yr ystyr 'gwaywffyn', ond awgrymir posibilrwydd arall, sef mai ffurf person cyntaf lluosog yr arddodiad *i* ydyw.<sup>303</sup> Os y gyntaf sydd yma, mae'n odli ag *unbyn* ac efallai fod hyn yn ddigon i beri lluosogi'r enw torfol *onn*.

esbyd	osp	esbyd, ysbyd, ysb, osbion, osbaid, ll. dwbl. ysbydion	<b>OSB</b> eg.b. 'guest, lodger'	CBT 3.21.171	Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Bleddyn Fardd
esbyt			osb	CBT 3.3.176	Cynddelw Brydydd Mawr Bleddyn Fardd
espid			osb	BBC 17.200	
espyd			osb	CBT 6.27.73	Dafydd Benfras
espyt			osb	CBT 5.28.10	Llywarch ap Llywelyn Einion Wan Bleddyn Fardd

<sup>298</sup> IEW, t. 308.

<sup>299</sup> DOB; GPC.

<sup>300</sup> DIL; DOB.

<sup>301</sup> CBT 7, t. 317.

<sup>302</sup> DIL; GIB; GPC; IEW, t. 782; SBCHP, t. 39; VKG I, t. 85.

<sup>303</sup> CBT 4, t. 158.

ysb			osb	CBT 5.11.18	Llywarch ap Llywelyn
ysbyd			osb	CBT 2.25.4	Gwynfardd Brycheiniog Dafydd Benfras
ysbyt			osb	CBT 7.55.21	Bleddyn Fardd

Cymh. EWSP t. 430 esbyt

Benthyciwyd *osb* o'r Llad. *hospes*, ac *esbyd* o'r ll. *hospites*, a cheir y lluosog hwn yn gyson ar wahân i gyda Llywarch ap Llywelyn.<sup>304</sup> Rheswm dros *ysb* yn ei gerdd yw hyd y llinell (chwe sillaf). Mae'n annhebyg i'r gair gael ei gamddeall fel *bôn-o* gan Lywarch oherwydd bod nifer o enghreifftiau o'r ffurf yn *-yd* yng ngwaith y beirdd eraill. Mae'n edrych fel petai *ysbyd* wedi ei ffurfio drwy gydweddiad, yn hytrach nag fel adffurfiad o *ysb*.

pebyll		pebyll, -au, -ion, -oedd, pabellau, -i, -ion	<b>PABELL</b> , pebyll eb.g. 'tent'	CBT 7.1.26	Y Prydydd Bychan
pebylleu			pabell, pebyll	CBT 7.23.38	Hywel Foel

Daw'r hen unigol *pebyll*, a welir o hyd yn CA, o'r Llad. *pāpiliō*, fel H. Wydd. *pupall*. Adffurfiad yw un. Cym. C. a M. *pabell*.<sup>305</sup> Y lluosog Lladin yw *pāpiliōnes* a allai roi, yn ddamcaniaethol, *\*pebyllion*.<sup>306</sup> Mae *pebyll* wedi dod yn lluosog arferol erbyn cyrraedd cyfnod Beirdd y Tywysogion er ei fod yn dal i gael ei ddeall fel ffurf unigol weithiau.<sup>307</sup> Ceir *pebylleu* yng ngerdd Hywel Moel yn odli ag *arueu*. Cymharer yr enw lle Cilybebyll ym Morgannwg.<sup>308</sup> Awgrymir mai'r hen ffurf unigol, benywaidd, yw *pebyll* yn yr enw hwn.<sup>309</sup>

apherym ? CA, t. 279: <i>a + peri</i> (ll. <i>pâr</i> ) neu <i>a + peryf</i> 'lord'	par	parau, peri	<b>PÂR</b> eg.b. 'spear'	CA B.70	
pareu			pâr	CA A.19 CBT 1.3.66	Meilyr Brydydd Cynddelw Brydydd Mawr Dafydd Benfras Llygad Gŵr Madog ap Gwallter
peri			pâr	CBT 1.8.43	Gwalchmai ap Meilyr Cynddelw Brydydd Mawr

<sup>304</sup> GPC.

<sup>305</sup> GPC; SBCHP, t. 322.

<sup>306</sup> Lewis & Short, *A Latin Dictionary*.

<sup>307</sup> VKG I, t. 204.

<sup>308</sup> GPC.

<sup>309</sup> Richards, Melville (gol. Jones, Lewis Bedwyr), *Enwau Tir a Gwlad*, Caernarfon, 1998, t. 237.

Ychydig o drafod a fu ar y gair hwn, ond awgryma Stokes darddiad o *\*quarpā-*, a chan Pokorny caiff ei gysylltu â bôn IE yn *\*kwerp-* / *\*kwerb-*.<sup>310</sup> Mae Gwydd. C. *car* ā, b. yn gytras, yn ôl y rhan fwyaf o'r ieithyddion, a chymerir, felly, mai bôn-ā a oedd gan y gair Celtaidd.<sup>311</sup> Os felly, rhai newydd yw'r lluosogion Cymraeg yn y sampl i gyd. Cymharer awgrym Lambert Gwydd. *car* < *\*kwar-sā*, Cym. *par* < *\*k<sup>w</sup>aros*.<sup>312</sup> Awgryma hyn darddiad bôn-o yn y Gymraeg, a tharddiad bôn-ā yn yr Wyddeleg, ond efallai mai haws yw disgwyl bôn tebyg rhwng y ddau air hyn, fel y gwna Stokes.

Mae *ysbar* 'gwaywffon' yn debyg o fod yn fenthyciad o'r Llad. *sparus* ac nid yw'n gysylltiedig â *pâr*.

penaur	pen, penn	-nau, (prin) -nawr, -nain	<b>PEN</b> eg. 'head'	BBC 34.12	
pennau			pen	CBT 6.25.28	Dafydd Benfras
pennawr			pen	CA A.11 CBT 3.21.164	Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn
pennein			pen	CBT 4.1.19	Cynddelw Brydydd Mawr
penneu			pen	CBT 1.3.114	Meilyr Brydydd Madog ap Gwallter
pennev			pen	BBC 16.10	

Cymh.

unbin	unben, vnben, vnbenn	-iaid, -nau, unbyn	unben eg. 'dictator, (absolute) monarch'	BBC 22.2 CBT 1.1.2	dienw
unbyn			unben	CBT 2.18.6	Daniel ap Llogwrn Mew Gwynfardd Brycheiniog Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Phylip Brydydd Mawl Llywelyn ab Iorwerth a'i Deulu Dafydd Benfras Y Prydydd Bychan
vnbin			unben	BBC 14.4	
vnbyn			unben	CBT 3.7.37	Cynddelw Brydydd Mawr

<sup>310</sup> IEW, t. 631; Meyer, Kuno, 'Erschienenene Schriften: Anecdota Oxoniensia, edited by Kuno Meyer', ZCP 1 (1897), 172.

<sup>311</sup> DIL; IEW, t. 631.

<sup>312</sup> Lambert, Pierre-Yves, 'The place names of *Lugdunensis* [Λουγδουνησία] (Ptolemy II 8)', yn de Hoz, Javier, Luján, Eugenio R. & Sims-Williams, Patrick (goln), *New Approaches to Celtic Place-Names in Ptolemy's Geography*, Madrid, 2005, t. 233.

kyuyrbyn	kyvyrbenn	cyfrbyn	cyfrben eg. 'lord, chief'	CBT 3.3.125	Cynddelw Brydydd Mawr
----------	-----------	---------	------------------------------	-------------	-----------------------

Cymh. EWSP t. 408 vnbynn

H. Grn. a Crn. C. *pen*, Crn. Diw. *pedn*; H. Lyd. a Llyd. C. *pen(n)*, ll. *pennou*, Llyd. Diw. *penn*; H. Wydd. *cenn* o, dir., Gwydd. Diw. *ceann* < Clt. \**k<sup>w</sup>enno-*.<sup>313</sup> Os diryw oedd *pen* yn y Frythoneg megis mewn Hen Wyddeleg, disgwyllir ll. \**pen* yn rheolaidd, a deallir y ffurfiau uchod fel rhai newydd i gyd.

Mae'n ddiddorol y ceir lluosog *pyn* ar y cyfansawdd *un-ben* a *cyfr-ben*, lluosog nas ceir ar y gair syml. Efallai mai dylanwad y ffurf gyfansawdd *er-byn* (hen ffurf dderbyniol *pen*) sydd yn egluro hyn.<sup>314</sup>

plu	pluyn	plu, pluf, ll. dwbl pluawr 'feathers, plumes'	<b>PLU(F)YN</b> , plyfyn (g.), plu(f)en, plyfen (b.)	CBT 3.13.46	Cynddelw Brydydd Mawr
pluawr			plu(f)yn, plyfyn (g.), plu(f)en, plyfen (b.)	CBT 1.9.10	Gwalchmai ap Meilyr

Benthyciwyd *plu* o'r Llad. *plūma*, ll. *plūmae*. H. Grn. *pluu(en)*, Crn. C. *pluven*, Crn. Diw. *plîv*; Llyd. C. *pluf*, Llyd. Diw. *plu(ñv)*; H. Wydd. *clú(i)m* ā, b., Gwydd. Diw. *clúmh*.<sup>315</sup> Nid awgryma Vendryes fod defnydd torfol i'r Gwydd. *clú(i)m* a sylwer hefyd nad yw'r Llad. *plūma* yn dorfol. Datblygiad yn y Gymraeg ac yn Llydaweg yw'r ystyr torfol, yn ôl pob tebyg, am y byddai *plūmae* yn rhoi Cym. / Llyd. *plu* hefyd.

pebyl	pobyl	-oedd, -au, -ydd, -edd	<b>POBL</b> eb.(g.) / ll. '(a) people, public'	CBT 1.9.100	Gwalchmai ap Meilyr
pobled			pobl	CBT 7.41.6	Gruffudd ab yr Ynad Coch
pobloed			pobl	CBT 1.33.95	Meilyr ap Gwalchmai Llywelyn Fardd I Cynddelw Brydydd Mawr Mawl Llywelyn ab Iorwerth a'i Deulu Dafydd Benfras

<sup>313</sup> GIB; GPC.

<sup>314</sup> CCCG, t. 109.

<sup>315</sup> GPC; LEIA, C-128.

					Iorwerth Fychan
pobloedd			pobl	CBT 6.30.46	Dafydd Benfras Bleddyn Fardd
pobloet			pobl	CBT 1.23.24	Elidir Sais Einion ap Gwalchmai Gwynfardd Brycheiniog Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Bleddyn Fardd
poploet			pobl	BBC 5.125	
pybyl			pobl	CBT 1.6.3	Gwalchmai ap Meilyr Elidir Sais Llywarch ap Llywelyn Einion Wan Phylip Brydydd

Benthyciad ydyw o'r Llad. *pop'lus* < *populus*. H. Grn. *popel*, Crn. C. *pobyl*, *pobel*; Llyd. C. a Diw. *pobl*, ll. *poblu*, *poblou*; H. Wydd. *popul* o, g., Gwydd. Diw. *pobal*, ll. *poibleacha*.<sup>316</sup> Ni thrafodir y lluosog gan yr ieithyddion er bod rhai'n rhestru *pobloedd*. Awgrymaf y gallai *pybyl* / *pebyl* fod yn fenthyciad o *pop'li* < *populi*. Ni all *pobloedd* ddilyn y tarddiad Lladin gan mai terfyniad bonau-*i* yw *-oedd*.<sup>317</sup> Mae'n ddiddorol na cheir lluosog sy'n cyfateb i'r Llyd. *poblou* yn yr ieithoedd Brythonaidd eraill.

preidyawr	preid, preit	preidd(i)au, preidd(i)awr, preidd(i)oedd	<b>PRAIDD</b> eg.b. 'flock, herd; spoils, plunder'	CBT 4.4.89	Cynddelw Brydydd Mawr
preiddiau			praidd	CBT 3.8.11	Cynddelw Brydydd Mawr
preitev			praidd	BBC 17.29	
preityawr			praidd	CBT 3.13.24	Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn
preityeu			praidd	CBT 2.26.219	Gwynfardd Brycheiniog Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn
preityoet			praidd	CBT 1.11.4	Gwalchmai ap Meilyr

Benthyciad yw hwn o'r Llad. *praeda* 'ysbail', wedi ei gymysgu hefyd â'r Llad. *praedium* 'fferm, ystâd'.<sup>318</sup> Llyd. C. *preiz*, Llyd. Diw. *preizh*, ll. *preizhou*; Gwydd. C. *preit* b.<sup>319</sup>

<sup>316</sup> DOB; GIB; GPC; LEIA, P-12.

<sup>317</sup> CCCG, t. 172.

<sup>318</sup> Lewis, *Elfen Ladin*, t. 45; Lewis & Short, *A Latin Dictionary*.

<sup>319</sup> GIB; GPC; LEIA, P-14.

Awgryma Schrijver darddiad o'r Brth. \**predjo-* < Llad. *praedium*.<sup>320</sup> Os felly, nid gwreiddiol yw'r lluosogion yn y sampl gan mai'r un oedd unigol a lluosog y bonau-*jo*.<sup>321</sup> Cafwyd y lluosogion hyn i gyd drwy gydweddiad â gwahanol fonau, felly. Yng ngoleuni tystiolaeth BBC, mae'n amlwg mai hynafoli a wna Cynddelw a Llywarch ap Llywelyn wrth ddefnyddio *-awr*.

pwylladeu	puyllad, puyllat, pwyllad, pwyllat, pwyllat	-oedd, -au	<b>PWYLLAD</b> , pwylliad e?g. 'intention, intent'	CBT 1.27.6	Einion ap Gwalchmai
pwylladoet			pwyllad, pwylliad	CBT 1.11.1	Gwalchmai ap Meilyr

Cynnwys hwn *pwyll* + *-(i)ad*. Cymharer Llyd. C. *poellat*, Llyd. M. Cynnar *poellad*, ll. *poelladou*.<sup>322</sup> Lluosog rheolaidd enwau â'r ôl-ddodiad yn *-iad* / *-ad* yw *-au*.<sup>323</sup>

piscaud		pysgod, ll. dwbl -au, -oedd 'fish(es)'	<b>PYSGODYN</b>	BBC 9.18	
pisscaud			pysgodyn	BBC 30.10	
pysgawd			pysgodyn	CBT 3.1.24	Cynddelw Brydydd Mawr

Cymh.

pisc			pysg ll. / eg. 'fishes, fish (pl.)'	BBC 26.40	
pysc			pysg	CA A.88 CBT 2.5.19	Llywelyn Fardd I
pysg			pysg	CBT 1.15.9	Elidir Sais

Cymh. EWSP t. 434 *pyscawt*, t. 454 *pisscaud*

Benthyciwyd y gair ddwywaith o'r Lladin:

(i) *Pysg* < Llad. *piscis* (enwol unigol), ac efallai benthyciad dysgedig o *piscēs* (enwol lluosog). H. Grn. *pisc*, Crn. C. *pysk*; Llyd. C. *pesq*, Llyd. Diw. *pesk*. Mae ystyr unigol a lluosog gan yr enw hwn.<sup>324</sup>

<sup>320</sup> SBCHP, t. 318.

<sup>321</sup> CCCG, t. 167.

<sup>322</sup> GIB; GPC.

<sup>323</sup> GPC.

<sup>324</sup> GPC.

(ii) *Pysgod* < Llad. *piscātus* / *piscatum*. Crn. ll. *puskes*; Llyd. C. ll. *pesquet*, Llyd. M. Cynnar ll. *pesqed*, *pesqueud*, *pesqod*, Llyd. M. ll. *pesked*.<sup>325</sup> Rhestrir yr enwau Brythonaidd hyn fel torfolion sy'n gweithredu fel lluosogion.<sup>326</sup> Ychwanegir y terfyniad unigolynnol *-yn* er mwyn creu'r unigol *pysgodyn*. Disodlwyd *pysg* gan *pysgodyn* fel y ffurf unigol mewn Cymraeg Diweddar. Gwelir proses debyg yn y Llydaweg lle y disodlwyd yr hen unigol *ster* 'seren' gan *ster-enn* (unigolynnol) a *stered-enn* (lluosog + terfyniad unigolynnol).<sup>327</sup>

Cadwyd Llyd. *pesk* fel ffurf unigol heblaw yn Vannetais (h.y. yng Ngwlff y Morbihan, Quiberon a Houat) lle y'i disodlwyd gan y ffurf unigolynnol *peskedenn*, *pechedenn*, a ffurfiwyd ar sail y lluosog, fel Cym. *pysgodyn*.<sup>328</sup>

Noda Pedersen *pysgod* fel enghraifft o'r terfyniad benthyg *-od* < Llad. *-ātum* yn creu lluosogion.<sup>329</sup>

ranned	ran, rann	-nau, -noedd, (prin) -ion	<b>RHAN</b> eb.(g.) 'part (of something), portion'	CBT 2.16.5	Llywarch Llaety
ranneu			rhan	CBT 3.11.60	Cynddelw Brydydd Mawr

H. Gym. *guorenniou*; Crn. C. *ran*, Crn. M. *radn*; H. Lyd. ll. *rannou*, Llyd. C. *rann*; H. Wydd. *rann ā*, b.<sup>330</sup> Dadansoddir *guorenniou* gan GPC fel ffurf ar *go-gren*, ond fel ll. *rhan* gan Vendryes.<sup>331</sup> Cymharer Llyd. *renn* yn ogystal â *ran*; Cym. *rhen*, *rhennad* yng ngeirfa William Llŷn (16 ganrif); a Gwydd. *renn* b. Tardda Loth *renn* (*rend*) o'r Clt. *\*rendā*.<sup>332</sup> Yn achos *guorenniou*, er hynny, gallai *-renn-* fod yn ffurf affeithiedig ar *-rann-*.

Dyma enghraifft o luosog Hen Gymraeg yn *-iou*, fel a geir hefyd yn *clorïou*, *coiliou*, *creirriou*, *cutinnïou*, *funiou*, *grephiou*, *guaroiou*, *hestoriou*, *runcniau* yng ngeirfa Falileyev.<sup>333</sup>

Awgrymir tarddiadau gwahanol gan yr ieithyddion ond cytunir mai enw *bôn-ā* oedd y gair Celteg. Terddir y *bôn* o *\*rasnā* gan Fleuriot ac o *\*pr-snā* gan De Bernardo Stempel.<sup>334</sup>

<sup>325</sup> GIB; GPC; Nance, *English-Cornish and Cornish-English Dictionary*; Zimmer, *Word-formation*, t. 414.

<sup>326</sup> VKG II, t. 69.

<sup>327</sup> Acquaviva, *Lexical Plurals*, t. 244.

<sup>328</sup> Trépos, *Le pluriel breton*, t. 242.

<sup>329</sup> VKG II, t. 38.

<sup>330</sup> LEIA, R-7; SBCHP, t. 177; VKG I, t. 52.

<sup>331</sup> GPC; LEIA, R-7.

<sup>332</sup> Loth, J., 'Notes étymologiques et lexicographiques', RC 41 (1924), 400-1.

<sup>333</sup> Falileyev, *Etymological Glossary*.

<sup>334</sup> DOB; SBCHP, t. 177.



Rhestra Pokorny H. Lyd. *rannou* o *\*perə-snā*.<sup>335</sup> Yn ôl Schrijver, adlewyrcha'r geiriau Celtaidd *\*perh<sub>3</sub>-* 'to procure, bestow' a welir hefyd yn y Llad. *pars*.<sup>336</sup>

Yr un â'r unigol yw lluosog y bonau-ā, felly newydd yw *rhannau* a *rhanned*, er ei bod yn ymddangos mai *rhannau*, H. Lyd. *rannou* yw'r hynaf o'r ddau.

ri; a lluawr	riallu	-awr, -oedd, -au	<b>RHIALLU</b> eg.b. 'picked or tried soldier; host'	CA GT	
rialloed			rhiallu	CBT 6.18.122	Einion ap Gwgon
rialluoet			rhiallu	CBT 1.9.46	

Cymh.

lluoed	llu, llv	-oedd, (diw., a chyfyngedig i farddoniaeth) -on	llu eg. 'host, a large number (of people, &c.)	CBT 2.2.66	Llywelyn Fardd I Phylip Brydydd Einion ap Gwgon Mawl Llywelyn ab Iorwerth Mawl Llywelyn ab Iorwerth a'i Deulu Dafydd Benfras Gruffudd ab yr Ynad Coch Bleddyn Fardd
lluoedd			llu	CBT 1.17.42	Elidir Sais Bleddyn Fardd
lluoet			llu	BBC 22.38 CBT 1.1.38	dienw Gwalchmai ap Meilyr Owain Cyfeiliog Daniel ap Llogwrn Mew Gwynfardd Brycheiniog Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Einion ap Gwgon Y Prydydd Bychan Llygad Gŵr Bleddyn Fardd

Awgryma GPC *?rhi + gallu*. Awgrymir hefyd ei fod yn cynnwys yr elfen *llu* ond cofier bod *rhiallu* yn gallu golygu 'un milwr'.<sup>337</sup> Os *llu* yw'r elfen, cymharer H. Grn. a Crn. C. *lu*; H.

<sup>335</sup> IEW, t. 817.

<sup>336</sup> SBCHP, t. 177.

<sup>337</sup> CA, t. 216; VKG II, t. 131.

Wydd. *slóg, sluag* o, g.<sup>338</sup> Gallai *llu* fod yn dorfol megis yn y *kychwynyssont y llu mawr* yn Llyfr Coch Hergest.<sup>339</sup> Tardda o fôn-*o* Clt. *\*slougo-*.<sup>340</sup> Ni ellir colli *u* drwy affeithiad-*i* yn y lluosog, felly *\*llu* fyddai'r lluosog hefyd. Gwelwn y gallai *llu* fod yn dorfol mewn Cymraeg Canol yn ogystal â bod yn unigol.

Posibilrwydd arall yw bod *llu* wedi dylanwadu ar ystyr *rhiallu*. Rhydd GPC yr ystyron 'picked or tried soldier; host', gan awgrymu newid o'r ystyr '*milwr*' > '*llu*'.

ruimmein	ruym, rwym, rhwym	-au, (prin) -on, -ain	<b>RHWYM</b> eg. 'bond, shackle'	J 55	
rwymeu			rhwym	CBT 7.32.54	Madog ap Gwallter

Daw o'r IE *\*reig-smŋ*. Cymharer Llyd. C. *rum*; H. Wydd. *-rig-* 'rhwymo'.<sup>341</sup> Mae *ruimmein* yn dangos bod y gair yn fôn-*n*, diryw, yn wreiddiol. Gweler CAM am drafodaeth ar luosogion hen fonau-*n* yn *-ain*. Disodlodd *rhwymau* hen luosog y gair mewn Cymraeg Canol, fel y digwyddodd yn achos *cam*, ll. newydd *camau*. Dadleua Stüber yn erbyn cynnwys Llyd. *rum* 'host, company' yma oherwydd nad yw'n addas o ran ffurf nac o ran ystyr.<sup>342</sup>

ridev	rit	-au, -iau, -oedd, ?-on	<b>RHYD</b> eb.g. 'ford; strait'	BBC 18.167	
rydon			rhyd	CA A.24	
rydyeu			rhyd	CBT 1.9.6	Gwalchmai ap Meilyr

H. Gym. *rit*; H. Grn. *rid*; H. Lyd. *rit*, Llyd. C. *ret*; enw lle Brth. *Cambo-ritum*; enw lle Gwydd. C. *Humar-rith*; Gal. *Ritu-magus, Augusto-ritum*. Mae *rhyd* yn gytras â'r Llad. *portus, -ūs*.<sup>343</sup> Tarddant o IE *\*per-tu-* / *\*por-tu-*, a'i fôn yn *-u*, felly *rhydau* yw'r lluosog Cymraeg hynaf.<sup>344</sup>

saint	sant	saint, ll. dwbl seint(i)au, sein(i)au	<b>SANT</b> eg. 'saint'	CBT 6.25.47	Dafydd Benfras Bleddyn Fardd
seineu			sant	CBT 7.39.22	Gruffudd ab yr Ynad Coch
seinhyeu			sant	CBT 1.27.66	Einion ap Gwalchmai Gwynfardd Brycheiniog

<sup>338</sup> LEIA, S-136; VKG I, t. 84.

<sup>339</sup> VKG II, t. 70.

<sup>340</sup> LEIA, S-137.

<sup>341</sup> GPC; VKG I, t. 87.

<sup>342</sup> Stüber, *Historical Morphology of N-Stems*, tt. 28, 77-8 (ond rhestrir Llyd. C. *rum* fel ffurf gytras ar t. 28).

<sup>343</sup> DOB; GPC.

<sup>344</sup> IEW, t. 817; VKG I, t. 91.

					Bleddyn Fardd
seiniau			sant	CBT 6.29.50	Dafydd Benfras
seint			sant	BBC 8.14 CBT 1.15.14 LL 146	Elidir Sais Einion ap Gwalchmai Meilyr ap Gwalchmai Gwynfardd Brycheiniog Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Llywelyn Fardd II Phylip Brydydd Mawl Llywelyn ab Iorwerth Mawl Llywelyn ab Iorwerth a'i Deulu Y Prydydd Bychan Llygad Gŵr Bleddyn Fardd
seynt			sant	CBT 6.14.21	Phylip Brydydd
seinyev			sant	CBT 7.32.53	Madog ap Gwallter

doudec seint		deuddeg sant	rhif. + ll.	LL 146
--------------	--	--------------	-------------	--------

uchelseint		uchelsant < uchel + sant, gw. sant	CBT 3.3.77	Cynddelw Brydydd Mawr
------------	--	---------------------------------------	------------	-----------------------

Cymh. EWSP t. 457 seint

Benthyciad o'r Llad. *santus* < *sānctus*. Crn. C. *sans*, ll. *sens*, *syns*; Llyd. C. *san(c)t*, ll. *sent*, *sint*.<sup>345</sup> Ceir ll. *seint* (a Crn. *sens*, *syns*; Llyd. *sent*, *sint*) o'r Llad. *santī*, ac mae *sein(i)au* yn newydd.<sup>346</sup>

seirch	seirchiawr	<b>SEIRCH</b> eb. / ll. 'armour; trappings (of horse)'	CA A.24 CBT 1.3.82	Meilyr Brydydd Gwalchmai ap Meilyr Elidir Sais Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn
seirchyawr		seirch	CA A.73	

Cymh.

gwrymseirch		gwrmseirch, gwrwmseirch,	CA A.72	Llygad Gŵr
-------------	--	--------------------------	---------	------------

<sup>345</sup> GPC; LEIA, S-25; VKG I, t. 229.

<sup>346</sup> Lewis, Henry, *Yr Elfen Ladin yn yr Iaith Gymraeg*, Caerdydd, 1943, t. 2.

			gwrymseirch ‘dark-blue armour or harness’ gw. seirch	CBT 7.27.17	
--	--	--	------------------------------------------------------	-------------	--

Benthyciad o’r Llad. \**sarcia* o *sarcio* ‘clytio’. Cymharer H. S. *syrcce*.<sup>347</sup> Ymddengys imi fod hyd y llinell yn gofyn CA *seirchyawr*. Cymharer *seirch* yn llinell nesaf y gerdd.

ser	seren, serenn	sêr, sŷr, ll. dwbl serau, sêrs ‘stars’	<b>SEREN</b>	BBC 9.15 CBT 2.25.17	Gwynfardd Brycheiniog Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Einion Wan Einion ap Gwgon Madog ap Gwallter Gruffudd ab yr Ynad Coch
sir			seren	BBC 29.14	
ssyr			seren	CBT 5.10.12	Llywarch ap Llywelyn
syr			seren	CBT 1.30.9	Meilyr ap Gwalchmai Llywelyn Fardd I Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Mawl Llywelyn ab Iorwerth a’i Deulu Y Prydydd Bychan Gruffudd ab yr Ynad Coch

H. Grn. *steren*, Crn. C. *ste(y)r*, *sterran*, *steryan*; H. Lyd. *sterenn*, Llyd. C. *ster*, *sterenn*, ll. *stered*, Llyd. M. Cynnar *ster*, *stir*, ll. *sterou*, *sterennou*, *stery*, Llyd. Diw. *steredenn* ‘seren’, *sterenn* ‘seren y Gogledd’, ll. *stered*, *steredennoù*; Gal. *Dirona*, *Sirona* < IE \**ster-* (torfol \**ster-ā*). Cymharer Llad. *stēlla* < \**stēr-[o]lā* (bachigyn).<sup>348</sup> Ansicr yw’r berthynas â’r H. Wydd. *sêr* (un.).<sup>349</sup>

*Sêr* yw’r ffurf Gymraeg fwyaf hynafol, yn ôl y tarddiad uchod. Mae *sŷr* naill ai’n lluosog affeithiedig wedi ei ffurfio fel lluosog bôn-*o* neu’n amrywiad sillafu. Gwelir amrywio rhwng *e* fer ac *y* fer yn aml yn y Gymraeg (cymharer *aer-/ayrgwn*, *teyrn/tyyrn* a.y.b.), ond anghyffredin yw *y* am *e* hir. Awgrymir, felly, mai lluosog newydd yw *sŷr*, ac efallai’n lluosog wedi’i ffurfio yn ôl o *seren*. Oherwydd y ceir *sŷr* yn Brut Dingestow, dadleua Evans mai hi yw’r ffurf hynaf, ond ni rydd ragor o dystiolaeth.<sup>350</sup>

swyson		-au, -on	<b>SWYS</b> eg. ‘faculty’	CBT 5.4.13	Llywarch ap Llywelyn
--------	--	----------	---------------------------	------------	----------------------

<sup>347</sup> CA, t. lxii; Lewis & Short, *A Latin Dictionary*.

<sup>348</sup> Favereau, *Dictionnaire du breton*; GIB; GPC; Hemon, *Geriadur Brezhoneg*; IEW, tt. 1027-8; SBCHP, t. 423.

<sup>349</sup> GPC; VKG I, t. 78; VKG II, t. 58.

<sup>350</sup> GMW, t. 31.

			experience'		
swysseu			swys	CBT 4.17.117	Cynddelw Brydydd Mawr

Awgrymir tarddiad o'r Llad. *sēnsus*, *-ūs*. Cymharer Gwydd. *seis*, ll. *sési* a redir fel *bôn-i*.<sup>351</sup> Ymddengys fel pe bai dau air *séis* yn yr Wyddeleg a'r cyntaf yn fenthyciad o *sēnsus* a'i ystyr yn debyg i *swys*. Mae'r ail yn air brodorol *bôn-i* < \**s<sup>w</sup>en-sti-*, a'i ystyr yw 'cerddoriaeth, celf gerddorol'. Mabwysiadwyd y rhediad hwn gan y gair benthyciad hefyd.<sup>352</sup> Yn y Gymraeg, mae ll. *swysau* yn dilyn rhediad Brythoneg y bonau-*u*, efallai oherwydd mai dyma yw *bôn* Llad. *sēnsus*.

sygneu	sygyn	-au, -iau, -edd, -oedd	<b>SYGN</b> , sign eb. 'sign (usu. of the Zodiac)'	CBT 7.41.29	Gruffudd ab yr Ynad Coch
sygnoet			sygn, sign	CBT 4.17.78	Cynddelw Brydydd Mawr

Benthyciad dysgedig ydyw o'r Llad. *signum* (dir.), efallai drwy H. S. *segn* neu H. Ffr. *signe*. Ni thardda'r lluosogion Cymraeg o'r lluosog Llad. *signa* neu'r lluosogion Saesneg neu Ffrangeg, ac fe'u hystyrir fel rhai newydd felly.

teernet	teern, teeirn, teirn, teyrn	-edd, -aid, -iaid, -oedd, -ain, -ion	<b>TEYRN</b> eg. 'monarch, sovereign'	BBC 7.3 CBT 7.35.7	Marwnad Cynfrig ab Iddig
teernon ? ll. <i>teyrn</i> neu enw personol			teyrn	BBC 22.46	
teyrned			teyrn	CA A.74 CBT 1.31.30	Meilyr ap Gwalchmai Owain Cyfeiliog Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Einion Wan Llywelyn Fardd II Phylip Brydydd Mawl Llywelyn ab Iorwerth a'i Deulu Cwyn y Pererin (dienw) Y Prydydd Bychan Gruffudd ab yr Ynad Coch
teyrnedd			teyrn	CBT 3.21.136	Cynddelw Brydydd Mawr

<sup>351</sup> CBT 5, t. 48; DIL; LEIA, S-75.

<sup>352</sup> LEIA, S-75.

					Llywarch ap Llywelyn Dafydd Benfras
teyrnein			teyrn	CBT 1.8.30	Gwalchmai ap Meilyr
teyrnet			teyrn	CBT 1.3.43	Meilyr Brydydd Gwalchmai ap Meilyr Hywel ab Owain Gwynedd Gwynfardd Brycheiniog Gruffudd ap Gwrgenau Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Llygad Gŵr
teyrnon			teyrn	CBT 1.11.54	Gwalchmai ap Meilyr Cynddelw Brydydd Mawr
tyernet			teyrn	BBC 22.26	
tyirnet			teyrn	BBC 4.7 CBT 1.2.43	dienw
tyyrned			teyrn	CBT 7.46.1	Bleddyn Fardd

Ffurf hŷn ar y gair yw *tëyrn*. H. Grn. *mach-deyrn*, *Wen-deern*; H. Lyd. *tiarn*, *tiern*; Brth. *Cato-tigirni*, *Tegerno-mali*; Gwydd. C. *tigern* o, g., *tigernae* iā, b.; enw lle Llad. Gâl *Tigernum*.<sup>353</sup> Yn ôl Pedersen, tarddant o'r Clt. *\*tegerno-s-*, ond mae Schrijver yn dangos bod yr *e* yn *teyrn* yn tarddu o *i*, fel y dengys y Llyd. *tiern* a Lladin Gâl *Tigernum*. Y tarddiad wedi ei gywiro fyddai Clt. *\*tigernos*.<sup>354</sup>

Ffurfir lluosog yr enwau gwrywaidd bôn-*o* drwy affeithiad-*i*. Gan fod *y* yn sillaf derfynol y gair hwn, ni ellir cael affeithiad. Daeth *-edd* yn derfyniad arferol. Ceir *teyrnein* unwaith yn odli ag *Ywein* a *grein*. Dilyna batrwm *enuein*, *cemmein* a.y.b.<sup>355</sup>

tired	tir, tyr	-oedd, -edd, (prin) -ioedd	<b>TIR</b> eg. 'land, ground'	CBT 6.20.93	Mawl Llywelyn ab Iorwerth a'i Deulu
tiredd			tir	CBT 1.15.22	Elidir Sais Dafydd Benfras
tiret			tir	BBC 8.4 CBT 1.3.112	Meilyr Brydydd Hywel ab Owain Gwynedd Gwynfardd Brycheiniog Cynddelw Brydydd Mawr Llygad Gŵr

Cymh.

<sup>353</sup> GPC; LEIA, T-62.

<sup>354</sup> SBCHP, tt. 63-4; VKG I, tt. 99, 377.

<sup>355</sup> CBT 1, t. 188.

tirion			tirion ll. / eg. 'lands; territory'	BBC 5.145 CBT 6.19.4	Mawl Llywelyn ab Iorwerth
tiryon			tirion	CA GK CBT 1.16.27	Elidir Sais Gwynfardd Brycheiniog Einion Wan

Cymh. ?EWSP tt. 435, 440 tirion

Cedwir *tir* a *tirion* ar wahân gan GPC:

*Tir*: H. Grn. *tir*, Crn. C. *tyr*, Crn. Diw. *teer*; Llyd. *tir*; H. Wydd. *tir* s, dir. < ? IE *\*ters-* / *\*tēros*.<sup>356</sup> Awgryma Thurneysen *\*ters-r* > *\*tēsr-* > *tír* yn achos yr Wyddeleg. Cytuna Wodtko *et al.* efallai mai bonau-*s* yw'r geiriau Celtaidd, ond nid yw hyn yn sicr.<sup>357</sup> Bôn-*s* yw'r Cym. *tir*, yn ôl Pedersen, a'i luosog yn *\*-esa* > *-oedd*.<sup>358</sup> Hwn yw'r terfyniad arferol mewn Cymraeg Modern.<sup>359</sup> Mae'n drawiadol y ceir *tiredd* anhanesyddol yn gyson yn ein henghreffftiau Cymraeg Canol uchod. Daw *-edd* o *\*-ijās*, terfyniad lluosog y bonau-*ī*.<sup>360</sup>

*Tirion*: Mae'r terfyniad *-ion* naill ai'n ôl-ddodiad enwol o'r Brth. *\*-onos*, *\*-onā*, neu'n derfyniad lluosog. Cymharer Llyd. M. *tirien*, *tirion* 'partie haute de pré (terre sèche, & terre ferme)' = 'rhan uchaf y maes (tir sych a thir wedi'i ffermio)'. Yn ôl Hemon, ystyr y Llyd. M. Cynnar *tirien* a Llyd. M. *trion*, ll. *-où* yw 'diffeithdir'.<sup>361</sup> Cymharer y gwahaniaeth rhwng ystyron *tir* a *tirion* yn *[n]eur sylleis olygon ar dirion dir* (cyfieithiad Rowland '?uncultivated land').<sup>362</sup> Gellir cyfieithu *tirion* ag ystyr unigol neu luosog yn ôl cyd-destun, felly.

treissyeu	treis, treys	(prin) treisiau, treision	<b>TRAIS</b> eg.b. '(act or instance of) violence'	CBT 1.8.86	Gwalchmai ap Meilyr Llywarch ap Llywelyn
treissyon			trais	CBT 5.9.19	Llywarch ap Llywelyn

Ychydig o drafod a fu ar yr enw hwn ond awgryma Morris Jones darddiad o *\*treks-* < *\*trenk-s-* sy'n gytras â'r Cym. *trenn*; Alm. *streng*.<sup>363</sup> Cytuna Loth fod *trais* efallai'n gytras â'r Gwydd. *tress u*, g., ffurfiad o *trén*, ond gwrthoda'r tarddiad o *\*treks-* a ddylai roi *trech* yn

<sup>356</sup> GPC; VKG I, t. 83.

<sup>357</sup> GOI, t. 39; Wodtko *et al.*, *Nomina im Indogermanischen Lexikon*, tt. 701-2.

<sup>358</sup> VKG II, tt. 95-6.

<sup>359</sup> GMW, t. 28.

<sup>360</sup> CCCG, t. 170; LHEB, t. 351.

<sup>361</sup> Favereau, *Dictionnaire du breton*; GIB; GPC.

<sup>362</sup> EWSP, tt. 440, 490.

<sup>363</sup> WG, t. 142.

unig yn Gymraeg.<sup>364</sup> Rhestra H. Zimmer *trais* ochr yn ochr â'r H. Wydd. *trén*, Cym. *traha*, *trech*, *traws*.<sup>365</sup> Ni ellir sefydlu tarddiad *trais* yn anuniongyrchol, ond gall y bôn Gwydd. *tress* fod o blaid y lluosog yn *-au*.

trelyt	tre, treb, tref	trefi, -ydd, -oedd, ll. dwbl (prin) trefios	<b>TREF</b> , tre eb.(g.) 'town; dwelling(-place)'	CBT 2.26.113	Gwynfardd Brycheiniog
treui			tref, tre	CBT 5.25.19	Llywarch ap Llywelyn
treuit			tref, tre	BBC 30.94	
treuyd			tref, tre	CA A.13 CBT 7.30.26	Iorwerth Fychan
treuyt			tref, tre	CBT 1.3.111	Meilyr Brydydd Gwalchmai ap Meilyr Llywelyn Fardd I Hywel ab Owain Gwynedd Daniel ap Llogwrn Mew Llygad Gŵr
trevit			tref, tre	BBC 40.21	
trewi			tref, tre	BBC 17.35	
trewit			tref, tre	BBC 30.53	

Cymh. EWSP t. 455 trewit, t. 456 treuit (mewn enw lle)

Crn. C. *tre*, Crn. Diw. *treā*; H. Lyd. *treb*, ll. *trebou*, Llyd. C. *treff*, Llyd. Diw. *tre(v)*; Gal. *Atrebatēs*; H. Wydd. *treb* ā, b., Gwydd. Diw. *treabh* < IE \**treb-ah<sub>2</sub>*-.<sup>366</sup> Os bôn-ā oedd gan *tref* megis yr enw Gwyddeleg, disgwyliid ll. \**tref*.

tretheu	treth	-i, -au, -oedd, (prin) tryth, trethion	<b>TRETH</b> eb. 'tax, duty'	CBT 2.25.27	Gwynfardd Brycheiniog Cynddelw Brydydd Mawr Phylip Brydydd Llygad Gŵr
trethoet			treth	CBT 7.4.7	Y Prydydd Bychan
tryth			treth	CBT 1.7.107	Gwalchmai ap Meilyr

Cymh.

artretheu	ardreth	-i, -au, -ion, -oedd	ardreth eb.g. 'tax, duty'	CBT 4.9.175	Cynddelw Brydydd Mawr
-----------	---------	-------------------------	------------------------------	-------------	-----------------------

<sup>364</sup> LEIA, T-135-6; Loth, J., 'Remarques et à additions la grammaire galloise historique et comparée de John Morris Jones', RC 36 (1915-16), 168.

<sup>365</sup> Zimmer, Heinrich, 'Keltische studien I. Zur wortforschung', *Zeitschrift für vergleichende Sprachforschung* 24 (1879), 207.

<sup>366</sup> DOB; GPC; LEIA, T-127-8; Wodtko *et al.*, *Nomina im Indogermanischen Lexikon*, t. 705.



Rhestra Loth Llyd. *treth*, *treiz* ‘passage sur une rivière ou un bras de mer’ a geir mewn enwau lleoedd megis Kaer en Treth.<sup>367</sup> Ceir lluosogion Llydaweg Modern Cynnar yn *treizyou* a *treou*.<sup>368</sup> Noda Williams am *treth*: ‘in old orthography this could be for *treith*, which recalls MBr. *treiz*, for the crossing of a river or a strait.’<sup>369</sup> Mae *treth* / *treith* a *treiz* yn debyg o fod yn gytras. Er hynny, ansicr yw tarddiad *treth*, ond mae’r dystiolaeth Lydaweg o blaid *trethau* fel y lluosog gwreiddiol.

TRWCH gw. AMDRWCH

tyll	toll, tull, twll	tyllau (twllau), (prin) tyll (e.); tyll, -on, -ion (ans.)	<b>TWLL</b> eg. / ans. ‘hole; full of holes’	CBT 3.9.21	Cynddelw Brydydd Mawr
tyllei			twll	CA A.33	
tyllon			twll	CBT 5.11.9	Llywarch ap Llywelyn

Crn. C. a Crn. Diw. *tol(l)*, Crn. C. ll. *tel(l)*; H. Lyd. *tull*, ll. (*cun-*)*tullou*, Llyd. C. a Llyd. Diw. *toull*; Gwydd. *toll* o, g. < \**tuk-slo-*.<sup>370</sup> Os rhedir y gair fel *bôn-o* gwrywaidd rheolaidd, mae Cym. *tyll* a Crn. *tel(l)* yn lluosogion gwreiddiol. Noder, er hynny, y defnydd ansoddeiriol yng ngherdd Cynddelw: *tyll eu hysgwydawr* lle y deellir ‘tyllog’. Mae’n ddiddorol y ceir y ffurf newydd yn *-ei* (= *-au*) yn CA er bod Cynddelw yn cadw *tyll*. Gallai hwn fod yn lluosog ansoddeiriol gan Gynddelw ei hun, neu’n adffurfiad o’r lluosog ansoddeiriol *tyll(i)on*. Ni cheir enghreifftiau o luosog enwol *twll* gan Feirdd y Tywysogion, ac ni wyddys, felly, pa ffurf a ddefnyddient.

tyrau	t6r	tyr(i)au, tyr(i)oedd, (prin a diw.) tyrod	<b>TŴR</b> eg. ‘tower, keep’	CBT 6.29.5	Dafydd Benfras
tyreu			tŵr	CBT 5.20.47	Llywarch ap Llywelyn Llygad Gŵr
tyryoet			tŵr	CBT 5.25.56	Llywarch ap Llywelyn Llygad Gŵr

<sup>367</sup> Loth, J., *Chrestomathie Bretonne (Armoricaïn, Gallois, Cornique)*, Paris, 1890, t. 235.

<sup>368</sup> GIB.

<sup>369</sup> Williams, Ifor, *Armes Prydein: The Prophecy of Britain: from the Book of Taliesin*, Dublin, 1982, t. 55.

<sup>370</sup> GPC; LEIA, T-103; VKG I, t. 378.

H. Grn. *tur*, Crn. C. *tour*; Llyd. *tour*; Gwydd. C. *tor* o, g. Awgryma Pedersen i'r geiriau Celtaidd gael eu benthg o'r H. Ffr. *tour* (neu S. C. *tour* yn ôl GPC).<sup>371</sup> Benthyciad o'r Llad. *turris* yw'r Gwydd. *tor* yn ôl Vendryes, ac awgryma y daw *túr*, ll. *túra* (prin) o'r H. Ffr. *tour*.<sup>372</sup> Mae'n amlwg i'r ffurfiau lluosog Cymraeg i gyd gael eu creu drwy gydweddiad â gwahanol fonau.

Sylwer y ceir y naill luosog a'r llall gan Lywarch ap Llywelyn a chan Lygad Gŵr, a dengys hyn eu bod yn gydygfnewidiol i Feirdd y Tywysogion.

tyruein	turvf, twrf, twryf, t6ryf	tyrfau (twrfau), (prin) tyrf, tyrfain, (prin a diw.) tyrfoedd	<b>TWRF</b> , twrw eg. 'loud noise, din'	CBT 4.4.97	Cynddelw Brydydd Mawr
tyryf			twrf, twrw	CBT 4.1.63	Cynddelw Brydydd Mawr

Cymharer Llad. *turba* (> Cym. *torf*), *turbō* 'corwynt' a *turbō* 'cadwaf dwrw', ond ansicr yw'r berthynas rhwng y rhain a *twrf*.<sup>373</sup> Noda Williams mai 'un o ystyron *twr(y)f* yn yr hen destunau yw "torf".<sup>374</sup> Rhydd Pokorny y ferf Gwydd. C. *torbaid*, Cym. *twrf*, *tyrfu* be. a Llad. *turbāre* be. fel geiriau cytras, a Cym. *torf* fel benthyciad o'r Lladin. Deuai *twrf*, felly, o'r IE \**tur-* + *b-*.<sup>375</sup>

Mae Pedersen hefyd yn gwrthod benthyciad o'r Llad. *turbō* oherwydd y dylai /u/ yn *twrf* darddu o *o*.<sup>376</sup> Mae Jackson, Lewis a Williams, fodd bynnag, i gyd yn fodlon tarddu *twrf* a *twrw* o *turbō*, er nad yw Williams yn gwrthod syniad Pokorny ychwaith.<sup>377</sup> Yn ôl Williams, 'nid oes dim yn ffurf *twrf* i rwystro ei dderbyn fel benthg o'r Lladin, yn union fel y derbynnir *torf* o *turba*; nid oes dim yn erbyn ei gymryd fel cytras â'r Ll. *turbo* ychwaith.'<sup>378</sup>

Dealla'r golygyddion fod *tyrfein* gan Gynddelw 'yn ll. *twryf* neu *toryf*'.<sup>379</sup> A all *tyrfein* ddigwydd ar sail y lluosog Llad. *turbinēs* (er nad ydynt yn cyfateb yn llwyr o ran seineg)? Cefnogir yr awgrym hwn gan y ffaith nad yw *-ain* yn derfyniad cynhyrchiol iawn.

tuorchennou	tywarch, tywarchen, tywarchenn	tyweirch tywyrch (prin)	<b>TYWARCH</b> eb. 'clod, sod'	J 56	
-------------	--------------------------------------	-------------------------------	--------------------------------------	------	--

<sup>371</sup> GPC; LEIA, T-111; VKG I, t. 238.

<sup>372</sup> LEIA, T-111, T-184.

<sup>373</sup> GPC.

<sup>374</sup> Williams, Ifor, 'twrf, torf', BCS 11 (1944), 91.

<sup>375</sup> IEW, t. 1100.

<sup>376</sup> VKG II, t. 60.

<sup>377</sup> Lewis, *Elfen Ladin*, t. 19; LHEB, t. 414; Williams, Ifor, 'twrf, tyrfu, tyrfā', BCS 11 (1944), 146.

<sup>378</sup> Williams, 'twrf, tyrfu, tyrfā', 146.

<sup>379</sup> CBT 4, t. 75.

		tywerchi, (prin) tywarchau			
tywarch			tywarch	BBC 12.24 CA A.89 CBT 1.19.9	Elidir Sais
tyweirch			tywarch	CBT 3.8.17	Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn

Cymh. EWSP t. 412 tywarch

Crn. enwau lleoedd Towargh Ane, Tredower, Tredore, Trethowa, Parkentower; Llyd. C. *taouarc'h, taouarchen*, Llyd. M. Cynnar ll. *taourc'hennou*.<sup>380</sup> Lluosog wedi ei ffurfio o'r unigolyn yw *tuorchennou*, yn union fel y Llyd. *taourc'hennou*. Mae'n ddi-ddorol y ceir hefyd luosog dwbl wedi ei ffurfio ar sail y ffurf luosog arferol *meillion, mellhionou* yn MC, yng nghyfnod Hen Gymraeg.

Gall y ffurf unigolynnol *tywarchen* awgrymu y gallasai fod gan *tywarch* ystyr torfol weithiau, er na chydnebydd GPC hyn.

uiron	vir, vyr, wyr	wyr(i)on, (prin) wyrïau	<b>ŴYR</b> eg. 'grandson'	BBC 17.118	
wyron			ŵyr	CBT 5.25.45	Llywarch ap Llywelyn
wyryon			ŵyr	CBT 7.21.8	Y Prydydd Bychan Bleddyn Fardd

?H. Lyd. *ni on uret* gl. *idem uenturos*, Llyd. M. (Leon) *douaren*, (Van.) *douaran, doaran*; H. Wydd. *ae*, Ogam AVI (gen.), Gwydd. C. *óa, úa, ó*.<sup>381</sup> Dadleua Fleuriot mai *ur*, ffurf ar *uir*, yw unigol y ffurf *uret* yn H. Lyd. *ni on uret*.<sup>382</sup> Awgryma Schrijver gysylltiad rhwng y Llyd. *douaren* a *doare* 'manner', Cym. *dwyre*, ac felly nid yw'n eu trafod gyda'r gair *ŵyr*.<sup>383</sup>

Ailgrëir yr enw Celtaidd yn *\*oujo-* gan Pedersen, ond ni ellir derbyn hyn oherwydd yr *a* yn AVI ac *áue* y gellid eu tarddu o *\*awjo-*, fel gan Vendryes, ond nid o *\*owjo-*. Mae'n debyg y rhoddai *\*awjo-* Cym. C. *\*\*eu-r*, er hynny. Felly cynigia Schrijver darddiad newydd

<sup>380</sup> GIB; GPC; Padel, *Cornish Place-Name Elements*, t. 222.

<sup>381</sup> GPC.

<sup>382</sup> DOB.

<sup>383</sup> SBCHP, t. 301.

o \**āwjos*.<sup>384</sup> Bôn-*io* sydd yma (a'i luosog hanesyddol heb fod yn wahanol i'r unigol) a cheir, felly, *wyrion* ac *wyron* drwy gydweddiad â lluosog y bonau-*n*.<sup>385</sup>

ymchuelev	ymchoel, ymchuel	ymchwelion, ymchwelau	<b>YMCHWEL</b> , ymchoel eg.b. 'turn, retreat'	BBC 17.74	
ymchwelion			ymchwel, ymchoel	CBT 6.31.24	Dafydd Benfras

Bôn y ferf *ymchwelaf*, *ymchoelaf* yw'r gair hwn.<sup>386</sup> Y berfenw Cymraeg Canol oedd *ymchwelut*; a daeth *ymchwel* yn ferfenw mewn Cymraeg Modern.<sup>387</sup> Enwau yn hytrach na berfenwau yw ein henghreffitiau uchod felly. Cyfetyb bôn *ymchwel* i *chwyl* g./b. ac i *chwêl* b. sy'n gytras â'r Gwydd. *sêl* g. < IE \**swelo-* neu \**swelā* (*swīlo-*, *-lā* yn ôl Pokorny).<sup>388</sup> Os felly, mae'r lluosogion Cymraeg yn *-au* ac *-ion* yn newydd. Os tardda *chwêl* o \**swelā*, disgwylir ll. \**chwêl*.

ysbrydoedd	espryt, ysbryd, yspryt	-(i)on, -(i)oedd, -(i)au, &c.	<b>YSBRYD</b> eg. 'spirit, soul'	CBT 6.30.2	Dafydd Benfras
ysprydyeu			ysbryd	CBT 7.41.2	Gruffudd ab yr Ynad Coch

Benthyciad o'r Llad. *spīritus* (drwy ffurf megis \**spīritus*); cymharer H. Grm. *spirit*, Crn. C. *sperys*, *spyrys*; Llyd. C. *speret*; H. Wydd. *spiurt*, *spirut*.<sup>389</sup> Bôn-*u* yw Llad. *spīritus* ac mae Cym. *ysprydiau* yn dilyn y rhediad hwn ar wahân i'r *-i-* gydweddol. Yn achos Gruffudd ab yr Ynad Coch mae *-au* yn rhan o'r brifodl. Yng ngherdd Dafydd Benfras, ceir *ysprydol* ar ddiwedd y llinell nesaf.

sgliuon	ysglyf, ysglyyf, ysgyuyl	ysglyfion, sglyfon, ysglyffiaid, ysglyf(i)on	<b>YSGLYF</b> , sglyf(f), ysglyff, ysgylf, ysgylf eg. 'predator, bird or beast of prey'	CA B.66	
ysglyuyon			ysglyf, sglyf(f),	CBT 4.4.227	Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn

<sup>384</sup> LEIA, A-103; SBCHP, t. 301; VKG I, t. 56.

<sup>385</sup> CCCG, tt. 167, 177-8.

<sup>386</sup> GPC.

<sup>387</sup> Schumacher, *Historical Morphology of the Welsh Verbal Noun*, t. 106.

<sup>388</sup> IEW, t. 1041; LEIA, S-77-8.

<sup>389</sup> GPC.

			ysglyff, ysgyfl, ysgylf		
ysgyluyon			ysglyf, sglyf(f), ysglyff, ysgyfl, ysgylf	CBT 5.9.20	Llywarch ap Llywelyn
ysgylvyon			ysglyf, sglyf(f), ysglyff, ysgyfl, ysgylf	CA A.66	

H. Grn. *scoul*, Crn. M. *scowl*, ll. *scowlas* ‘barcud’; H. Lyd. *scubl*, Llyd. C. *scoul*, Llyd. M. *skoul*, ll. *skouled* ‘barcud’. Ceir hefyd ffurfiau Cymraeg heb yr y-brosthedig *sglyf*, *sglyfaeth* a.y.b.<sup>390</sup> Mae’r ffurf luosog heb iod yn CA yn llaw B, er y ceir *-ion* yn llaw A. Sylwer bod Koch yn ail-greu *do-sclibon* heb y sain [j].<sup>391</sup> Awgryma’r Gernyweg a’r Llydaweg fod y ffurf heb yr y-brosthedig yn wreiddiol yn y Frythoneg, ond ynddynt hwy y ceir terfyniad gwahanol i’r Gymraeg (cyfetyb y Crn. *-as / -es* i Cym. *-edd*, Llyd. *-ed*).<sup>392</sup> Ni thrafoda’r ieithyddion darddiad y gair ymhellach a dilynir yma Koch, h.y. awgrymir ffurf wreiddiol heb y-brosthedig a heb iod er nad yw hyn yn sicr.

ysgyr	escurr, scirenn, ysc6r, ysg6r	ysgyr, ysgyr(i)on, sgyrion, ll. dwbl. ysgyrionau, sgyrions	<b>YSGWR</b> ‘spear, lance; (thick) branch’	CBT 2.5.31	Llywelyn Fardd I Owain Cyfeiliog
ysgyryon			ysgwr	CBT 4.4.240	Cynddelw Brydydd Mawr Einion Wan Hywel Foel

H. Grn. *scorren*, Crn. M. *scōr* (tf.), *scoren*, ll. *scorennow* ‘cangen’, Crn. M. *skyren*, ll. *skyrennow* (gw. isod); Llyd. C. *scourr*, *squiryenn*, Llyd. M. *skourr*, *skirienn*, ll. *skourrou* ‘cangen’. Cymharer H. Gym. *scirenn* a Cym. C. *escheren*.<sup>393</sup>

Awgryma’r ffurfiau yn *-en(n)* fod gan yr enw Brythoneg rym torfol. Mae Crn. *scōr*, a *\*skyr* disgwylidig, o blaid hynny ond cymharer amheuon Padel: ‘\**scor* might have been

<sup>390</sup> GPC; Hemon, *Geriadur Brezhoneg*; Nance, *English-Cornish and Cornish-English Dictionary*.

<sup>391</sup> Koch, *The Gododdin of Aneirin*, t. 22.

<sup>392</sup> Jenner, Henry, *A handbook of the Cornish language: chiefly in its latest stages with some account of its history and literature*, London, 1904, t. 86.

<sup>393</sup> Falileyev, *Etymological Glossary*, t. 141; GPC; Hemon, *Geriadur Brezhoneg*; Nance, *English-Cornish and Cornish-English Dictionary*.

singular, as in Welsh and Breton, with *scorren* a derivative, or else the *-en* could have been taken as a singulative, and \**scor* have served as the plural.<sup>394</sup> Rhestra GPC (*y*)*sgyren* fel ffurf fachigol ond gallai fod yn ffurf unigolynnol hefyd. Nid anghyffredin yw cymysgiad rhwng ffurfiau bachigol ac unigolynnol yn yr ieithoedd Brythonaidd. Yn ôl Pedersen, ôl-ddodiad bachigol yn wreiddiol oedd *-en / -yn*.<sup>395</sup>

Awgrymir tarddiad o'r IE \**sker-* 'torri' gan GPC a chan Falileyev, ond ni chrybwylla Pokorny ond y Cym. *ysgar*, *gwasgar* o \**sker-*.<sup>396</sup> Anodd yw sefydlu tarddiad sicr ond awgrymir yn betrus mai hen enw torfol sydd yma, a bod *ysgyr* ac *ysgyrion* yn lluosogion newydd.

Mae'n edrych fel pe bai gennym ddau enw Cernyweg â gwahanol lafariaid, sef 1) *scoren-now*, tf. *scōr* 'main branch, bough; bowed stick, used by butchers to hang carcass [sic] on' 2) *skyren-now* '?butcher's gambrel, as B. *skourr*'.<sup>397</sup> Gellid awgrymu \**skyr* (tf.) ar ôl y patrwm *scōr*, *skorennow*. Mae'n debyg i'r ffurfiau torfol gael eu disodli'n gynnar gan y bachigyn, megis yn achos *as-en* sydd wedi disodli \**as* (gw. ASEN). Mae'r unig enghraifft sydd gennym o *scōr* yn *Bewnans Ke*, ond mae'n debyg mai benthyciad o'r S. *score* sydd yno.<sup>398</sup> Cynrychiolir y ddwy ffurf yn *Archaeologia Britannica* gan *skirau* 'branches' a *skoren* (Llyd. *skur*) 'a bough, a branch'.<sup>399</sup> Ceir *skyrennov* yn *Beunans Meriasek* wedi ei gyfieithu 'frontals'. Awgrymir felly ystyr 'bachyn' yn ogystal â 'cangen' i'r ffurfiau yn *skyr-*.

scuitaur	ysc6yt, ysgwyd, ysgwyt, ysg6yt	-awr, -au, -ydd	<b>YSGWYD</b> eb.g. 'shield'	CA A.100	
scuytaur			ysgwyd	CA A.41	
yscwydeu			ysgwyd	CBT 4.9.137	Cynddelw Brydydd Mawr
ysgwydaur			ysgwyd	CA A.94 CBT 3.9.21	Cynddelw Brydydd Mawr
ysgwydawr			ysgwyd	CA A.4 CBT 1.7.35	Gwalchmai ap Meilyr Cynddelw Brydydd Mawr Llywarch ap Llywelyn Einion Wan Phylip Brydydd

<sup>394</sup> Padel, *Cornish Place-Name Elements*, t. 206.

<sup>395</sup> VKG II, tt. 57-8.

<sup>396</sup> Falileyev, *Etymological Glossary*, t. 141; GPC; IEW, t. 939.

<sup>397</sup> Nance, R. Morton (gol.), *A New Cornish-English Dictionary*, St. Ives, 1938.

<sup>398</sup> Thomas, Graham & Williams, Nicholas (goln), *Bewnans Ke: The Life of Saint Kea*, Exeter, 2007, t. 150.

<sup>399</sup> Lhuyd, Edward, *Archaeologia Britannica*, Oxford, 1707, tt. 63b, 136a yn

[http://books.google.co.uk/books?id=KmsuAAAAQAAJ&dq=archaeologia+britannica&printsec=frontcover&source=bl&ots=NTSt2xK7-y&sig=VLr2Zwj151wCEhnjF8NNug9Dd9A&hl=en&ei=VGmJSuy-I566jAeRoPmiCw&sa=X&oi=book\\_result&ct=result&resnum=1#v=onepage&q=&f=false](http://books.google.co.uk/books?id=KmsuAAAAQAAJ&dq=archaeologia+britannica&printsec=frontcover&source=bl&ots=NTSt2xK7-y&sig=VLr2Zwj151wCEhnjF8NNug9Dd9A&hl=en&ei=VGmJSuy-I566jAeRoPmiCw&sa=X&oi=book_result&ct=result&resnum=1#v=onepage&q=&f=false); gwelwyd 17/08/2009.

					Bleddyn Fardd
ysgwydeu			ysgwyd	CBT 4.9.199	Cynddelw Brydydd Mawr
ysgwytawr			ysgwyd	CBT 5.5.43	Llywarch ap Llywelyn
yskwydid			ysgwyd	CBT 7.30.57	Iorwerth Fychan

Cymh. EWSP t. 408 ysgwydawr, t. 424 cant ysgwydawr

Crn. C. *scos*; H. Lyd. *scuit*, *scoet*, Llyd. C. *scoed*, Llyd. M. Cynnar ll. *scoëjou* (â'r ystyr 'écusson'= 'arfbais'), Llyd. M. ll. *skouedou*; H. Wydd. *sciath* o, g., ll. *scéith* < IE \**skeitom*.<sup>400</sup>

Os diryw oedd yr enw Brythoneg, megis Llad. *scutum*, a gellir sylwi ei fod yn enw benywaidd mewn Cymraeg Modern, disgwylid lluosog unffurf â'r unigol hanesyddol.<sup>401</sup>

Nodir sut y ceir yr y-brothetic yn yr enw Cymraeg, ond nid yn yr ieithoedd Celtaidd eraill, megis yn achos *ysgwr* uchod.

<sup>400</sup> GIB; GPC; LEIA, S-43; SBCHP, tt. 194, 215.

<sup>401</sup> Lewis & Short, *A Latin Dictionary*.